



PRIFYSGOL CYMRU  
Y Drindod Dewi Sant  
UNIVERSITY OF WALES  
Trinity Saint David

**SIARADAETH FRODOROL:  
YMCHWIL I'W FODOLAETH  
POSIBL YMHLITH ATHRAWON  
YNG NGHYMRU**

*Melanie Corp*

***ECGE7002Q/C***

*Rhagfyr 30, 2022*

*Yr Athrofa Addysg a'r Dyniaethau*

## **FFURFLEN DATGANIAD**



PRIFYSGOL CYMRU  
**Y Drindod Dewi Sant**  
UNIVERSITY OF WALES  
**Trinity Saint David**

**Enw'r Rhaglen Astudio: MA Dwyieithrwydd ac Amlieithrwydd**

**Enw'r Myfyriwr: MELANIE CORP**

### **DATGANIAD**

**Yr wyf yn ardystio bod yr holl waith hwn yn ganlyniad i'm hymdrech unigol, a bod pob ffynhonnell wedi'i chydabod.**

**Llofnodi M J Corp (Myfyriwr)**

**Dyddiad 30 Rhagfyr 2022**

### **DATGANIAD**

**Rwy'n fodlon bod y gwaith hwn yn ganlyniad i ymdrech y Myfyriwr.**

**Llofnod: Dr Hywel Glyn Lewis (Darlithydd)**

**Dyddiad: 30/12/22**

## **DIOLCHIADAU**

Hoffwn ddiolch i Dr Hywel Glyn Lewis, Cyfarwyddwr y Cwrs, am ei gefnogaeth dros y blynyddoedd diwethaf wrth gyflwyno pynciau amrywiol a pherthnasol a fu'n sbardun ar gyfer cymaint o drafodaeth ddifyr ac addysgiadol.

Diolch i bawb a gyfrannodd drwy'r holiaduron a'r cyfweiliadau. Bu'n ffrainc cael cwrdd â chynifer o bobl diddorol.

Diolch, yn ogystal, i bawb yn y teulu am eu cymorth gyda'r peilota ac am eu hamynedd tra fy mod i'n cwblhau gwaith.

## CYNNWYS

FFURFLEN DATGANIAD.....	2
DIOLCHIADAU.....	3
CYNNWYS .....	4
CRYNODEB.....	6
LLYTHRENWAU .....	7
FFIGURAU A GRAFFIAU.....	8
1. Cyflwyniad.....	9
1.1 Yr Ymgyrch Genedlaethol .....	9
1.2 Sefyllfa athrawon ‘ail-iaith’ .....	11
1.3 Perthnasedd yr astudiaeth.....	12
1.4 Nodau ac amcanion yr ymchwil.....	13
1.5 Cwestiwn Ymchwil:.....	14
2. Adolygiad Llenyddiaeth.....	16
2.1 Cydnabod siaradaeth frodorol .....	16
2.2 Twf siaradaeth frodorol.....	17
2.3 Cydnabod gwahaniaethau .....	19
2.4 Natur dwyieithrwydd .....	20
2.5 Yr effaith ar unigolion.....	23
2.6 Ieithoedd eraill .....	24
2.7 Y sefyllfa gyfredol yng Nghymru .....	25
2.8 Anfanteision a manteision athrawon ‘ail-iaith’ .....	26
3. Adolygiad Methodoleg .....	29
3.1 Cyflwyniad.....	29
3.2 Cyd-destun yr Astudiaeth.....	30
3.3 Cyfiawnhau Methodoleg .....	30
3.4 Moeseg .....	31
3.5 Y cam cyntaf- holiaduron.....	33
3.6 Y camau dilynol- cyfweliadau .....	35
3.7 Gogwydd .....	36
3.8 Diogelwch .....	37
3.9 Dibynadwyedd, dilysrwydd a chyffredinoliadwyedd .....	38
3.10 Dadansoddiad .....	40
3.11 Casgliadau .....	40
4. Canlyniadau a dadansoddiad.....	42
4.1 Cyflwyniad.....	42
4.2 Proffil Cyfranogwyr yr Holiadur .....	42
4.3 Cam 1 - Yr Holiaduron .....	43
4.4 Profiadau negyddol .....	47
4.5 Profiadau Cadarnhaol.....	49
4.6 Y Ffordd Ymlaen .....	50
4.7 Cam 2 - Y cyfweliadau ag athrawon.....	52
4.8 Cam 3 - Y cyfweliadau gyda rhanddeiliaid eraill .....	56
5. Casgliadau ac argymhellion.....	60
5.1 Cyflwyniad.....	60
5.2 Nodau’r ymchwil: casgliadau .....	60
5.3 Argymhellion .....	62
5.4 Cyfyngiadau .....	63
6. CYFEIRNODAU .....	65

7.	ATODIADAU.....	68
7.1	Atodiad 1- CAIS AM GYMERADWYAETH FOESEGOL .....	68
7.2	Atodiad A - Holiadur (lluniau o'r sgriniau yn Forms) .....	82
7.3	Atodiad B - Amlinelliad y Cyfweiliadau .....	87
7.4	Atodiad C - Dogfen Gydsynio Gwybodus .....	90
7.5	Atodiad CH - Trawsgrifiadau'r Cyfweiliadau .....	92

## **CRYNODEB**

Ceir ymchwil yn yr astudiaeth hon i ffenomen a elwir yn 'native-speakerism' ac y cyfeirir ati fel 'siaradaeth frodorol' ar gyfer ei thrafod yn y Gymraeg.

Dechreuwa'r astudiaeth gyda disgrifiad o'r cyd-destun ieithyddol yng Nghymru, gan gynnwys yr ymgyrch wleidyddol i gynyddu nifer siaradwyr yr iaith Gymraeg.

Gyda bodolaeth siaradaeth frodorol ar lefel rhyngwladol, ceir sefyllfa lle rhoddir mwy o anrhydedd i unigolion a ystyrir yn siaradwyr 'mamiaith' wrth iddynt weithio fel athrawon yn addysgu iaith benodol i blant neu oedolion. Mewn nifer o wledydd ceir amodau cyflogaeth swyddogol yn cefnogi bodolaeth y ffenomen. Serch hynny, gwrthodir siaradaeth frodorol fel math o ragfarn gan eraill. Yn yr adolygiad llenyddol sonnir am ymchwil yn ceisio datgan buddion o gael athrawon sydd eisoes wedi dysgu'r iaith dan sylw a nodi sut y gall siaradaeth frodorol hefyd gael effaith niweidiol ar yr unigolion hynny.

Nid oes ymchwil blaenorol yng Nghymru i brofi neu wrthbrofi bodolaeth siaradaeth frodorol, felly, trafodaeth agoriadol sydd yn yr astudiaeth hon. Cwblhawyd ymchwil meintiol ac ansoddol er mwyn casglu tystiolaeth o fodolaeth y ffenomen neu beidio. Defnyddiwyd dulliau cymysg trwy holiaduron ar lein ac yna cyfweiliadau er mwyn casglu barn a thystiolaeth o achosion i gefnogi neu wrthbrofi bodolaeth siaradaeth frodorol. Casglwyd, yn ogystal, syniadau ar sut i leihau achosion pe bai'n bodoli neu sut i gefnogi arfer dda wrth annog 'dysgwyr' sy'n athrawon Cymraeg.

Darganfuwyd nad yw siaradaeth frodorol yn bodoli fel rhagfarn gyffredin ond ceir achosion o unigolion yn dangos agweddau negyddol at eraill ar sail cefndir ieithyddol.

Cynigir syniadau a gasglwyd oddi wrth gyfranogion ar sut i greu awyrgylch gadarnhaol ar gyfer y rheiny sy'n ceisio gwella eu Cymraeg ym myd addysg.

## **LLYTHRENWAU**

BERA	British Education Research Council
ELT	English Language Teaching
ERW	Education through Regional Working
NES	Native English Speakers
Non-NES	Non-native English Speakers
TAR	Tystysgrif Addysg i Raddedigion
UCAC	Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

## **FFIGURAU A GRAFFIAU**

Ffigur 1 Tair thema'r cynllun Miliwn o Siaradwyr Cymraeg.....	9
Ffigur 2 Model Kachru (1985) o Gylchoedd Ehangol yr Iaith Saesneg - Ffynhonell: alchetron.com.....	19
Ffigur 3 Dylanwadau ar hyder athrawon, yn ôl ymchwil Caravita (2013).....	24
Ffigur 4 Tabl Manteision Athrawon Mamiiaith ac Ail-Iaith yn ôl Caravita (2013).....	27
Ffigur 5 Graff yn dangos profiad o ddysgu Cymraeg y boblogaeth yn y sampl. ....	44
Ffigur 6 Tabl atebion i'r cwestiwn, 'Ydych chi o'r farn bod y ffenomen yn bodoli yng Nghymru o fewn addysgu Cymraeg fel ail iaith?' .....	45
Ffigur 7 Tabl o ymatebion i'r un cwestiwn yn ôl lleoliad yr ymatebwyr. ....	46



## Pennod 1

### 1. CYFLWYNIAD

#### 1.1 Yr Ymgyrch Genedlaethol

Yn ei chynllun ‘Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr’ (Llywodraeth Cymru, 2017a), ceir manylion ar sut y bydd Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y dyfodol agos, dros gyfnod o ddegawdau yn unig, er mwyn cyrraedd ei nod uchelgeisiol ar gyfer gwednewid sefyllfa ieithyddol Cymru.

Dengys y diagram isod, a ddaw o gyflwyniad y ddogfen honno, y cydberthynas rhwng gwahanol elfennau'r cynllun o fewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol

(tud. 5).

*Ffigur 1 Tair thema'r cynllun Miliwn o Siaradwyr Cymraeg*

Un elfen hanfodol a enwir uchod yw addysgu'r Gymraeg i ddisgyblion mewn sefyllfaoedd addysg statudol. Yn ystod 2019, canran y disgyblion mewn ysgolion cyfrwng-Cymraeg oedd 23% yn unig o gyfanswm disgyblion y wlad (Ystadegau Cymru, 2019). Rhaid, felly, cydnabod pwysigrwydd yr ysgolion dwy ffrwd ieithyddol a chyfrwng *Saesneg* yn yr ymdrech i ddatblygu sgiliau iaith y genhedlaeth nesaf. Yn wir, cydnabyddir hynny yn nogfen gynllunio ‘Miliwn o Siaradwyr’ (Llywodraeth Cymru, 2017a). Datgenir ynddi bwysigrwydd trosglwyddo'r Gymraeg i deuluoedd a phobl ifanc heb gefndir yn yr iaith er mwyn cyfrannu at y nod ieithyddol erbyn 2050. Dywed Llywodraeth Cymru yn yr un cyflwyniad â'r ffigur uchod,

Rydym am weld cynnydd yn yr arfer o drosglwyddo'r iaith o fewn y teulu, yr arfer o gyflwyno'r Gymraeg yn gynnar i bob plentyn, system addysg sy'n rhoi sgiliau Cymraeg i bawb, a mwy o werthfawrogiad o sgiliau iaith yn y

gweithle. Ar yr un pryd, rydym wedi ymrwymo i gefnogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, yn y gweithle, ac wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus (2017a: 6).

Amlygir yn y dyfyniad gydnabyddiaeth y llywodraeth bod ysgolion yn ganolfannau dysgu iaith ar gyfer disgyblion, ond hefyd yn lleoliadau lle dylai oedolion gael y cyfle i barhau i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol. Gellir disgwyl, felly, ehangu cyfleoedd ar gyfer gwella sgiliau iaith aelodau staff y sefydliadau hynny i'r sawl sydd am wneud hynny (Llywodraeth Cymru, 2017a: 43).

Yn ei dogfen, 'Y Gymraeg Mewn Addysg' (2017b), ceir mwy o fanylion am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu sgiliau staff. Wrth drafod gweithlu'r athrawon, dywedir:

Byddwn yn helpu arweinwyr ac ymarferwyr yng Nghymru i fod yn ddysgwyr proffesiynol gydol oes sy'n parhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a meddu ar yr wybodaeth a'r arbenigedd i ddarparu'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Gymraeg fel pwnc (2017b: 26).

Yna, ceir cyfres o ymrwymadau megis sicrhau cefnogaeth ar gyfer datblygiad proffesiynol gweithwyr, defnydd y Gymraeg fel rhan o hyfforddiant arweinwyr ysgol ac ehangu'r cynllun sabothol cyfredol sy'n bodoli ar gyfer athrawon sydd am ddysgu Cymraeg er mwyn ei defnyddio wrth addysgu. Bwriad amlwg ac eglur y rhain yw creu'r amgylchiadau cadarnhaol o fewn ysgolion i'r rheiny sydd am wella eu sgiliau ieithyddol (ibid).

Os yw nifer y siaradwyr Cymraeg i gynyddu yn gyflym iawn, gellir rhagweld bydd angen i athrawon sydd wedi dysgu Cymraeg fel 'ail iaith'<sup>1</sup> yn wreiddiol, ymuno yn yr ymgyrch i addysgu'r genhedlaeth nesaf. Rhestrir nodau meintiol yn nogfen 'Miliwn o Siaradwyr' sy'n cynnwys "cynyddu nifer yr athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu Cymraeg o 500 i 900 erbyn 2031 ac i 1,200 erbyn 2050" (Llywodraeth Cymru 2017a: 32). Os yw athrawon sydd wedi dysgu Cymraeg fel 'ail-iaith' yn ymuno yn yr

ymgyrch, oni fydd angen y sgiliau, statws a'r cyfleoedd i ennill profiad ymysg y garfan yma i gefnogi addysgu effeithiol?

Ymddengys bod Llywodraeth Cymru (2017a: 7) yn edrych i'r cyfeiriad hwn wrth nodi bod:

... yna botensial am dwf yn y niferoedd o siaradwyr Cymraeg, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny o Gymru sydd â dwysedd poblogaeth uchel ond canrannau is o siaradwyr Cymraeg.

Â'r ddogfen ymlaen i egluro'r angen i sicrhau bod unrhyw un sydd eisiau dysgu'r iaith "yn cael anogaeth a chymorth i ddatblygu ei sgiliau ymhellach os yw'n dymuno gwneud hynny, mewn awyrgylch gynhwysol a chadarnhaol" (Llywodraeth Cymru, 2017a: 11).

Anodd, felly, fyddai gwadu cefnogaeth gyhoeddus Llywodraeth Cymru ar gyfer y rheiny sy'n dysgu Cymraeg, gan gynnwys addysgwyr sy'n datblygu'u sgiliau tra'n oedolion.

Wrth newid y ffocws i ganolbwyntio ar beth sy'n digwydd ym mywyd gwaith beunyddiol athrawon, gall ymchwil i mewn i'r profiad o weithio yn y sector ddangos beth yw lefel y gefnogaeth a geir gan athrawon y'u hystyrir fel rhai 'ail-iaith' wrth iddynt geisio addysgu disgyblion yn yr iaith maen nhw eisoes wedi ei dysgu eu hunain. Yr hyn sy'n dilyn y cyflwyniad hwn yw manylion ymchwil i brofiadau sampl o athrawon Cymraeg sy'n addysgwyr Cymraeg mewn canolfannau Saesneg eu cyfrwng, ac yn cynnwys aelodau o'r garfan 'ail-iaith' honno a drafodwyd uchod.

## **1.2 Sefyllfa athrawon 'ail-iaith'**

Mewn mannau eraill o'r byd lle gwelir awydd cryf i ddysgu ail iaith, astudiwyd ffenomen gan nifer o academyddion a elwir yn 'native speakerism' (e.e. Medgyes, 1992; Phillipson, 1992; Llorca, 2005; Hye-Kyung Kim, 2011). Gan na fu unrhyw

drafodaeth academiaidd ar y testun hwn yn y Gymraeg hyd hyn, mabwysiadwyd y term ‘siaradaeth frodorol’ ar gyfer yr astudiaeth hon.

Term yw hwn sy’n cyfeirio at sefyllfa lle rhoddir mwy o anrhydedd i athrawon sy’n medru iaith fel mamiaith, nag i’r rheiny sydd wedi ei dysgu fel ail iaith eu hunain (e.e. Llurda, 2005; Medgyes, 2014) heb gymryd i ystyriaeth ddylanwadau eraill, megis profiad o addysgu, cymwysterau, sgiliau rhyngbersonol ac ati.

Yn gyffredinol, Saesneg yw’r iaith sydd wedi cael y rhan helaeth o’r sylw academiaidd (e.e Medgyes, 1992; Moussu & Llurda, 2008; Kralova & Tirpakova, 2019), ond mae’n bosibl bod y ffenomen yn bodoli mewn amryw o gyd-destunau ieithyddol eraill sydd heb eu hastudio.

Nodir mewn rhai astudiaethau (e.e. Hye-Kyung Kim, 2011; Caravita, 2013; Kralova & Tirpakova, 2019) y gellir gweld sawl effaith negyddol ar athrawon ‘ail-iaith’ yn sgil dioddef rhagfarn o’r fath, gan gynnwys ymdeimlad o ddibrisio eu cyfraniad proffesiynol, creu ansicrwydd ynglŷn â’u cysyniad o’u hunaniaeth, a lleihau eu lles personol.

Cafwyd gan Medgyes ym 1992, erthygl drawiadol sy’n ymgais i ddadlau dros y buddion a brofir gan fyfyrwyr â thiwtoriaid neu athrawon iaith sydd eisoes wedi profi dysgu iaith ei hunan wrth ei throsglwyddo i eraill yn yr un sefyllfa. Gan fod yr athrawon hynny’n gallu uniaethu â’r dysgwyr, tyn sylw at sut y gall hyn ychwanegu at y profiad adeiladol o ddysgu iaith drwy ddangos cefnogaeth. Erbyn heddiw, ceir corff o ymchwil yn y maes hwn, a drafodir ymhellach yn y bennod nesaf.

### **1.3 Perthnasedd yr astudiaeth**

Gan fod ffocws Llywodraeth Cymru mor glir ar ddatblygu’r iaith Gymraeg dros y degawdau nesaf, ymddengys y byddai o fudd i gynllunwyr gael gwirio a yw’r ffenomen siaradaeth frodorol yn bodoli yma yng Nghymru. Rhagwelir mantais o fod

yn ymwybodol o sefyllfa a all fod yn faen tramgwydd i'r cynllun cenedlaethol yn ei ymgais i gynnwys y rheiny sy'n dewis dysgu'r iaith a'i chynnwys yn eu bywydau proffesiynol. Os oes tystiolaeth o'i fodolaeth, gall ymwybyddiaeth ohono alluogi gweithredu i'w ddileu neu ei leihau.

Amlygir pwysigrwydd hwn wrth ystyried agenda Llywodraeth Cymru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Llywodraeth Cymru, 2016). Ceir, yn y ddeddf, saith nod ar gyfer gwella llesiant y cyhoedd. Un ohonynt yw creu 'Cymru sy'n fwy cyfartal', sef: "cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau" (ibid: 4). Rhoddir, felly, dyletswydd ar unrhyw gorff cyhoeddus i ddiogelu lles ei weithlu cyfan, gan gynnwys hybu cyfleoedd cyfartal ar gyfer gwireddu potensial unigolion o fewn y gweithle.

Ar y llaw arall, fe all yr ymchwil ddangos nad oes tystiolaeth bod y ffenomen siaradaeth frodorol yn bodoli yma yng Nghymru. Os felly, wrth ystyried sut mae Cymru wedi llwyddo i osgoi sefyllfa sydd wedi creu anghydfod mewn gwledydd eraill, efallai bod enghreifftiau o arfer dda i'w rhannu.

Bwriad yr ymchwil hwn, felly, yw ymchwilio i fodolaeth neu absenoldeb y ffenomen yng Nghymru gan greu darlun o sut y caiff ei amlygu, os o gwbl. Os oes achosion i'w cydnabod, bydd ail gam yr ymchwil, a amlinellir ym Mhennod 3 (Methodoleg), yn trafod profiadau unigolion mewn cyfweiliadau, ac yn gofyn i'r unigolion am eu cynigion ar gyfer datrys y sefyllfa. Os na cheir tystiolaeth o siaradaeth frodorol, bydd y cyfweiliadau yn gyfle i drafod sut y llwyddwyd i osgoi hynny yn ôl profiad yr unigolion.

#### **1.4 Nodau ac amcanion yr ymchwil**

1. I ymchwilio i sefyllfa athrawon Cymraeg ‘ail iaith’ sydd wedi dysgu’r Gymraeg fel ‘ail-iaith’ eu hunain er mwyn gweld a ydyn nhw’n ymwybodol o fodolaeth y ffenomen siaradaeth frodorol yng Nghymru.
  - i holi am brofiadau unigolion o fewn y gweithle drwy holiaduron
  - i gasglu mwy o wybodaeth am brofiadau unigolion drwy gyfweiliadau lled-strwythuredig
  - i gasglu barn rhanddeiliaid eraill o fewn y maes ar y wybodaeth a gasglwyd yn ddau gam cyntaf.
  
2. I weld a yw’r buddion a all ddod o brofiadau’r unigolion uchod o ddysgu’r iaith yn cael eu cydnabod o fewn y proffesiwn
  - i greu darlun o sut mae unigolion, o bosibl, wedi profi unrhyw gefnogaeth neu feirniadaeth
  - i gasglu barn unigolion am ba fuddiannau sydd ganddynt i’w cynnig fel dysgwyr diweddar, ac a yw’r rhain yn cael eu cydnabod yn gyhoeddus.
  
3. I holi pa awgrymiadau sydd gan gyfranogion ar gyfer creu ac adeiladu naws gefnogol yn y gweithle sydd yn nod gan y Senedd.
  - i gasglu syniadau yn yr holiaduron a thrafod y syniadau hynny ymhellach mewn cyfweiliadau.

### **1.5 Cwestiwn Ymchwil:**

Ydy’r ffenomen siaradaeth frodorol yn bodoli yng Nghymru ac yn effeithio ar athrawon Cymraeg fel ‘ail-iaith’?

Os ydyw, i ba raddau y gellir lleihau unrhyw effeithiau negyddol a brofir ganddynt o’i herwydd? Pa fanteision o fod wedi dysgu’r iaith sydd ganddynt i’w cynnig?

Os nad oes tystiolaeth o'i fodolaeth, pa fath o arfer dda ymysg athrawon sydd wedi creu naws adeiladol ymysg cydweithwyr, ac a oes argymhellion y gellir eu rhannu ag eraill?

*\*Defnyddir y termau 'mamiath' ac 'ail iaith' yn y gwaith hwn er mwyn hwyluso categorieiddio unigolion yn ôl eu profiad o ddysgu'r iaith a sefyll arholiadau ffurfiol a ddiffinnir yn ôl y termau hyn. Rhaid cydnabod bod y sefyllfa mewn realiti yn adlewyrchu ystod eang o brofiadau dysgu ffurfiol ac anffurfiol a bod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod hwn yn swyddogol wrth ystyried defnydd iaith fel continwwm yn y cwricwlwm addysg newydd a gyhoeddwyd ganddynt yn 2019.*

## Pennod 2

### **2. ADOLYGIAD LLENYDDIAETH**

#### **2.1 Cydnabod siaradaeth frodorol**

Yn dilyn gwaith academyddion fel Phillipson (1992) a Medgyes (1992), cynigiwyd ystyried carfan ‘dysgwyr’ iaith fel poblogaeth o siaradwyr iaith benodol a oedd â’r gallu i fod yn addysgwyr o’r iaith honno gyda sgiliau addysgu amgen ond cyfwerth â sgiliau siaradwyr ‘mamiaith’ (Medgyes, 1992).

Tua’r un pryd, dechreuwyd ystyried bodolaeth yr hyn a alwyd yn ‘linguicism’ gan academyddion fel Skutnab-Kangas a Phillipson (a ddisgrifir gan Ammon (2000) yn Jenkins (2015)). Sonia Ammon sut y cydnabuwyd mewn astudiaethau bod hierarchaeth yn bodoli lle nodid gwahaniaethu rhwng siaradwyr iaith ar sail eu statws fel siaradwyr ‘mamiaith’ neu ‘ddysgwyr’. Amlygwyd gwahaniaethau rhwng iaith siaradwyr ‘mamiaith’ ac eraill a oedd yn siarad fersiwn o iaith benodol a ddatblygwyd trwy ddefnydd gan garfanau o ddysgwyr ‘ail-iaith’. Cynnyrch posibl sefyllfa o’r fath oedd defnyddio amrywiadau gramadegol neu gystrawennol a oedd yn wahanol i safonau’r ‘famiaith’ wreiddiol (Ammon, 2000). Ceir diddordeb o hyd yn y ddau faes uchod. Er mwyn cadw ffocws yr astudiaeth hon sy’n dilyn yn glir, canolbwyntir ar addysgwyr iaith, ac ar y term ‘siaradaeth frodorol’.

Wrth agor y drafodaeth ar siaradaeth frodorol fel cysyniad, dadleuodd Phillipson (1992) dros fodolaeth rhagfarn a oedd heb ei chydabod eisoes. Disgrifiwyd ganddo sut y profwyd siaradaeth frodorol gan athrawon yr iaith Saesneg trwy ffafriaeth at athrawon ‘mamiaith’ Saesneg wrth iddynt ddysgu Saesneg i eraill. Digwydd hynny mewn nifer o wledydd led led y byd, yn aml yn olrhain bodolaeth effaith trefedigaetholdeb Ymerodraeth Brydeinig gynt. Honnir ganddo y tarddodd hyn, mewn gwirionedd, o duedd at ‘ymerodraeth ieithyddol’ yn hytrach nag ystyriaeth o arfer dda



o fewn y dosbarth (Phillipson, 1992). Yn yr ‘ymerodraeth ieithyddol’, ceir efelychiad o’r sefyllfa wleidyddol-hanesyddol fyd eang, gyda defnydd iaith yn dangos ôl patrwm gormes wleidyddol. Ledled y byd, gwelid ail iaith yn cael ei chyflwyno i boblogaethau brodorol er budd y rhai mewn grym. Saesneg, felly, yw ffocws y rhan helaeth o’r ymchwil i siaradaeth frodorol sydd ar gael erbyn hyn oherwydd ehangder ei defnydd, ond isod gwneir ymdrech i gynnwys esiamplau o ieithoedd eraill.

## **2.2 Twf siaradaeth frodorol**

Wrth i hyfforddiant ar gyfer athrawon Saesneg, yn ogystal â Ffrangeg, ar gyfer swyddi’n fyd eang gael ei ddatblygu’n fwy ffurfiol yn ystod canol yr ugeinfed ganrif, pwysleisid pwysigrwydd bod yn siaradwr iaith gyntaf fel un o’r conglfeini ar gyfer arfer dda. Fel y nodwyd uchod, dadleua Phillipson (1992) taw ffordd o atgyfnerthu sefyllfa o bŵer wedi’i hatgyfnerthu gan statws anghyfartal y ddwy iaith oedd hyn, yn hytrach nag ystyriaeth o dechnegau effeithiol addysgu ac agweddau ar addysgeg yn gyffredinol.

Yn yr un modd, wrth ddiffinio siaradaeth frodorol, dadleua Holliday (2006) bod yr ‘ymerodraeth ieithyddol’ (Phillipson, 1992) hon yn cynnwys eu hagwedd at ymddygiad a dulliau addysgu megis sut y cynhelid gwaith grŵp o fewn y dosbarth, gan ffafrio traddodiadau addysgeg y Gorllewin Saesneg. Gwelid tuedd, felly, i feirniadu athrawon o wledydd ‘Y Dwyrain’ a’u portreadu fel ‘eraill’. Ar sail ei ymchwil ei hun yn 2005, diffinia Holliday’r ffenomenon fel;

Native-speakerism is a pervasive ideology within ELT [English Language Teaching], characterized by the belief that ‘native-speaker’ teachers represent a ‘Western culture’ from which spring the ideals both of the English language and of English language teaching methodology. (Holliday 2016: 385)

Er i nifer fel Holliday dynnu sylw at y sefyllfa anghydradd a ddatblygwyd, parhâi ymddangosiad hysbysebion am athrawon iaith yn gofyn am siaradwyr mamiaith yn

unig ar gyfer swyddi. Yn wir, cwblhawyd astudiaeth feintiol gan Rivers (2016) rhwng mis Hydref 2012 a mis Ebrill 2014 o hysbysebion swyddi ar gyfer athrawon Saesneg addysg uwch yn Siapan. Ynnddi cofnodwyd 184 allan o 292 o hysbysebion yn galw am y gallu i siarad Saesneg yn rhugl, a 58 ohonynt yn defnyddio'r termau 'native speaker of English' neu 'native speaker of the English language', gan gynnwys 39.4% yn ei nodi fel y pwynt cyntaf yn y rhestr o sgiliau angenrheidiol ar gyfer ymgeiswyr.

Wrth drafod hanes y maes astudio hwn, eglurir gan Moussu & Llurda (2008), sut y derbyniwyd yr arfer yma o ffafriaeth gan nifer fawr o bobl, gan gynnwys awdurdodau addysg a rhieni myfyrwyr. Modd bynnag, gan nad yw'n cael ei gydnabod fel 'rhagfarn' swyddogol y tu allan i fyd addysg 'ail iaith', nid oes modd mesur a yw wedi cyfyngu ar gyfleoedd gyrfaol athrawon. Ni ellir chwaith gofnodi'n swyddogol sgil-effeithiau ar hunaniaeth a datblygiad proffesiynol yr athrawon dan sylw.

Yn achos yr iaith Saesneg, lle ceir mwy o athrawon yn fyd eang sydd wedi dysgu'r iaith fel ail-iaith na'i chaffael fel mamiaith (Selvi, 2016), gellir disgwyl y byddai siaradwyr sydd wedi dysgu'r iaith yn cael eu hystyried yn gydradd erbyn hyn, er efallai â sgiliau amgen. Fel rhan o gyflwyniad i lyfr diweddar a gyhoeddwyd gan y Cyngor Prydeinig, gwelir nad yw hyn yn wirionedd eto:

As an organisation that pays increasing attention to the benefits of a diverse profession and workforce, we are opposed to discrimination of all kinds, and that includes native-speakerism. (John Knagg, Cynghorydd Hŷn, Saesneg yn y Cyngor Prydeinig, 2019)

Diddorol yw gweld bod y corff hwn sy'n cefnogi addysgu Saesneg yn fyd-eang yn teimlo'r angen i ddatgan ei safbwynt a, thrwy hynny, yn cydnabod bodolaeth y rhagfarn hwn.

### 2.3 Cydnabod gwahaniaethau

Wrth drafod ‘siaradwyr iaith gyntaf’, cynigiwyd teitlau ar gyfer siaradwyr o wahanol cefndiroedd . Wrth i Jenkins (2015) gyfeirio ar fodel Kachru (1985) o gylchoedd mewnol ac allanol ar gyfer yr iaith Saesneg (gweler isod), eglura Jenkins y gwahaniaeth rhyngddynt gyda diffiniad cryno ond clir. Yn y cylch ‘mewnol’ eglura sut y ceir gwledydd sy’n cyflenwi ‘norm’ yr iaith; yn y cylch ‘allanol’ ceir datblygiad ‘normau’ amgen, ac yn y cylch ‘ehangol’ ceir iaith sydd yn dibynnu ar normau a grëwyd yn y cylchoedd eraill. Er bod model fel hwn yn gyfleus ar gyfer categoreiddio, ceir anawsterau wrth ystyried cymhlethdod y sefyllfa ieithyddol mewn realiti. Ceir nifer o eithriadau i’r grwpiau isod e.e. pan fo plant yn dysgu Saesneg o oed ifanc iawn mewn gwledydd fel India neu Hong Kong (Jenkins, 2015). Gyda datblygiad amrywiaethau ar ieithoedd fel Saesneg a Ffrangeg at ddefnydd pwrpasol lleol o fewn gwledydd, dadleua Phillipson (1992) nad yw’r norm ieithyddol gwreiddiol yn dal yn addas fel nod ar gyfer addysgu yn y gwledydd hynny.

*Ffigur 2 Model Kachru (1985) o Gylchoedd Ehangol yr Iaith Saesneg - Ffynhonell: alchetron.com*

Gan fod y rheiny sy’n defnyddio’r Saesneg yn gallu bod yn bell oddi wrth ei gilydd yn ddaearyddol, gellir deall sut y datblygir gwahaniaethau mewn defnydd dros amser. Efallai na fyddai gwahaniaethau’n ymddangos i’r un graddau mewn iaith fel y Gymraeg, lle ceir siaradwyr y norm ieithyddol a’r rheiny sy’n dibynnu arno yn cwrdd

a'i gilydd yn rheolaidd (wrth feddwl am siaradwyr 'mamiaith' a 'dysgwyr'). Os oes tystiolaeth o siaradaeth frodorol yng Nghymru, diddorol fyddai gweld a yw amrywiaethau mewn defnydd iaith yn un o achosion gwahaniaethu. Cydnabyddir, modd bynnag, y byddai hynny'n golygu cynnal ymchwil ehangach nag sy'n bosibl yn yr astudiaeth bresennol.

Yn ogystal â'r Saesneg, ceir ambell enghraifft o ymchwil yn trafod sut mae siaradaeth frodorol yn ymddangos wrth addysgu ieithoedd eraill (e.e. Caravita, 2013); felly, teg yw gofyn a yw'n bodoli yn y Gymraeg. Gan na fu'r iaith Gymraeg yn rhan o 'ymerodraeth ieithyddol' fel y'i disgrifiwyd uchod, rhaid ystyried, a fyddai posibilrwydd cofnodi ffenomen tebyg, ond gwahanol i'r siaradaeth frodorol safonol? Ceir enghraifft yng ngwaith Kralova a Tirpakova (2019) o sefyllfa athrawon Saesneg yn Slofacia. Yno, gwaharddwyd dysgu ieithoedd 'cyfalafol' fel Saesneg tan 1989. Oherwydd hyn, ni ddisgwylir i'r Saesneg ddangos yr un statws uchel fel y gwnaeth mewn gwledydd eraill. Serch hynny, nodir yn eu herthygl bodolaeth pryder ymysg athrawon hŷn (a oedd heb gael y cyfle i deithio tramor gynt) ynglŷn â chael eu beirniadu ar sail safon eu Saesneg, a gwelir y pryder hwn yn cael ei synhwyro gan ddisgyblion. Ceir posibilrwydd, felly, bod agweddau ar siaradaeth frodorol yn gallu datblygu dan amgylchiadau amgen ac y daw'r un pwysau ar aelodau staff o'u herwydd. Os felly, byddai cydnabod posibilrwydd pryderon staff a cheisio eu lleihau yn rheswm gwerthfawr dros gydnabod bodolaeth y ffenomen hon yng Nghymru.

## **2.4 Natur dwyieithrwydd**

Gellir tybio y daw athrawon iaith o bob cefndir a chydag ystod eang o brofiadau, ond gellir disgwyl bod ganddynt lefel o allu ieithyddol digonol er mwyn dysgu'r iaith dan sylw. Ydy hyn yn golygu bod angen iddynt fod yn gytbwys 'ddwyieithog'? Nid oes

lle yma i drafod yn fanwl drafferthion ceisio diffinio dwyieithrwydd cytbwys ac, yn wir, dyna yw un o drafferthion ceisio deall siaradaeth frodorol. Ai mater o farn unigolyn wrth feirniadu unigolyn arall yw asesiad o'i allu fel siaradwr mamiaith (L1)? Fel y nodwyd uchod, ceir brodorion mewn gwledydd gyda nifer fawr o bobl yn cael eu magu gyda Saesneg fel iaith ychwanegol o oed ifanc, ond cânt eu beirniadu yn erbyn safonau norm gwledydd eraill (Jenkins, 2015), sef y rhai sy'n diffinio'r 'norm'. Wrth drafod dwyieithrwydd, noda Baker a Wright (2017) sut y daw'r rhan fwyaf o bobl 'ddwyieithog' yn 'ddeu-ddiwylliannol' mewn gwirionedd wrth ddysgu iaith ychwanegol trwy gael profiadau fel aelodau o grŵp sy'n berchen ar y dwyieithrwydd cymdeithasol perthnasol. Ar y llaw arall, bydd yn bosibl i rai siarad y ddwy iaith heb ddatblygu'r ddau ddiwylliant yn yr un ffordd. Mewn sefyllfa fel dysgu Cymraeg fel ail iaith i blant yng Nghymru, gellir holi faint o ddylanwad y bydd ymwybyddiaeth ddiwylliannol athrawon yn cael ar blant sydd heb ffordd uniongyrchol o gael mynediad at y diwylliant hwnnw eu hunain.

Yn wir, ceir her yng ngwaith Beard (2020) a arsylwodd wersi Cymraeg 'ail-iaith' fel rhan o ymchwil i addysgeg effeithiol. Cyfeirir ganddi at y deunyddiau darllen 'diwylliannol-niwtral' (2020:16) a welwyd yn yr arsylwadau, gan eu bod wedi eu creu ar gyfer datblygu strwythurau iaith heb dalu sylw i'r cyd-destun diwylliannol. Aiff ymlaen i nodi bod creu profiadau dilys ac ystyrlon yn rhan annatod o'r cwricwlwm newydd i Gymru, a seiliwyd yn ei dro ar egwyddorion y cyhoeddiad 'Cymraeg 2050; Miliwn o Siaradwyr' (Llywodraeth Cymru, 2017b). A fydd yn bosibl creu siaradwyr Cymraeg sydd â diwylliant sy'n gwahaniaethu o'r hyn a ddisgwylir, er yn dal yn bobl 'ddwyieithog'? A fydd hyn, dros amser, yn creu sefyllfa lle gall siaradaeth frodorol ddatblygu, hyd yn oed os nad yw'n bodoli yn awr? Dywed Baker a Wright: 'Culture, however, is dynamic, and a bilingual's biculturalism is likely to be an ever-shifting

hybrid mix of their two cultures' (Baker & Wright, 2017: 4). Gyda'r cyfryngau yn darlledu a chyhoeddi mor eang, gellir disgwyl bod diwylliannau yn gorgyffwrdd â'i gilydd mewn bron unrhyw sefyllfa. Serch hynny, nodwyd gan academwyr megis Hye-Kuyng (2011) sut y ceir elfennau o ddiwylliant gan gynnwys dealltwriaeth yr unigolyn o idiomau a thraddodiadau yn ogystal ag agweddau at gymdeithas fel sbardun ar gyfer siaradaeth frodorol a rhagfarn.

Dyfyna Baker & Wright (2017: 8) o waith Grosjean a Li (2013): 'Bilinguals usually acquire and use their languages for different purposes, in different domains of life, with different people. Different aspects of life require different languages'. Wrth ystyried dysgu ail-iaith yng nghyd-destun addysg ffurfiol, gellir deall bod posibilrwydd cyfyngu defnydd i barthau penodol yn unig, gan leihau'r cyfle i ddod yn rhan o ddiwylliant anffurfiol a thrwy hynny, colli'r cyfle i ddod i adnabod agweddau ar y diwylliant y tu allan i'r maes llafur astudio.

Yn yr astudiaeth hon ceir agoriad i drafodaeth ar siaradaeth frodorol yng Nghymru a all gael ei datblygu'n hwyrach i ystyried y pwyntiau uchod ynglŷn â diwylliant pe bai tystiolaeth o'i bodolaeth.

Ar y llaw arall, dengys sawl gwaith ymchwil y gellir ystyried siaradwyr 'ail-iaith' fel rhai 'mamiaith' gan eraill neu gan eu disgyblion e.e. nodir gwaith Piller (2002), Lourie (2005) a Moussu (2006) gan Moussu a Llurda, (2008), gan godi'r cwestiwn a ddylid ceisio labeli unigolion yn ôl eu profiad o gwbl. Yn ôl ym 1988, dadleuwyd gan Edge (ym Medgyes, 1992) bod siaradwyr Saesneg o bob safon yn ddysgwyr yr iaith, gan gynnwys y siaradwyr 'mamiaith', a'u bod yn eistedd ar gontinwwm dysgu iaith. Diddorol yw gweld yr un cysyniad yn cael ei hybu yng Nghymru yn ystod blynyddoedd diweddar (Llywodraeth Cymru, 2017b: 12).

## 2.5 Yr effaith ar unigolion

Ysgrifenna Lippi-Green (2008) am sefyllfa pobl ddwyieithog yn Unol Daleithiau'r Amerig, lle gwelir delwedd o bobl 'arall' fel math o ragfarn o fewn eu cymunedau. Noda sut y ceir mwy o agwedd negyddol at sgiliau iaith pobl o Asia na phobl ag acen Gogledd Ewrop. Mae'n bosib, felly, bod ffonoleg yn effeithio ar faint y'i derbynnir gan siaradwyr 'mamiaith'. Wrth ystyried pryderon unigolion sy'n poeni ynglŷn â chael eu derbyn fel siaradwyr iaith 'o safon', daw ymyrraeth ffonolegol, sef acen ac ynganiad, i'r amlwg wrth ddarllen ymatebion mewn gwaith ymchwil (e.e. Caravita (2013) Hye-Kying (2011)). Oes lle i ystyried, felly, y gall y ffenomen fodoli yng Nghymru yn fwy mewn manau lle ceir acenion 'Cymreig' llai amlwg neu lai cyfarwydd ymysg 'dysgwyr'?


O ran yr athrawon, dylid talu sylw i sylwadau fel rhai Skutnabb-Kangas (Garcia & Baker, 2007) bod hunaniaeth ddiwylliannol gadarnhaol mewn dwy iaith yn elfen angenrheidiol wrth ddisgrifio dwyieithrwydd fel nod addysgiadol. Nodir ganddi'r angen am hyn er mwyn gwella profiad disgyblion o gefndir ieithyddol lleiafrifol neu frodorol. Diddorol yw ystyried dwyieithrwydd yn y modd yma- sef bod angen cynnwys agwedd gadarnhaol at ddau ddiwylliant er mwyn hybu cydraddoldeb. Cydnabydda wrth ddweud hyn bod lles personol, perthnasau rhyngpersonol a datblygiad potensial yr unigolion yn y tymor hir yn rhan o ystyriaeth o allu ieithyddol. Os yw siaradaeth frodorol yn bodoli yng Nghymru felly, teg yw gofyn a yw ei fodolaeth yn tanseilio egwyddorion Deddf Llesiant y Dyfodol (Llywodraeth Cymru, 2015), oherwydd yr effaith negyddol posibl a geir ganddi ar hunaniaeth athrawon. Yn yr ymchwil ar y ffenomen (e.e. Hye-Kyuing (2011), Lowe & Kiczkowiak (2016)) ceir trafodaeth ar ystod o agweddau ar yrfa athrawon, megis llesiant personol, datblygiad proffesiynol, a sut y dylid paratoi athrawon ar gyfer addysgu'n effeithiol.

Wrth drafod sefyllfa athrawon sydd wedi dysgu iaith dan sylw, ond yn siarad yr un famiaith â'r dysgwyr, ceir barn sy'n herio'r angen am siaradwyr 'brodorol' gan Hye-Kyuing (ibid: 62):

I believe that language learners can learn English more effectively from teachers with the same linguistic and cultural backgrounds, especially if a diversity of languages and learning styles is regarded as a resource for learning

## 2.6 Ieithoedd eraill

Cwblhawyd ymchwil gan Caravita (2013) drwy drafod gydag athrawon yr ieithoedd Arabeg a Hebraeg. Nodwyd ganddi bod nifer o hysbysebion am athrawon iaith yn gofyn am siaradwyr 'mamiaith' yn unig ar gyfer swyddi. Mewn gwaith yn treiddio'n ddwfn i brofiadau unigolion, cyfwelwyd ag athrawon a oedd wedi dysgu'r ddwy iaith gan nodi effeithiau ar eu hyder a llesiant fel addysgwyr. Nodwyd bod yr ymatebwyr yn gweld buddion o ran athrawon mamiaith *ac* ail-iaith (25/29 a 26/29 o'r rhai ymatebodd) (2013: 57). Yn ogystal, codwyd cynnal creadadwyedd yn destun aml ymysg ymatebion; hynny yw, cymaint oedd dylanwad dilysiad allanol gan bobl eraill ar asesiad yr unigolyn o'i allu. Ceir diagram yng ngwaith Caravita sy'n egluro'r pwynt yma (2013: 86).



Ffigur 3 Dylanwadau ar hyder athrawon, yn ôl ymchwil Caravita (2013)



Gellir gweld yma nad gallu ieithyddol yn unig yw'r allwedd i addysgu effeithiol ym mhrofiad athrawon 'ail-iaith'. Dylid nodi yn ogystal bod nifer o'r elfennau yn y diagram yn effeithio ar *unrhyw* athro/athrawes. Mewn gwirionedd, sonia Caravita sut y codwyd hyder ei hymatebwyr wrth sylweddoli nad oedd athrawon 'mamiaith' yn berffaith chwaith (2013: 92).

Wrth drafod athrawon o fewn eu hysgolion penodol, dyfynnwyd sylw trawiadol iawn gan aelod o gyfadran Arabeg ganddi:

It sends a powerful message. Because if all your teachers are native speakers, I am afraid you are sending a very defeating message to the students, that it's the club, this is the country club of this language, and you're not in it. (Caravita, 2013: 93).

## **2.7 Y sefyllfa gyfredol yng Nghymru**

Ni cheir ymchwil hyd yn hyn sy'n enwi siaradaeth frodorol yn benodol yng Nghymru, ond, wrth ddarllen astudiaethau ar addysgu a defnydd iaith, gellir adnabod elfennau tebyg.

Enghraifft amlwg yw erthygl ddiweddar gan Davies a Parry (2017): 'Pan fo'r Addysgwyr yn Ddysgwyr', lle cwblhawyd arsylwadau a chyfweliadau gydag athrawon yng Nghymru oedd wedi dysgu'r Gymraeg ac yn gweithio mewn ysgolion cynradd. Nodwyd gan Davies a Parry bod pryderon staff yn golygu y byddant weithiau yn cyfyngu ar eu defnydd o'r Gymraeg oherwydd gofid ynglŷn a'u hynganiad.

Yn ogystal, amlygir yn yr ymchwil yr angen am awyrgylch gadarnhaol ar gyfer annog llwyddiant:

'awgrymai ymatebion fod derbyn cefnogaeth gan ymarferwyr eraill a datblygu cynlluniau ysgol-gyfan yn fodd o leihau'r heriau' (2017: 84)

Diddorol, felly, fyddai cynnal ymchwil ehangach er mwyn amlygu buddion cefnogaeth ymysg staff ar gyfer 'dysgwyr' o fewn y gweithle.

## 2.8 Anfanteision a manteision athrawon ‘ail-iaith’

Fel y nodwyd, ar sail ymchwil a gwblhawyd ar addysgeg athrawon, heriwyd gan Peter Medgyes (1992) y tyb taw siaradwyr mamiaith oedd y rhai gorau i draddodi iaith i ddysgwyr newydd wrth iddo sylwi bod gwahaniaethau rhwng athrawon mamiaith ac ail-iaith (Medgyes 1992, 2014).

Nodwyd ganddo sawl mantais o fod yn athrawon ac hefyd yn ‘ddysgwyr’ a oedd wedi dysgu’r iaith dan sylw (Saesneg yn yr achos yna), gan eu bod yn: (Medgyes, 2014: 177)

- Darparu gwell model o ddysgwr na siaradwyr ‘mamiaith’
- Dysgu strategaethau dysgu iaith yn fwy effeithiol
- Darparu mwy o wybodaeth am yr iaith Saesneg
- Rhagweld ac osgoi trafferthion a all godi’n hwyrach
- Dangos mwy o empathi at anghenion a thrafferthion y myfyrwyr
- Elwa ar famiaith y myfyrwyr.

Ychwanega Medgyes;

Since each group can offer competences that the other is short of, the ideal School is one in which there is a mix of NESTs and non-NESTs [Native English Speakers and Non- Native English Speakers], who work in collaboration with each other (2014: 177).

Mater ar gyfer astudiaeth ehangach fyddai asesu effeithiolrwydd y ddwy garfan yng Nghymru, ond cwyd bwynt diddorol i’w ystyried.

Yn debyg i Medgyes, yn ystyriaeth Caravita (2013) o athrawon Arabeg ac Hebraeg, cydnabyddir ganddi fanteision ac anfanteision y ddwy garfan o athrawon ym marn y cyfranogion. Wrth gatgoreiddio’r ymatebion, rhannwyd y themâu fel yn y tabl isod (2013: 58). Diddorol yw nodi bod yr un agweddau yn codi, bron ugain mlynedd ar ôl gwaith gwreiddiol Medgyes (1992).


*Ffigur 4 Tabl Manteision Athrawon Mamiaith ac Ail-Iaith yn ôl Caravita (2013)*

Wrth ystyried galluoedd athrawon a oedd wedi dysgu'r iaith, cwblhawyd astudiaeth achos gan Hye-Kyung Kim yn 2011. Drwy gyfweld ag unigolion a oedd yn athrawon Saesneg yn hyfforddi yn UDA ond wedi eu magu yn Asia, nododd sylwadau tebyg i waith Caravita (2013) o ran pryderon credadwyedd. Er nad oedd arsylwadau yn mynegi barn ar allu addysgu unigolion, soniwyd am eu hunan asesiad o'u galluoedd.

Wrth ddod i gasgliad, dywed Hye-Kyung Kim, (2011: 64):

Non-NESs [Native English Speakers] need to establish their credibility as legitimate speakers of English because they were influenced by the myths that only NESs can be 'ideal' English teachers and that only NESs can speak standard English.

Ymysg y pryderon a godwyd, nodwyd diffyg deall bratiaith, ac ambell riant yn cwyno am ynganiad diffygiol, yn eu barn nhw, yn ogystal â'r farn na fyddent yn cael swydd yn UDA fel athrawon oherwydd eu hacenion (2011: 59). Ar ôl ceisio gwella, daeth un ymatebydd i'r casgliad bod deallusrwydd yn bwysicach na defnyddio acen benodol.

Ar ddiwedd y cyfnod ymchwil, nid oedd un o dri ymatebydd Kyung Kim eisiau chwilio am swydd yn UDA nac unrhyw wlad arall oedd â Saesneg yn iaith gyntaf ynddi (2011: 65).

Fel yn yr achos hwn, gwastraff buddsoddiad fyddai paratoi athrawon ar gyfer ehangu defnydd y Gymraeg os nad ânt i weithio yn y maes yn y pendraw. Ceir rheswm arall, felly, dros gydnabod bodolaeth neu beidio y ffenomen dan sylw.

Nodwyd uchod sawl agwedd ar y rhagfarn a all berthyn i siaradaeth frodorol, a rhesymau posibl dros ei fodolaeth. Os yw'n bodoli yng Nghymru, ymddengys y

presennol fel cyfnod amserol iawn i ddileu ffactor allweddol, er anhysbys, a allai fod yn rhwystr i gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu nifer siaradwyr y Gymraeg (Llywodraeth Cymru, 2017b).

## Pennod 3

### **3. ADOLYGIAD METHODOLEG**

#### **3.1 Cyflwyniad**

Dechreuwyd ar yr ymchwil ymarferol drwy ystyried nodau ac amcanion yr astudiaeth a mabwysiadu'r dulliau canlynol ar gyfer casglu data:

- Dosbarthu holiaduron fel sail i holi a oedd athrawon yn ymwybodol o fodolaeth y ffenomen, gan gasglu enghreifftiau o brofiadau y gellir eu diffinio fel siaradaeth frodorol neu achosion yn gwrthbrofi ei fodolaeth.
- Casglu disgrifiadau pellach mewn cyfweiliadau oddi wrth sampl o athrawon a ymatebodd i'r holiadur er mwyn triogli'r data a gasglwyd trwy'r dull cyntaf.
- Cyflwyno'r data a gasglwyd o'r dulliau uchod i ran-ddeiliaid o fyd addysg mewn cyfweiliadau ategol, er mwyn cael ymatebion gan eraill i'r hyn a allai fodoli.
- Holi cyfranogion ymhob un o'r dulliau uchod ynglŷn â syniadau ar gyfer gwella'r sefyllfa bresennol, pe bai'r ffenomen yn bodoli.

Dylid nodi yr ystyriwyd seilio'r ymchwil ar ddamcaniaeth i'w phrofi, ond gwrthodwyd hyn oherwydd y posibilrwydd y byddai'n cyfyngu ar y cyfle i ddarganfod syniadau neu brofiadau amgen a allai ddeillio o ymatebion i gwestiynau mwy pen-agored. Gan nad oedd yn ymddangos bod y ffenomen wedi'i hastudio'n fanwl yng Nghymru hyd yn hyn, ystyriwyd bod paradeim deongliadol yn addas ar gyfer dechrau trafodaeth. Oherwydd hynny, cynlluniwyd bob cam ymchwil gydag ystyriaeth i ganlyniadau'r cam blaenorol (Hall, 2020; Bell & Waters, 2018) gan greu hyblygrwydd ynglŷn â sut i ymateb i ganlyniadau newydd neu annisgwyl.

### **3.2 Cyd-destun yr Astudiaeth**

Diffiniwyd poblogaeth y sampl fel ‘addysgwyr Cymraeg fel ail iaith’. Drwy ofyn: ‘Ydych chi’n gweithio yn addysgu’r Gymraeg fel ail iaith yng Nghymru?’ fel cwestiwn cyntaf yr holiadur, galluogwyd anfon ymatebwyr a atebodd ‘Nac ydw’ i ddiwedd yr holiadur drwy ddefnyddio’r dyfais Forms 365 a’u heithrio rhag ateb mwy o gwestiynau. Sicrhawyd, felly, bod y sampl yn cynnwys cyfranogion dilys yn unig. Parth daearyddol yr astudiaeth oedd Cymru gyfan, a disgrifiwyd y cyd-destun gwleidyddol presennol yng nghyflwyniad yr astudiaeth hon.

### **3.3 Cyfiawnhau Methodoleg**

Penderfynwyd ar ddefnyddio dulliau ymchwil cymysg er mwyn galluogi ymateb i fwy nag un agwedd o fewn yr astudiaeth h.y. ceisio cadarnhau neu wrthbrofi bodolaeth y ffenomen yn y cam cyntaf ac, ar sail hynny, ac os yn ‘bodoli’, ystyried effeithiau ei fodolaeth yn y cam nesaf. Cynigiai ymchwil cymysg y cyfle i fireinio cwestiynau ar gyfer cynnal ymchwil ansoddol drwy gynnal cyfweiliadau ar ôl casglu data meintiol sylfaenol drwy gyfrwng holiaduron yn ystod y cam cychwynol (Hall, 2020; Bell & Waters, 2018; Zohrabi, 2013).

Casglwyd y data meintiol cychwynol drwy holiaduron ar lein (gweler Atodiad A) gan nodi cyfraddau ymwybyddiaeth o’r ffenomen neu beidio ymysg ymatebwyr. Fel rhan o’r holiadur, casglwyd tystiolaeth sylfaenol oddi wrth unigolion a oedd wedi cael profiadau personol o’r fath y gellid eu hystyried yn rhai a adlewyrchai ‘siaradaeth frodorol’, neu brofiadau a oedd yn gwrthbrofi bodolaeth y ffenomen.

Wedi cwblhau’r cam cyntaf, holwyd grŵp o unigolion ymhellach er mwyn casglu enghreifftiau o brofiadau a barn oddi wrthynt mewn mwy o fanylder, drwy recordio cyfweiliadau (gweler Atodiad CH). Yn ystod y cam hwn, bu casglu data ansoddol yn fwy addas er mwyn ategu dyfnder i’r wybodaeth (Bell & Waters, 2018; Hennink,

Hutter & Bailey, 2020: 116-118). Yn wir, un o fanteision defnyddio ymchwil ansoddol yn ogystal â meintiol oedd ymarfer un o egwyddorion ymchwil ansoddol, sef disgrifio sefyllfa gyffredin o'r newydd er mwyn gadael i themâu amlygu eu hunain a chadw meddwl agored ynglŷn â pha fath o sefyllfaoedd a allai ymddangos (Holliday, 2016).

Bu dieithrwydd y ffenomen yn ystyriaeth wrth gynllunio casglu'r data. Yn yr holiadur, bu rhaid cynnig eglurhad i'r ymatebwyr o'r hyn a ystyrir yn 'siaradaeth frodorol', er mwyn rhoi cyfle iddynt ystyried a oeddynt wedi ei brofi, gan gofio efallai na fyddai geirfa addas ganddynt i'w ddiffinio.

Ar yr un pryd, bu rhaid cofio bod sefyllfa Cymru yn wahanol yn wleidyddol i nifer o wledydd lle cofnodwyd bodolaeth y ffenomen eisoes. Teg, felly, oedd rhoi cyfle i brofiadau personol yr ymatebwyr gael eu disgrifio heb 'agenda' pellach, er mwyn cadw meddwl agored i'r posibilrwydd taw ffenomen tebyg, ond gyda nodweddion gwahanol i 'siaradaeth frodorol' a fyddai'n ymddangos.

Erbyn cyrraedd trydydd cam y casglu data ymarferol, roedd yn bosibl cyfeirio at enghreifftiau a disgrifiadau a gasglwyd eisoes er mwyn trafod â chyfranogion ategol a oedd â diddordeb yn y maes. Gan fod gan y cyfranogion yn y cam hwn brofiadau amrywiol o fewn eu meysydd proffesiynol, bu cyfle i ystyried mwy nag un agwedd wrth iddynt ymateb ac i ystyried sefyllfa gyffredin o bersbectif amgen (Holliday, 2016).

### **3.4 Moeseg**

Dilynwyd cyfarwyddyd ac arweiniad moesegol y British Education Research Association (BERA) (2004) wrth weithredu camau ymarferol yr ymchwil. Ystyriwyd geiriad cwestiynau'r holiadur yn ofalus ac effeithiau posibl ar ymatebwyr gan unrhyw osodiadau a allai fod yn niweidiol, er yn anfwriadol. Cynigiwyd cyfle i gyfranogion

dynnu yn ôl o ymateb i'r holiadur neu gyfweiliadau ar unrhyw bryd a sicrhawyd anhysbysrwydd neu gyfrinachedd y data a gasglwyd, yn dibynnu ar eu cyfraniad. Rhoddwyd dogfen gydsynio gwybodus i ymatebwyr y cyfweiliadau a darllenwyd sgrïpt i egluro eu hawliau cyn dechrau recordio. Profwyd addasrwydd cwestiynau'r holiadur gyda grŵp o wirfoddolwyr mewn peilot cyn ei ddsbarthu er mwyn sicrhau bod y cwestiynau a gynhwyswyd yn dderbyniol i ymatebwyr.

Bu rhaid ystyried y posibilrwydd y byddai trafod profiadau personol yn anodd i'r unigolion wrth ymateb. Yn ogystal, nid oedd modd rhagweld faint o ddiddordeb fyddai gan rhanddeiliaid eraill y byd addysg yng nghasgliadau'r ymchwil. Gyda bodolaeth cyfryngau cymdeithasol a'r rhwydweithiau digidol anffurfiol a geir heddiw, ystyriwyd y posibilrwydd y gallai delwedd negyddol o'r ymchwil gael ei hadrodd wrth eraill oni bai bod y cwestiynau a'r cysylltiad ag unigolion yn dangos parch, a'u bod yn ddi-duedd ac yn sensitif. Ceisiwyd, felly, greu holiaduron â llwybr 'deuol' a alluogai cyfranogion i ymateb y naill ffordd neu'r llall o safbwynt cadarnhau neu wrthbrofi bodolaeth y ffenomen gan geisio peidio ag arwain ymatebwyr i gyfeiriad arbennig. Ar ddiwedd yr holiadur, cynhwyswyd cyfeiriadau rhyngrwyd lle cynigiwyd cymorth i athrawon pe bai angen trafod unrhyw bryderon (Atodiad A).

Er mwyn lleihau'r posibilrwydd o achosi niwed i gyfranogion trwy gael eu hadnabod, penderfynwyd ar beidio â strwythuro'r sampl mewn unrhyw ffordd heblaw gofyn am bobl a oedd yn gweithio fel athrawon Cymraeg 'ail iaith'. I ddechrau, ystyriwyd ceisio cael niferoedd o ymatebwyr o wahanol sectorau neu grwpiau ar sail hyd eu profiad fel athrawon. Buasai hynny wedi galluogi cymharu sefyllfaedd yr ymatebwyr yn fanwl, ond teimlwyd y gallai unigolion gael eu hadnabod pe bai achosion a ddisgrifiwyd yn cael eu hadnabod gan eraill. Yn y pendraw, seiliwyd cwestiynau ar dri ffactor yn unig; sef, profiad y cyfranogion o ddysgu'r iaith



Gymraeg, y math o weithle, a'u lleoliad daearyddol, rhag ofn y byddai'r nodweddion hyn yn cofnodi gwahaniaethau amlwg rhwng y grwpiau fel sail ar gyfer trafodaeth yn yr ymchwil ansoddol.

Eto, penderfynwyd bod anhysbysrwydd yn addas er mwyn casglu ymatebion gonest. Wedi dweud hyn, gan fod yr holiaduron ar lein (gweler manylion isod), bu'n rhaid ystyried y posibilrwydd y byddai angen rhoi sylw i rai ymatebion gan fod pobl yn gallu ymddwyn yn wahanol pan yn cyfrannu'n anhysbys (Beninger et al, 2014; yn Bell & Waters, 2018: 164-7). Wrth ddadansoddi'r data ymddangosai ambell sylw yn amherthnasol; felly fe'u di-ystyriwyd.

Un peth ychwanegol a wnaethpwyd oedd creu cyfrif LinkedIn, a thudalen ar Facebook er mwyn cynnig gwybodaeth am natur yr ymchwil a'r ymchwilydd, rhag ofn bod cyfranogwyr eisiau profi dilysrwydd yr astudiaeth (Bell & Waters, 2018: 167). Gan fod y platfformau hynny yn cofnodi 'traffig', roedd yn bosibl gweld bod ambell unigolyn wedi ymweld â'r tudalennau gan brofi ei bod yn werth eu creu er mwyn rhoi hyder i ymatebwyr (Jones, 2021).

Wrth gofnodi achosion a grybwyllwyd yn y cyfweiliadau, er mwyn sicrhau cyfrinachedd, bu'n rhaid hepgor ambell enghraifft o'r trawsgrifiad (Atodiad CH) gan fod rhai sylwadau, er yn ddefnyddiol, yn amlygu unigolion penodol.

### **3.5 Y cam cyntaf- holiaduron**

Ar ôl sefydlu dulliau ymchwilio a fyddai'n cydymffurfio â'r fframwaith moeseg, paratowyd y cam cyntaf, sef dosbarthu holiaduron.

Yn ôl cyfrifiad addysg blynyddol Llywodraeth Cymru (2021), bu 7,745 o athrawon yn gweithio fel addysgwyr 'Cymraeg fel pwnc yn unig' yng Nghymru yn ystod y flwyddyn academaidd 2020/2021. Disgwyliwyd i nifer o'r garfan hon fod yn gweithio mewn cyd-destun addysg cyfrwng Saesneg oherwydd dosraniad ysgolion Cymru, er

na cheir manylder ar hwn yn y cyfrifiad. Serch hynny, gan taw dyna'r unig ffigur hysbys oedd ar gael, fe'i defnyddiwyd fel sail ar gyfer dewis sampl. Er mwyn casglu sampl digonol, penderfynwyd ar 1% o'r boblogaeth gyfan fel targed ar gyfer yr holiaduron, sef 77 unigolyn. Er hynny, gan nad oedd bwriad asesu pa mor gyffredin oedd y ffenomen ar gyfer y nod cyntaf, byddai nifer llai o ymatebion yn gallu bod yn ddigonol at bwrpas yr astudiaeth. Pe dychwelid nifer o atebion cadarnhaol, gellir cydnabod bodolaeth y ffenomen i gyfiawnhau casglu data ansoddol pellach ar gyfer y cam nesaf (Kumar, 2019). Erbyn diwedd cyfnod casglu data'r cam cyntaf, casglwyd 33 o ymatebion holiadur fel sail ar gyfer y cam nesaf.

Gyda natur eithaf unffurf poblogaeth y sampl (h.y. cyfranogion yn gweithio ym myd addysg, yn byw yng Nghymru, yn siarad Cymraeg), a gan fod ffocws cwestiynau'r holiadur yn gul, rhagdybiwyd y gellid cyrraedd sefyllfa o 'ddirlenwad' gyda nifer cymharol isel o ymatebion (Hennink, Butler & Bailey, 2020), pan welid yr un math o syniadau yn ymddangos yn rheolaidd.

Gan nad oedd data ar gefndir ieithyddol yr athrawon eu hunain yn y cyfrifiad swyddogol, gofynnwyd cwestiynau ynglŷn â hynny fel rhan o'r holiadur.

Disgwyliwyd gweld gwahaniaeth rhwng ymatebion gan gyfranogion 'mamiath' a'r ymatebwyr a ystyriai eu hunain fel rhai a oedd wedi dysgu'r iaith gan fod siaradaeth frodorol yn fwy perthnasol i athrawon a ystyrir yn 'ddysgwyr'.

Penderfynwyd dosbarthu holiaduron ar-lein ar gyfer cysylltu ag ymatebwyr cychwynnol posibl, gan roi cyfle iddynt wirfoddoli i fod yn rhan o'r ymchwil drwy ymateb i bost ar Facebook. Pwrpas mabwysiadu'r dull hwn oedd bod yn ddiogel yn ystod cyfnod y Cofid 19, bod yn gyfleus a chyflym ar gyfer ymatebwyr, a chasglu data mewn ffordd a oedd yn hawdd i'w prosesu wedyn.

Yn y post ar Facebook gofynnwyd i ymatebwyr anfon dolen i'r holiadur ymlaen at gydweithwyr a fyddai, efallai, â diddordeb mewn ymateb er mwyn creu'r sampl hap. Gan fod tua hanner poblogaeth Cymru yn defnyddio Facebook, teimlwyd y byddai hwn yn creu'r cyfle i gysylltu â chymaint â phosibl o'r unigolion dan sylw (Jones, 2021).

Casglwyd yr ymatebion mewn cyfrif Hwb gyda chyfrinair gan ddefnyddio pecyn Forms ym Microsoft 365 er mwyn sicrhau diogelwch a chyfrinachedd yr ymatebion. Dangosodd y peilot gyda grŵp o wirfoddolwyr taw rhyw bum munud yn unig a gymerai i lenwi'r holiadur, felly, penderfynwyd na fyddai hynny'n faich i ymatebwyr. Ar ddechrau'r holiadur, cynhwyswyd datganiad anhysbysrwydd (yn Atodiad A) a rhoddwyd opsiwn i gyfranogion roi'r gorau i ymateb ar unrhyw bwynt os nad oeddent yn fodlon parhau. Yna, ar ddiwedd yr holiadur, gofynnwyd am wirfoddolwyr ar gyfer y cyfweiliadau. Drwy ychwanegu eu manylion cyswllt, cafwyd caniatâd i gysylltu ag unigolion mewn sefyllfa o gyfrinachedd (Bell & Waters, 2018).

Cynigiwyd y cyfle i dderbyn crynodeb o ganlyniadau'r ymchwil ar ddiwedd y broses ymchwil a'i werthuso pe bai diddordeb gan unrhyw rai o ymatebwyr yr holiadur. Wrth ddadansoddi data'r holiaduron, gwelwyd gwahaniaeth barn eang ymysg yr ymatebwyr. Bu'n rhaid ystyried strwythur y cyfweiliadau er mwyn galluogi archwilio'n ddyfnach, gan ddilyn trywydd syniadau'r unigolion yn hytrach na'u harwain i gyfeiriad penodol.

### **3.6 Y camau dilynol- cyfweiliadau**

Wrth symud i amcan nesaf yr ymchwil, paratowyd cyfweiliadau hanner-strwythuredig er mwyn casglu mwy o wybodaeth am brofiadau unigolion. Cysylltwyd â gwirfoddolwyr o'r holiadur gan greu sampl hap; yn is-grŵp o'r sampl gwreiddiol. Cynhaliwyd cyfweiliadau peilot ymlaen llaw gyda gwirfoddolwyr, gan newid ambell

gwestiwn yn sgil hynny'n ddiweddarach er mwyn sicrhau eglurder wrth holi (Atodiad B). Cyfwelwyd â phedwar o gyfranogion a wirfoddolodd ar ddiwedd yr holiadur oedd ag ystod o brofiadau, a ddisgrifir yn y bennod nesaf.

Fel y nodwyd uchod, un o egwyddorion defnyddio paradeim deongliadol yw ystyried data annisgwyl neu ychwanegol er mwyn datblygu trywydd pellach ar gyfer ymchwil (Hall, 2020; Bell & Waters, 2018). Drwy beidio â chyfyngu ar yr ymatebion, roedd yn bosibl ystyried yr ymchwil yng nghyd-destun ehangach sefyllfa gymdeithasol pob ymatebydd. Eglurir gan Hennink, Hutter & Bailey (2020) yr angen i gofio bod profiadau personol unigolion yn realiti i'r unigolion hynny; hyd yn oed os nad ydynt yn amlwg i eraill. Rhaid, felly, derbyn disgrifiadau o brofiadau personol yn dystiolaeth dilys, drwy amlygu sefyllfa'r cyfranogwr penodol hwnnw.

Ar ôl cyfweld â gwirfoddolwyr a gafwyd o'r holiadur ac ystyried natur ymatebion y cyfweliadau ar y cyd ag ymatebion yr holiadur, cynhaliwyd cyfweliadau pellach fel trydydd cam ar yr ymchwil er mwyn gweld pa fath o farn a fyddai gan eraill ar fodolaeth posibl siaradaeth frodorol. Cyfweliadau hanner-strwythuredig a gynhaliwyd yn y cam hwn eto gyda thri chyfranogwr ychwanegol oedd a phrofiadau amrywiol, er mwyn gallu archwilio syniadau posibl a ddeuai o'r drafodaeth.

Fel rhan o gasglu'r data ymhob un o'r tir cham uchod, cynigwyd cyfle i ymatebwyr gynnig sylwadau ar sut i wella neu ddatblygu'r sefyllfa bresennol, a cheir crynodeb o'r sylwadau a gafwyd yn y bennod nesaf.

### **3.7 Gogwydd**

Gan fod yr ymchwil yn holi am farn unigolion ynglŷn â bodolaeth siaradaeth frodorol trwy brofiad personol, ystyriwyd bod presenoldeb gogwydd yn yr ymatebion yn anorfod, ond yn rhan o'r wybodaeth dan sylw (Holliday, 2016).

Ystyriaeth arall ar gyfer y cyfweiliadau oedd diffyg gallu dilysu profiadau neu hanesion yr ymatebwyr. Fel y soniwyd eisoes, gan nad oedd ymchwil i'r maes hwn yng Nghymru ar gael eisoes, nid oedd modd rhagweld natur cyfraniadau unigolion; felly, bu'n rhaid cymryd cyfraniad pob cyfranogwr ar ei air ac fel un diffuant (Lee, 1993). Beth bynnag, gan y tueddai data'r holiadur a'r cyfweiliadau driongli ei gilydd ar draws y sampl, ystyriwyd y cyfraniadau yn rhai dibynadwy.

### **3.8 Diogelwch**

Fel y nodwyd eisoes, drwy ddefnyddio Facebook ar gyfer casglu ymatebion i'r holiadur, roedd yn bosibl i'r ymatebwyr aros yn anhysbys.

Yng nghyfnod peilot y cyfweiliadau, cafwyd cyfle i ymarfer peidio ag ymateb i hanesion pryderus a bod yn barod gyda chyfeiriadau cymorth pe bai angen.

Cynhwyswyd y cyfeiriadau cymorth yr ail waith ar ddogfen gydsynio gwybodus a arwyddwyd gan ymatebwyr cyn cwblhau'r cyfweiliadau (Atodiad C). Atgoffwyd y cyfranogion bod dewis ganddynt i roi'r gorau i'r cyfweiliad ar unrhyw bwynt.

Yn ystod cyfnod yr ymchwil bu'n rhaid talu sylw cyson i egwyddorion diogelwch yn deillio o gyfnod pandemig Covid 19 drwy ymbellhau'n gymdeithasol. Yn sgil hynny, penderfynwyd cynnal y cyfweiliadau ar y rhyngwyd. Dyna reswm arall dros ymarfer cynnal y cyfweiliadau ymlaen llaw drwy gynnal peilot, gan fod sgwrsio dros fideo yn brofiad gwahanol i un wyneb yn wyneb (Bell & Waters, 2018).

Trefnwyd y cyfweiliadau y tu allan i oriau gwaith er mwyn galluogi ymatebwyr i fod yn eu cartrefi, gan obeithio creu awyrgylch fwy cyfforddus iddynt (Hennink, Hutter & Bailey, 2020). Sicrhawyd nad oedd unrhyw un arall yn gallu clywed trafodaeth y cyfweiliadau cyn cychwyn a bod cefndir niwtral ar y sgrîn. Yn olaf, cynhaliwyd y cyfweiliadau dros Skype neu Teams yn hytrach na Zoom er mwyn manteisio ar ddull cyfathrebu diogel, yn unol â pholisi'r brifysgol.

Storiwyd trawsgrifiad a recordiad sain o'r cyfweiliadau ar gyfrif Hwb gyda chyfrinair. Penderfynwyd ar recordio'r sain yn unig, er mwyn ategu sicrwydd cyfrinachedd a dangoswyd y teclyn recordio i'r ymatebwyr cyn cychwyn recordio.

### **3.9 Dibynadwyedd, dilysrwydd a chyffredinoladwyedd**

Drwy ddefnyddio dulliau ymchwil cymysg, cafwyd cyfle i ystyried sefyllfa bosibl siaradaeth frodorol yn fwy trwyadl na chanolbwyntio ar un dull o gasglu data (Cresswell & Cresswell, 2018; Kumar, 2019).

Wrth gasglu'r data meintiol drwy'r holiadur, bu'n bosibl gwirio'r canlyniadau'n achlysurol gan fod y rhaglen Forms yn galluogi mynediad i'r data, er mwyn sicrhau bod yr atebion yn dilyn yr un trywydd cyffredinol. Defnyddiwyd cymysgedd o gwestiynau caeëdig ac agored er mwyn casglu'r wybodaeth sylfaenol am fodolaeth y ffenomen neu beidio, gan gynnwys galluogi ymatebwyr i ychwanegu syniadau wrth ateb cwestiynau penagored. Yn hyn o beth, gellir bod yn hyderus bod y data a ddaeth o'r holiaduron yn ddibynadwy, gan fod cysondeb yng nghynnwys yr ymatebion (Zohrabi, 2013).

Penderfynwyd ffocysu ar gwestiynau barn disgrifiadol gan fod unrhyw fesur sy'n defnyddio graddfa neu ddewis opsiynau ar gyfer mynegi barn yn anorfod yn oddrychol trwy gyfyngu ar ymatebion posibl. Trwy hyn, crëwyd darluniau o sefyllfaoedd yn lle ceisio cymharu profiadau (Kumar, 2019).

Cryfhawyd hyder yn nilysrwydd mewnol yr astudiaeth drwy sylwi ar debygrwydd yr atebion wrth wahanol ymatebwyr, gan gadarnhau bod yr holiadur yn eglur ac yn hawdd i'w ateb. Fel y nodwyd eisoes, ni ellir bod yn hollol hyderus ynglŷn a gonestrwydd yr atebion oherwydd bod yr angen am anhysbysrwydd wedi gorfodi peidio â chynnal yr holiaduron wyneb yn wyneb. Wrth symud ymlaen at y cyfweiliadau roedd yn bosib wirio dilysrwydd ymatebion yn fy trwyadl, drwy fod yn

ymwybodol o ryngweithio personol (Zohrabi, 2013) megis ymateb gyda syndod, oedi ac ati.

Gan taw un ymchwilydd yn unig oedd yn cynnal y cyfweiliadau a dehongli canlyniadau'r holiaduron, ceir elfen arall o hyder yn nilysrwydd mewnol yr astudiaeth gan nad oedd yn agored i wahaniaeth barn ynglŷn ag arwyddocâd atebion. Er mwyn cadw cofnod cywir, ac atgyfnerthu dilysrwydd mewnol ymhellach, recordiwyd y sain yn y cyfweiliadau ac yna trawsgrifio'r recordiadau, gan hepgor ambell sylw i ddiogelu hunaniaeth a chadw'r data rhag ofn pe bai angen eu harchwilio (Zohrabi, 2013).

Ni chynrychiolwyd grwpiau neu ardaloedd yn ôl eu nifer yn y sampl gan ei fod yn un hap, a gwelwyd mwy o gyfranogwyr o gefndir 'Cymraeg yn y cartref' yn ymateb na'r disgwyl. Er mwyn ehangu'r profiadau, felly, bu'n rhaid cysylltu ag ymatebwyr posibl trwy gysylltiadau personol a gofyn iddynt anfon y ddolen gyswllt ymlaen at gyfeillion a oedd â diddordeb mewn cymryd rhan, ond heb hysbysu pwy oeddent. Yn y pendraw, felly, cafwyd mwy o gydbwysedd ymysg y cyfranogwyr o ran cefndir ieithyddol er mwyn ychwanegu potensial ar gyfer amrywiaeth.

Byddai gwirio hygredd yr astudiaeth, drwy ddychwelyd at yr ymatebwyr a gofyn a oeddent yn fodlon gyda'r crynodeb o'u hatebion, wedi bod yn ddelfrydol (Kumar, 2019). Fodd bynnag, gan fod amser athrawon mor brin, penderfynwyd nad oedd hwn yn ymarferol ar gyfer yr astudiaeth bresennol.

Ystod o brofiadau a barn sampl penodol o gyfranogwyr a gasglwyd yn yr astudiaeth hon, heb fwriad o gael ei gyffredinoli i sefyllfaoedd eraill. Oherwydd hyn, ceir mwy o ffocws wrth ddadansoddi'r data ar gyfleu profiadau'r cyfranogwyr, yn hytrach na cheisio cyflwyno data ystadegol ystyrlon (Cresswell & Cresswell, 2018). Byddai ail-greu'r sefyllfa gymdeithasol a fodolai yn ystod y cyfnod ymchwil bron yn amhosib, gan fod y pandemig Cofid 19 wedi cael cymaint o effaith ar weithdrefnau athrawon

e.e. gan nad oedd unrhyw gyfarfodydd neu hyfforddiant mewn swydd wyneb yn wyneb wedi digwydd ers dwy flynedd, ni chafwyd cyfleoedd gan ymatebwyr i gymysgu ac ystyried bodolaeth posibl siaradaeth frodorol wrth ryngweithio ag eraill. Serch hynny, dengys yr ystod o ddata a gasglwyd nifer o elfennau a allai fod o ddiddordeb fel sail ar gyfer trafodaethau neu astudiaeth bellach, gan roi cyfle i ystyried posibilrwydd bodolaeth y ffenomen mewn amgylchiadau amgen. Nid ymgais i gyffredinoli y ceir yn y ymchwil hwn felly, ond cyfle i weld ei berthnasedd i gyd-destunau eraill (Bassey, 1981).

### **3.10 Dadansoddiad**

Profodd y dulliau uchod yn addas ar gyfer casglu data ystyrion, a cheir dadansoddiad o'r canlyniadau yn y bennod nesaf. Derbyniwyd ymatebion gydag enghreifftiau pendant i'w hystyried yn addas ar gyfer eu grwpio i themâu tebyg. Gan fod Microsoft Forms yn casglu'r data mewn fformat digidol, bu trefnu'r canlyniadau er mwyn edrych am batrymau yn syml a chyfleus.

Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r holiadur gan nifer o gyfranogwyr ar ôl ei gwblhau gan ei fod yn codi mater o ddiddordeb iddynt. Yn hyn o beth, gellir bod yn hyderus na chafodd yr ymchwil effaith negyddol ar gyfranogion wrth fod yn rhan o'r broses (BERA, 2004). Yn wir, erbyn diwedd y broses, mynegwyd diddordeb gan sawl ymatebydd ynglŷn â chanlyniadau'r ymchwil.

Casglwyd data ansoddol pwrpasol o'r cyfweiliadau gydag athrawon, a chrëwyd sail ar gyfer trafodaethau eang yn y cyfweiliadau dilynol.

### **3.11 Casgliadau**

Wrth ystyried y broses o gasglu data, a'r dewis o beidio â defnyddio damcaniaeth i'w phrofi, ystyrir y fethodoleg a fabwysiadwyd yn bwrpasol ar gyfer archwilio'r testun newydd; sef y ffenomen 'siaradaeth frodorol'. Gan fod y broses wedi dangos



canlyniadau ystyrion i'w trafod, ystyrir y cafwyd llwyddiant wrth ymchwilio. Gan gofio cyfraniad hael y cyfranogion, bu'n rhaid gwirio'n ofalus na chynhwyswyd unrhyw sylwadau niweidiol trwy esgeulustod a fyddai wedi bod yn frad i'r ymddiriedaeth ddiffuant a gafwyd ganddynt.

Gan fod y cwestiwn sylfaenol, ynglŷn â bodolaeth y ffenomen, heb gael ei ystyried o'r blaen yng Nghymru, codwyd nifer o gwestiynau ar hyd y ffordd a fyddai'n rhoi cyfleoedd ar gyfer astudiaethau pellach neu ehangach, a chrybwyllir rhai ohonynt wrth ddod i gasgliad ar ddiwedd yr astudiaeth.

## **Pennod 4**

### **4. CANLYNIADAU A DADANSODDIAD**

#### **4.1 Cyflwyniad**

Dilynwyd y broses a ddisgrifiwyd yn y bennod flaenorol wrth gwblhau'r gwaith ymchwil ymarferol. Isod ceir, i ddechrau, fanylion y data a gasglwyd o'r sampl hap ac anhysbys drwy gyfrwng yr holiaduron.

Bwriad y cam cyntaf oedd profi neu wrth brofi bodolaeth y ffenomen, ynghyd â cheisio deall pa fath o effaith posibl a gafodd y ffenomen ar unigolion a oedd efallai wedi ei brofi, neu gasglu enghreifftiau o agweddau ac ymddygiad a allai leihau ei bresenoldeb. Rhaid cofio nad oedd y cam cyntaf hwn yn rhagfynegi bodolaeth y ffenomen yr un ffordd na'r llall, felly, nid oedd modd gwybod pa fath o ddata i'w disgwyl.

Yn ail, ceir ystod o ymatebion o gyfweiliadau cyfrinachol â phedwar o'r athrawon a gyfrannodd at yr holiadur. Bwriad yr ail gam hwn oedd ychwanegu at y cam cyntaf, gan gasglu enghreifftiau mewn mwy o fanylder.

Yn drydydd, ceir dyfyniadau o gyfweiliadau â thri chyfranogwr ychwanegol a oedd â diddordeb yn y maes, er mwyn ystyried y data o safbwynt ehangach. Ar ôl crynhoi canlyniadau'r ddau gam gyntaf iddynt, trafodwyd eu hymateb i beth a gasglwyd.

Cynigiwyd cyfrinachedd yn y cam hwn ond dewisodd dau ohonynt rannu eu manylion er mwyn ategu at gyd-destun eu hymatebion.

#### **4.2 Proffil Cyfranogwyr yr Holiadur**

Drwy ofyn i gyfranogwyr basio dolen i'r holiadur ymlaen i gydweithwyr neu gyfeillion, cafwyd mwyafrif yr ymatebion o addysgwyr yn gweithio yn Ne Cymru- yn y De-orllewin a'r De-ddwyrain, gan taw dyna lle roedd y cysylltiadau cychwynnol, gydag un ymatebydd yn y Canolbarth ac un yn addysgu ar-lein. Oherwydd

trafferthion derbyn ymatebion ar ddechrau'r broses, penderfynwyd cysylltu ag ysgolion yn uniongyrchol er mwyn ceisio cynyddu'r sampl. O ganlyniad, roedd yn bosibl cael grwpiau o bobl o'r un gweithleoedd. Yn y pendraw, cafwyd 40 ymateb i'r holiadur, ond, gan nad oedd 7 ohonynt yn athrawon Cymraeg fel 'ail iaith', 33 oedd yn gymwys. Beth bynnag, wrth nodi niferoedd ymatebion isod, defnyddiwyd nifer yr ymateb gwreiddiol o 1-40 ar gyfer dyfynnu o'u hymatebion.

Yr unig elfen gyffredin ymhlith hunaniaeth ymatebwyr yr holiadur, felly, oedd eu proffesiwn, sef eu bod yn athrawon neu diwtoriaid Cymraeg 'ail-iaith' (Gweler Atodiad A).


Rhaid cydnabod bod y grŵp o ymatebwyr i'r holiadur yn cynrychioli carfan â diddordeb cyfredol yn y maes a'r ymchwil, oherwydd natur eu gwaith. Er i nifer ohonynt ddewis peidio â gwirfoddoli ar gyfer cyfweiliad, roedd sawl un am dderbyn crynodeb o ganlyniadau'r ymchwil ar ddiwedd y broses (14 o'r 33 ymatebydd).

### **4.3 Cam 1 - Yr Holiaduron**

Ar ôl sicrhau eu bod yn athrawon Cymraeg, holwyd yr ymatebwyr ynglŷn â'u cefndir. Gwelwyd bod y rhan helaeth o'r ymatebion yn dod oddi wrth athrawon ysgol uwchradd, sef 27 o'r 33. Daeth yr ymatebion eraill oddi wrth un athro cynradd a phum tiwtor i oedolion. Wrth ystyried natur ffenomen siaradaeth frodorol fel rhywbeth a all effeithio ar athrawon ail iaith yn bennaf, teimlwyd bod grŵp y sampl yn addas ar gyfer casglu data ystyrlon.

Gofynnwyd cwestiwn ynglŷn â phrofiad o ddysgu'r iaith. Rhoddwyd dewis o brofiadau fel sydd yn Graff 1 isod, a chafwyd ystod o brofiadau dysgu yn cael eu cynrychioli yn y sampl.

**Ffigur 5 Graff yn dangos profiad o ddysgu Cymraeg y boblogaeth yn y sampl.**



Gofynnwyd cwestiwn, yn ogystal, ynglŷn a lleoliad eu gwaith, ac, fel y nodwyd eisoes, roedd bron pawb yn gweithio yn Ne Cymru. Gan nad oedd bwriad ceisio dangos patrymau daearyddol, derbyniwyd hwn fel cynrychiolaeth addas at bwrpasau'r astudiaeth.

Yna, holwyd ynglŷn â barn am fodolaeth y ffenomen. Er mwyn sicrhau bod ymatebwyr yn ymateb i'r un cysyniad, cynhwyswyd disgrifiad o'r ffenomen gydag enghraifft fel rhan o'r cwestiwn (gweler Atodiad A).

Gwelwyd yn syth bod gwahaniaeth clir ym marn y cyfranogion. Atebwyd gan 5 allan o 33 nad oeddent yn sicr am fodolaeth y ffenomen. Nid oedd hyn yn annisgwyl gan nad oes corff o astudiaethau ar gael amdani yng Nghymru ac, felly, hawdd yw deall

na fuasai pobl wedi ei hystyried o'r blaen a bod angen mwy o amser nad oedd ar gael wrth ymateb i holiadur yn gyflym.

Cafwyd 3 allan o 33 ymatebydd yn ateb bod yn well ganddynt beidio â dweud. Nid oes modd gwybod os taw ymatebion yn dangos ofn cael eu hadnabod oedd y rhain.

Eglurwyd ym Mhennod 3 yr ymdrechion i sicrhau anhysbysrwydd ar gyfer yr holiadur, oni bai bod cyfranogwyr yn dewis ychwanegu manylion cyswllt ar y diwedd, ond nid oes modd gwybod pa mor hyderus oedd y cyfranogion ynglŷn â hwn. Yr ymatebion mwyaf arwyddocaol, wrth gwrs, oedd y rhai yn dweud 'ydw' neu 'nac ydw' i'r cwestiwn hwn. Cafwyd 8 allan o 33 yn dweud eu bod o'r farn bod y ffenomen yn bodoli.

Wrth ystyried natur y ffenomen a'i heffaith posibl ar y rheiny sydd wedi dysgu'r iaith, gellir disgwyl y byddai'r atebion cadarnhaol wedi dod oddi wrth y rhai oedd wedi dysgu Cymraeg fel ail iaith a bod mwy o anwybodaeth ymysg siaradwyr 'mamiaith'. Serch hynny, ni welwyd cydberthynas o'r fath. Yn hytrach, cafwyd cymysgedd o ymatebion fel a ganlyn:

Profiad o ddysgu	Ydw	Nac Ydw	Ddim yn Siwr	Gwell ganddynt beidio â dweud
Wedi dysgu ar yr aelwyd	2	3	2	
Un rhiant yn siarad Cymraeg ac wedi mynychu addysg gyfrwng Cymraeg	1		1	3
Un rhiant yn siarad Cymraeg ac wedi mynychu addysg gyfrwng Saesneg			2	
Wedi dysgu mewn ysgol Gymraeg ac o deulu yn siarad Saesneg	1			
Wedi dysgu mewn ysgol Gymraeg o deulu yn siarad iaith arall		1		
Wedi dysgu fel ail-iaith yn yr ysgol	4	10	1	
Gwell ganddynt beidio â dweud				
Wedi dysgu fel ail-iaith fel oedolyn		1		
Arall			1	

*Ffigur 6 Tabl atebion i'r cwestiwn, 'Ydych chi o'r farn bod y ffenomen yn bodoli yng Nghymru o fewn addysgu Cymraeg fel ail iaith?'*

Gellir gweld bod rhai unigolion oedd â rhywfaint o Gymraeg yn y cartref yn cydnabod presenoldeb y ffenomen, sef 3 allan o 14, a rhai oedd wedi dysgu'r iaith y tu allan i'r cartref yn anymwybodol ohoni, sef 12 allan o 19, felly, ni ellir dweud bod patrwm yn yr ymatebion yn ôl cefndir ieithyddol y cyfranogion.

Ffactor arall a allai fod wedi egluro gwahaniaethau mewn barn oedd lleoliad yr ymatebwyr a dengys y tabl isod eu hymatebion i'r cwestiwn ynglŷn â bodolaeth y ffenomen wedi'u trefnu ar sail hynny. Er nad oedd bwriad mesur tueddiadau daearyddol yn yr astudiaeth hon, nodwyd lleoliad rhag ofn y byddai'n dangos rheswm amlwg dros brofiad o siaradaeth frodorol neu beidio.

Lleoliad yr ymatebydd	Ydw	Nac Ydw	Ddim yn Siwr	Gwell ganddynt beidio â dweud
De Ddwyrain Cymru	1	6	2	2
De Orllewin Cymru	7	10	2	1
Y Canolbarth		1		
Yn gweithio ar lein			1	

*Ffigur 7 Tabl o ymatebion i'r un cwestiwn yn ôl lleoliad yr ymatebwyr.*

Gellir gweld bod nifer uwch o ymatebwyr y De-Orllewin yn cydnabod bodolaeth siaradaeth frodorol, ond ni welir patrwm amlwg yn y sampl hwn. Mae'n bosibl y byddai astudiaeth feintiol, trwy gasglu nifer uwch o holiaduron, yn gallu dangos tueddiadau yn y data. Yr hyn sy'n allweddol ar gyfer yr astudiaeth hon, fodd bynnag, yw bod rhai unigolion wedi cydnabod ei fodolaeth.

Ar y pwynt hwn yn yr ymchwil, felly, bu'n bosibl cytuno bod nod cyntaf yr astudiaeth wedi ei gyflawni gan fod nifer o'r ymatebwyr yn cydnabod bodolaeth y ffenomen.

Serch hynny, cafwyd awgrym o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn na fyddai patrwm clir yn ymddangos ac, felly, dim arwydd bod rhagfarn yn bodoli ar lefel mwy *sefydliadol*

fel yr astudiwyd mewn gwledydd eraill (e.e. Jenkins, 2007; Selvi, 2016). Yn hytrach, daeth yn bosibl y byddai asesu bodolaeth y ffenomen yn fwy arwyddocaol ar *lefel profiadau unigolion* nag ar lefel ymddygiad cyffredinol mewn gweithleoedd neu sefydliadau.

#### **4.4 Profiadau negyddol**

Yn dilyn y cwestiynau uchod, rhannwyd yr holiadur yn ôl yr ymateb h.y. ar sail eu hatebion cadarnhaol neu negyddol. Derbyniwyd enghreifftiau yn nodi digwyddiadau a ymddangosai fel siaradaeth frodorol e.e.:

Yn ystod fy lleoliad addysgu, ces i “anfoddhaol” mewn gwern arsylwi achos defnyddiais geiriadur unwaith i edrych lan [REDACTED] Hefyd, pan fon i’n dysgu’r iaith, dechreuodd pobl siarad Saesneg “i neud pethau’n haws” neu chwerthin os dwi’n gwneud camgymeriad (Cyfranogwr 16).

Enghraifft arall oedd bod “athrawon eraill yn gallu bod yn feirniadol iawn o wallau [neu] ysgolion yn edrych am bobl mamiaith yn aml i weithio gyda nhw” (Cyfranogwr 28).

Ymddengys y dyfyniad olaf uchod fel achos o ragfarn oherwydd gweithdrefnau sefydliadau ym marn y cyfranogwr, ond ni chafwyd enghreifftiau tebyg gan gyfranogion eraill . Er mwyn gallu cymharu, darllenwyd y deg hysbyseb cyntaf ar E-teach ar 23<sup>ain</sup> Ebrill, 2022 am swyddi ar gyfer athrawon Cymraeg fel ‘ail-iaith’.

Ynddynt, nodwyd bod dwy hysbyseb yn gofyn am athrawon ‘rhugl yn y Gymraeg’; chwech yn gofyn am ‘wybodaeth drylwyr o’r pwnc’ a dwy yn datgan na fyddai rhagfarn yn erbyn ymgeiswyr ar sail nodweddion hunaniaeth, gan gynnwys defnyddio’r Gymraeg fel ‘iaith gyntaf’ (E-teach, 2022). Er mwyn gwirio eto, cyrchwyd y wefan ar Fedi 20<sup>fed</sup>, 2022 fel cymhariaeth a gwelwyd bod 7 hysbyseb gydag un yn unig yn gofyn am siaradwyr ‘iaith gyntaf’, ond un yn datgan bod croeso i ymgeiswyr â’r Gymraeg fel eu ‘hiaith gyntaf’; pump yn gofyn am wybodaeth drylwyr

o'r pwnc gan gynnwys un yn croesawu pobl 'iaith gyntaf' neu 'ail iaith' (E-teach, 2022). Cafwyd, felly, ddarlun mwy cymysg na'r hyn a nodwyd gan Rivers (2016) pan edrychodd ar hysbysebion yn Siapan.

Cafwyd sylw ymysg yr ymatebion gydag enghraifft o feirniadaeth ar lefel personol:

...mae athrawon mamiaith yn edrych i lawr ar athrawon ail iaith. Yn ogystal mae athrawon mamiaith mewn ysgolion Cymraeg yn edrych i lawr ar athrawon mamiaith mewn ysgolion deuffrwd (Cyfranogwr 4).

Gellir gweld yma ymdeimlad o feirniadaeth ar sail iaith wrth ystyried mathau gwahanol o ysgolion. Gan fod yr ymatebion yn anhysbys, ni fu cyfle i holi ymhellach ynglŷn â'r sefyllfa hon ond efallai byddai ymchwil pellach yn gallu amlygu bodolaeth rhagfarn a all fod â nodweddion tebyg i siaradaeth frodorol ond y dylid ei ystyried fel mater gwahanol.

Yr achos mwyaf trawiadol o brofiadau negyddol a nodwyd oedd gan Gyfranogwr 35:

Yn fy marn i ac yn sgil profiad helaeth dw i o'r farn bod obsesiwn gan gormod o siaradwyr naturiol sy'n teimlo eu bod yn well o lawer na'r rhai sy wedi dysgu fel tiwtoriaid! Dw i wedi profi dros 40 mlynedd o gael fy ngham-drin gan y Cymry Cymraeg! Pan o'n i'n gweithio i [REDACTED] roedd nifer ohonyn nhw'n gwneud pwynt o hysbysebu'r ffaith taw dysgwr o'n i ac, yn sgil hynny, roedd nifer o ddysgwyr yn cael yr argraff o gael tiwtor ail-law!

Nid oes modd penderfynu a *fwriadwyd* creu delwedd negyddol gan gydweithwyr yn yr achos hwn, ond mae'r ffaith bod yr unigolyn wedi teimlo hynny yn golygu ei fod yn rhan o realiti'r unigolyn, ac felly'n ddilys fel ymateb (Hennink, Hutter & Bailey, 2020).



#### 4.5 Profiadau Cadarnhaol

Ar y llaw arall, cafwyd nifer o enghreifftiau o brofiadau mwy cadarnhaol oddi wrth gyfranogion yr holiadur, yn dangos agwedd groesawgar at ddysgwyr yn eu tyb nhw e.e.:

yn fy mhrofiad i, mae disgyblion wedi ei chael hi braidd yn gysur fy mod i hefyd wedi dysgu Cymraeg. Mae eu hymateb yn aml yn un o ryddhad o wybod fy mod wedi bod trwy broses debyg. (Cyfranogwr 8)

Eglurwyd gan Gyfranogwr 12 y buddiannau a ddaw o fod wedi dysgu Cymraeg gan ei fod yn “haws deall problemau dysgwyr ar ôl dysgu’r iaith. Enghraifft o lwyddiant i’r disgyblion. Wedi dysgu’r rheolau ac yn haws i’w *haddysgu*”. Yn yr un modd, nodwyd gan Gyfranogwr 33 bod “pobl yn rhyfeddu fy mod i wedi dysgu'r iaith yn rhugl, ond ddim yn dibrisio fy ngallu o gwbl”.

Yn ogystal, cafwyd sylwadau cadarnhaol oddi wrth gyfranogion a nododd eu bod wedi caffael y Gymraeg fel mamiaith, megis:

Dw i wedi dysgu gyda nifer o athrawon sy’ wedi dysgu Cymraeg fel ail iaith, maen nhw’n well nag athrawon mamiaith weithiau achos maen nhw wedi cael profiad personol o ddysgu iaith newydd. Mae’n helpu gyda pherthnasau gyda disgyblion hefyd (Cyfranogwr 29)

Enghraifft glir arall oedd bod “yr athrawon sy’n dysgu Cymraeg ail-iaith yn dangos i’r plant ei bod yn bosibl dysgu, siarad a llwyddo gyda’r Gymraeg. Maen nhw yn fodelau rôl effeithiol” (Cyfranogwr 1).

Sylw cadarnhaol iawn oedd:

dydw i ddim yn meddwl fy mod i erioed wedi bod yn ymwybodol o ragfarn. Rwy'n meddwl bod pobl yn wirioneddol barchu person arall sy'n gallu dysgu iaith arall. Mae’r rhain eto’n dangos nodweddion o blaid cael athrawon sydd wedi dysgu iaith yn y dosbarth. (Cyfranogwr 8)

Nodwyd gan rai resymau cadarnhaol dros gael unigolion oedd wedi dysgu o fewn y dosbarth a’u gwrthgyferbynnu â phobl ‘mamiaith’, e.e. bod “gormod o dafodiaith

ymysg athrawon sy'n iaith gyntaf - llai o ofal ynglŷn â gramadeg- yn benodol” (Cyfranogwr 27); bod siaradwyr “mamiaith yn aml yn ansicr pam mae treigladau ayyb” (Cyfranogwr 12) a bod “nifer o siaradwyr brodorol o'r farn nad yw eu Cymraeg nhw'n 'ddigon da' i siarad â/hyfforddi dysgwyr” (Cyfranogwr 33).

Diddorol oedd nodi bod nifer o'r pwyntiau cadarnhaol am bresenoldeb 'dysgwyr' yn y dosbarth yn efelychu gwaith gwreiddiol Medgyes (1992) wrth nodi cryfderau athrawon sydd wedi dysgu'r iaith dan sylw.

Cafwyd awgrym mewn ambell ymateb o elfen arall posibl dros beidio â thalu sylw i siaradaeth frodorol yng Nghymru; sef bod y sefyllfa bresennol yn y farchnad lafur yn achosi rhesymau ymarferol dros leihad bodolaeth rhagfarn. Soniwyd am “brinder athrawon ail-iaith” (Cyfranogwr 11) a “prinder tiwtoriaid” (Cyfranogwr 31).

Rheswm diddorol a gynigiwyd oedd nodi y byddai rhagfarn siaradaeth frodorol “yn eironig oherwydd bod y system addysg wedi dangos rhagfarn yn erbyn y Gymraeg ac o blaid y Saesneg yn hanesyddol. Felly [mae] pobl mewn oed wedi colli cyfle i ddysgu'r iaith a dysgu drwy'r iaith ac yn edmygu'r rhai sydd wedi llwyddo i wneud hynny” (Cyfranogwr 33).

Nodwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth (Pennod 2) y posibilrwydd y byddai'r sefyllfa wleidyddol, hanesyddol yng Nghymru wedi creu amodau gwahanol i'r gwledydd lle astudiwyd siaradaeth frodorol eisoes. Efallai bod y sylw uchod wedi taro'r hoelen ar ei phen drwy sylwi taw nid siaradwyr yr iaith oedd â mwy o statws yn draddodiadol a fyddai'n elwa drwy siaradaeth frodorol yng Nghymru, ond siaradwyr yr iaith a fu â llai o statws.

#### **4.6 Y Ffordd Ymlaen**

Ar ddiwedd yr holiadur, gofynnwyd i'r cyfranogion am syniadau ar sut i symud ymlaen- naill ai sut i leihau achosion o'r ffenomen neu sut i ddatblygu awyrgylch

gadarnhaol, yn dibynnu ar eu hymatebion blaenorol (gweler Atodiad A ar gyfer geiriad union y cwestiynau). Cafwyd cynigion dan sawl thema, sef:

- Cefnogi a chydabod ymdrech y rhai sy'n dysgu'r iaith (Cyfranogion 7, 16, 18, 21, 28, 33)
- Gwerthfawrogi profiad addysgwyr effeithiol (Cyfranogion 16, 31, 35, 39)
- Annog rhoi cyfleoedd proffesiynol i bobl sydd wedi dysgu (Cyfranogion 17, 35)
- Cydnabod bod mwy na diffiniad syml o 'famiaith' ac 'ail-iaith' (Cyfranogion 35, 40)

Crynowyd rhai o'r pwyntiau uchod mewn un sylw- o'r holiaduron, sef bod angen:

newidiadau ar lefel diwylliannol... dylai siaradwyr [Cymraeg] annog dysgwyr.

Hefyd,

mae rhaid i bob athro/athrawes famiaith werthfawrogi gwybodaeth a phrofiad athrawon ail iaith. Mae sgiliau eraill yn datblygu yn ystod y broses addysgu iaith a maen nhw mor gwerthfawr [sic] â'r sgiliau mamiaith. (Cyfranogwr 16)

Gellir gweld tebygrwydd rhwng y pwyntiau uchod â'r hyn a nodwyd gan Davies a Parry (2021) yn eu hastudiaeth (y cyfeiriwyd ati ym Mhennod 2) o athrawon oedd yn addysgu yng Ngogledd Cymru ac a oedd wedi dysgu'r iaith eu hunain. Nodwyd ganddynt pa mor bwysig oedd cefnogaeth gadarnhaol ar gyfer llwyddiant yr athrawon oedd yn 'ddysgwyr'.

Felly, llwyddodd yr holiadur i brofi bod y ffenomen yn bodoli ym mhrofiad rhai athrawon, ond gan amlygu nad sefyllfa unffurf sy'n bodoli, ac efallai bod angen ystyried mewnbynnau eraill i egluro'i phresenoldeb. Llwyddodd hefyd i gasglu rhai profiadau a chynigion ar sut i adeiladu ar y dylanwadau cadarnhaol sy'n bodoli.

#### 4.7 Cam 2 - Y cyfweiliadau ag athrawon

Ar ôl casglu digon o ymatebion i'r holiadur i weld pa themâu oedd yn ymddangos, crëwyd braslun er mwyn holi gwirfoddolwyr ar gyfer y cam nesaf (Atodiad B). Bu'n rhaid cadw at gwestiynau agored er mwyn gadael i'r ymatebwyr gyfleu eu barn neu brofiadau personol.

Agorwyd y sgwrs drwy ofyn ychydig o gwestiynau cefndirol er mwyn rhoi siawns i'r cyfranogwyr deimlo'n gartrefol. Cynhaliwyd cyfweiliadau â phedwar o wirfoddolwyr o gam cyntaf yr ymchwil a elwir isod gan y ffug enwau Non, Mari, Teilo a Jemeima. Fel y nodwyd, roedd yr ymatebwyr yn gweithio yn Ne Cymru ond yn deillio o wahanol fannau. Roedd dau yn athrawon ysgol uwchradd a dau yn diwtoriaid i oedolion. Ni theimlai neb bod unrhyw agweddau perthnasol eraill o'u hunaniaeth yn effeithio ar sut roedd pobl eraill yn eu gweld. Beth bynnag, teimlai dau eu bod wedi profi siaradaeth frodorol a dau heb brofi hynny.

Noder bod y cyfweiliadau wedi'u recordio ar gyfer yr ymchwil. Trawsgrifiwyd y sgyrsiau ar gyfer y traethawd hwn (gweler Atodiad CH). Mae'r rhifau a ddefnyddir ar ddiwedd pob dyfyniad, felly, yn cyfateb i leoliad y sgwrs wreiddiol ar y tâp.

Y cyfranogydd cyntaf oedd Non, a oedd yn gweithio mewn ysgol gyfun yn y De-Orllewin, gyda phrofiad addysgu o ryw 15 mlynedd eisoes mewn ysgolion cyfun eraill. Aeth i ysgol Saesneg ei chyfrwng, ond gydag un rhiant yn siarad Cymraeg. Yn ei barn hi, mae siaradaeth frodorol yn bresennol yng Nghymru.

Cafwyd nifer o sylwadau ganddi'n debyg i'r rhai yn yr holiadur:

cyn Cofid pan oeddet ti'n mynd i gyfarfod ar draws y sir neu ar draws Cymru- fel adborth TGAU neu fel DPD, pethau fel yna, o'n ni'n teimlo bod pobl mamiaith yn edrych lawr arna i achos roeddwn i'n ail-iaith, doedd dim hawl da fi am yr iaith Gymraeg achos o'n ni'n ail-iaith .... [roedd ]pobl yn hollol wahanol achos roeddwn i'n ddysgwraig (Non, 02:29)

Wrth ymateb i'r cwestiwn; "Pwy neu beth sy'n gwneud yr athrawon Cymraeg gorau?" dywedodd:

Wel- ni! (*chwerthin*) Pobl ail-iaith wrth gwrs- wel ie- y bobl sy 'di mynd trwy ddysgu'r iaith. Sai'n dweud bod y [bobl] mamiaith yn rili wan ond 'yn ni'n gallu ... uniaethu gyda'r plant. A- weithiau dwi'n cofio rhywun yn yr ysgol pan 'on nhw'n dysgu fi. Dywedais 'pam mae hyn yn gwneud hyn'- dim clem 'da hi- doedd dim clem da hi. Jyst achos ma fe, achos ma fe- ond o'n ni eisiau gwybod pam. Mae rheol t'mod so- dwi'n meddwl bod y bobl sydd wedi bod trwyddo a gwneud yn gwybod sut i wneud pethau. Pobl sy'n cael hwyl yn gwneud e- ni yw'r gorau. (Non, 06:28)

Gwelir ei bod yn efelychu'r meddylfryd bod 'dysgwyr' yn canolbwyntio ar ddysgu gramadeg ac, felly, yn gallu egluro rheolau'r iaith yn well wrth addysgu. Cafwyd sylw ganddi yn sôn am gyfleoedd proffesiynol:

dydyn ni byth 'rili' yn clywed am bobl ail-iaith 'di cynnig bod yn rhan o greu y gemau, yr adnoddau yma. Mae wastad teimlad bod pobl iaith gynta'..ond eleni, mae athrawes dwi'n dysgu gyda hi. Mae'n rhan o greu adnoddau- so efallai ie, efallai mae pethau'n dechrau newid. Mae hi 'di bod yn rhan o'r tîm yn creu pethau. (Non, 09:10)

Ac mewn ymateb i'r cwestiwn: "Wyt ti'n meddwl bod gwerth mewn cael athrawon mamiaith ac ail-iaith yn yr un adran- neu oes ots?", ei hymateb oedd: "Na, sai'n meddwl. Os wyt ti'n athro da, athrawes dda, rwy'ti'n gallu gwneud e" (Non, 18:59).

Yna cynhaliwyd cyfweiliad â Mari, a oedd eto yn dysgu mewn ysgol yn y De-Orllewin, ond yn eithaf newydd i'r proffesiwn. Bu hi'n astudio Cymraeg fel 'ail-iaith' yn yr ysgol ac yn dod o deulu di-Gymraeg. Nid yw hi wedi profi siaradaeth frodorol, yn ei thyb hi.

Sylw a all fod yn arwyddocaol yw bod pob un o'i chyfoedion oedd yn 'famiaith' ar cwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) wedi mynd i weithio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg; felly, mae'r garfan yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg y mae hi'n eu hadnabod hefyd yn bobl sydd wedi dysgu'r iaith eu hunain. Efallai bod hwn yn egluro absenoldeb beirniadaeth ymysg yr athrawon hynny, gan eu bod oll yn 'ddysgwyr'.

Wrth egluro nad oedd wedi profi rhagfarn gan rieni neu ddisgyblion, cafwyd sylwadau yn cefnogi'r syniad nad rhywbeth unffurf neu gyffredin yw siaradaeth frodorol. Dywedodd:

Sai'n credu eu bod nhw'n ymwybodol, ond efallai bod e'n dibynnu ar y person, ac os ydyn nhw wedi cael y cyfle i siarad lot o Gymraeg a datblygu'r sgiliau (Mari, 08:10).

ac eto:

...os oes rhywun yn cael ei feirniadu am fod yn '*ail-iaith*' 'sw'n i'n dweud ei fod yn dibynnu ar leoedd gwahanol yng Nghymru a dim ymhobman ... ond dwi byth wedi cael y teimlad o bobl yn beirniadu o ran defnyddio'r Gymraeg. (Mari, 08:40)

Wrth ymateb i'r cwestiwn ynglŷn a beth sy'n helpu cefnogi athrawon sydd wedi dysgu'r iaith, soniodd am fod yn rhan o adran gref; cael pennaeth adran cryf; rhannu profiadau a deunyddiau gydag eraill, gan gynnwys athrawon yn addysgu'r Gymraeg fel 'mamiaith' gan fod "tebygrwydd rhwng pethau rydyn ni'n gwneud" (Mari, 10:46). Roedd yr ymatebydd nesaf, sef Jemeima, hefyd yn anymwybodol o'r ffenomen, yn ei phrofiad hi. Aeth mor bell â dweud,

dwi erioed wedi cael neb, dwi ddim yn teimlo beth bynnag, sy' wedi dangos unrhyw rhagfarn yn fy erbyn unwaith rwy'n dweud fy mod i'n ail-iaith. Dwi ddim wedi dod ar draws hynny o gwbl. Dim ond canmoliaeth(Jemeima, 12:44).

Deuai Jemeima o'r canolbarth yn wreiddiol, o deulu di-Gymraeg. Ar ôl dysgu Cymraeg yn yr ysgol, bu hi'n gweithio fel athrawes ysgol uwchradd, ac yn awr fel tiwtor i oedolion ers nifer o flynyddoedd yn y De-Orllewin. Wrth sôn am ei phrofiad o ddysgu'r iaith, nododd bod ei hathro Cymraeg hi wedi dysgu'r iaith ei hunan. Ychwanegodd: "roedd e hefyd yn deall sut brofiad oedd hi i ddysgu'r iaith a rwy'n siŵr bod hynny wedi bod yn ffactor"(Jemeima, 01:52).

Nododd y pwynt ynglŷn â gramadeg ymysg athrawon 'mamiaith':

yn aml iawn, maen nhw'n gwybod sut maen nhw'n dweud rhywbeth ond 'dyn nhw ddim yn gwybod *pam* maen nhw'n dweud e neu beth

yw'r perthynas â'r gramadeg, a mae hynny'n gallu bod yn anodd pan dych chi'n trio egluro i ddysgwyr. (Jemeima, 08:25)

ond gan nodi bod pethau'r newid erbyn heddiw. Credai bod athrawon sydd wedi bod yn 'ddysgwyr' eu hunain yn gymorth i'r dysgwyr oherwydd "unwaith dych chi wedi bod trwy'r broses o ddysgu iaith, dych chi'n deall ble mae'r maen tramgwydd a ... beth oedd yn anodd i chi fel dysgwr" (Jemeima 09:20).

Mewn ymateb i'r cwestiwn, "ydych chi'n meddwl bod gwerth mewn cael cymysgedd o athrawon sy'n iaith gyntaf ac sydd wedi dysgu'r iaith yn gweithio ar y cyd?" meddai:

Byddwn ni yn dweud bod hynny yn mynd i gyfoethogi profiad y ddwy ochr, yn enwedig i athrawon efallai sydd yn ddi-brofiad a lle mae eu hiaith nhw yn datblygu (Jemeima 23:56).

Ffactor pwysig iddi oedd positifrwydd pobl 'mamiaith' at 'ddysgwyr' er mwyn hybu eu datblygiad. Yn ffodus, roedd hwn yn rhan o'i phrofiad personol hi.

Y cyfweledig olaf o'r athrawon oedd Teilo. Er ei fod yn cofio'r Gymraeg yn cael ei defnyddio yn y tŷ pan oedd yn ifanc iawn, nid oedd ei rieni yn defnyddio'r iaith gydag ef wrth iddo dyfu. Astudiodd Gymraeg fel ail-iaith yn yr ysgol a sawl iaith arall ers hynny, ac roedd wedi gweithio ers nifer o flynyddoedd fel tiwtor i oedolion yn y De-ddwyrain. Yn ei farn ef, doedd dim amheuaeth bod y ffenomen yn bodoli. Yn fwy na hynny, soniodd nad oedd wedi teimlo'r un feirniadaeth wrth astudio a defnyddio Ffrangeg.

Un o'r nodweddion amlycaf oedd cael ei gyflwyno i ddysgwyr ar gyrsiau fel rhywun dysgwr ei hun oherwydd:

ro'n ni'n teimlo bod nhw'n meddwl bod nhw ddim yn cael tiwtor oedd o'r un safon. Yn eu llygaid nhw [roedd] cael rhywun oedd yn siarad Cymraeg o'r aelwyd yn llawer gwell na chael rhywun un sydd wedi dysgu. Nawr te, wrth gwrs, fel athro, tiwtor ac athro proffesiynol, dwi'n gwybod yn well na dim byd taw rhywun sydd wedi meistrolu, sy' wedi cael hyfforddiant dysgu, sydd wedi astudio- *nhw* sy'n gwybod sut i ddysgu, sut i helpu pobl caffael iaith hefyd. (Teilo, 18:40)

Nid oes modd gwybod ai gweithred fwriadol negyddol oedd y tu ôl i “agwedd y tiwtoriaid oedd yn lladd arna i” (Teilo 19:10), ond gan fod Teilo wedi dehongli ymddygiad cydweithwyr fel beirniadaeth, cafodd hynny effaith niweidiol arno.

Eglurodd:

dwi wastad wedi dioddef gyda rhyw fath o, sai'n gwybod, prinder hyder weithiau... achos agwedd pobl eraill. Ac efallai dwi wedi bod yn anlwcus ac wedi cwrdd â'r bobl anghywir. (Teilo, 17:20)

Er iddo weithio yn y maes am amser maith, teimlai fod problemau o hyd:

Ac rwy dal yn cael rhyw fath o ragrith nawr, wrth, ch'mod, gyda'r swyddi mawr. Dwi byth wedi cyrraedd y brig fel petai achos, achos mae uchel-geision gyda fi i ysgrifennu llyfrau... ond dwi wedi cael cymaint o bobl sydd wedi rhwystro fi rhag fynd ymlaen... A dwi ddim eisiau bod yn fethiant.(Teilo 21:35)

Gellir gweld bod themâu tebyg i rai blaenorol wedi codi yn yr ymatebion uchod. O ran y rhai sy'n teimlo bod siaradaeth frodorol yn bodoli, mynegwyd rhwystredigaeth ynglŷn â pheidio â chael cyfleoedd proffesiynol; eu bod yn teimlo beirniadaeth oddi wrth eraill a gafodd effaith negyddol ar eu delwedd o'u hunain ac ar ei hunan-werth, a bod addysgwyr eraill yn gweld gwahaniaeth rhwng athrawon 'mamiaith' a rhai oedd wedi dysgu'r Gymraeg.

Ar y llaw arall, dywed Mari a Jemeima bod addysgwyr eraill wedi bod yn gefnogol a'u bod wedi derbyn parch wrth ddefnyddio sgiliau amrywiol a fagwyd ganddynt wrth ddysgu iaith newydd, i gryfhau addysgu fel rhan o adran mewn ysgol neu goleg.

Yr hyn a bwysleisiwyd yn yr ymatebion oedd bod profiad o addysgu, datblygu sgiliau addysgu effeithiol a bod yn addysgwr proffesiynol yn allweddol i lwyddiant, a bod y rhain yn bwysicach na chefnidir ieithyddol yr unigolyn.

#### **4.8 Cam 3 - Y cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid eraill**

Er mwyn cael barn pobl eraill oedd â diddordeb mewn dysgu iaith ar fodolaeth posibl siaradaeth frodorol yng Nghymru, cynhaliwyd cyfweiliadau hanner strwythuredig â



thri unigolyn ychwanegol. Fe'i dewiswyd er mwyn clywed barn pobl ag ystod o brofiadau addysgol, fel y nodir isod. Cynigiwyd cyfrinachedd iddynt, ond dewisodd dau ohonynt wirfoddoli eu henwau, sy'n gymorth i ychwanegu cyd-destun i'w sylwadau.

Yr ymatebydd cyntaf oedd Tom. Astudiodd sawl iaith yn yr ysgol, gan gynnwys Cymraeg 'fel ail-iaith', yna cwblhau gradd mewn ieithoedd a dysgu Saesneg yn Tseina am gyfnod, lle gwelodd siaradaeth frodorol yn elfen ffurfiol o'r gyfundrefn addysg:

I think the first thing you realise is that you've been brought in because, the idea is that you're going to teach them things in a slightly different way, um, they place value on having a native speaker because they think your standard is somehow going to be automatically higher. To some extent that's true but I know I encountered some problems with it when I first arrived. The first one; you rock up as a foreign teacher, ... your salary is automatically much higher than the local teachers. The local teachers are all regular teachers who have all studied and worked very hard to become teachers, whereas you've just rocked up as someone from the UK who just happens to speak English. ...For me it didn't sit very well. (04:23)

Diddorol yw gweld bod y ffenomen wedi cael effaith danseiliol ar yr unigolyn a fu'n *elwa*'n ariannol o'r sefyllfa. Ceir sylwadau ar yr un thema gan Lowe a Kiczkowiak (2016) yn sôn sut roeddent yn teimlo bod athrawon Saesneg 'mamiaith' yn Siapan yn cael eu dibrisio drwy gael eu hystyried fel adnoddau ieithyddol yn hytrach nag athrawon proffesiynol, er eu bod yn cael tâl uwch nag athrawon brodorol, yn debyg i'r arfer yn Tseina.

Aeth Tom ymlaen i sôn am sut y gofynnodd am gymorth oddi wrth athrawon lleol wrth geisio ffeindio dulliau addysgu a fyddai'n addas ar gyfer diwylliant y wlad, a sut enillodd barch drwy gydweithio a chydabod profiad y cydweithwyr. Wrth ymateb i'r posibilrwydd bod siaradaeth frodorol yn bodoli yng Nghymru, dywedodd:

I don't remember as a student 'oh, well, I'll give this teacher less of my attention because they're not a native speaker'. In fact, I think in some

ways it was, ‘wow, this person learned another language, therefore I can do it too. (Tom 15:20)

Cynhaliwyd cyfweiliad arall gyda Ioan Rhys Jones, Ysgrifenydd Cyffredinol Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC). Fel y nodwyd uchod, cynigiodd gael ei enwi fel rhywun sydd yn gweithio i ddatblygu profiadau cadarnhaol athrawon yn eu gwaith. Crynhowyd iddo’r themâu a amlygwyd yn yr ymchwil eisoes er mwyn cael ei ymateb. Wrth sôn am wahaniaethu, meddai:

Yn sicr, mae angen newid yr iaith rydyn ni’n defnyddio. Mae rhai termau fel ail iaith a iaith gyntaf yn hen ffasiwn a ‘dyn nhw ddim wir yn cyfleu beth sy’ gynnon ni yn y gymdeithas ...dan ni’n sôn am gontinwmm iaith bellach ac *mae’r* llywodraeth wedi sôn am y continwmm iaith o ran ysgolion ond hefyd o ran ch’mod, *datblygu* sgiliau pobl i siarad yr iaith ar wahanol lefelau... Does na ddim ‘ail-iaith’, does na ddim ‘iaith gyntaf’ yma- mae siaradwyr Cymraeg. (Ioan 02:24)

Wrth gwrs, ‘dan ni fel undeb, ‘dan ni’n cynnig gwasanaeth i athrawon, sydd yn ...siarad Cymraeg ar ba bynnag darn o’r sbectrwm (Ioan 06:12)

Cytunodd bod yr arfer broffesiynol yn elfen hollbwysig wrth asesu gallu athrawon, gan sôn am ei brofiad ei hun:

Yn y Gogledd-ddwyrain o ran trosglwyddo’r iaith, alla i feddwl am sawl unigolyn sydd wrthi’n gwneud gwaith gwych. Ac.. oherwydd [eu] bod nhw wedi bod ar y lefel yna eu hunain, wrth gwrs a mae’r addysgeg maen nhw’n defnyddio... mae eu cywirdeb nhw [ac] mae eu haddysgeg nhw o safon uchel iawn, iawn, iawn (Ioan 08:12)

Yr ymatebydd olaf oedd Tina Thomas, athrawes brofiadol iawn a fu’n gweithio fel ymgynghorydd ar gyfer athrawon Cymraeg ‘ail iaith’ ar gyfer Education through Regional Working (ERW). Oherwydd hynny, roedd ganddi brofiad helaeth o weithio ar y cyd gyda nifer fawr o athrawon ac adrannau Cymraeg. Eto, roedd hi’n hapus i’w henw fod yn hysbys ac i gael ei hadnabod yn y gwaith hwn. Wrth feddwl am fodolaeth y ffenomen, dywedodd:

yr unig bryd dwi wedi bod yn ymwybodol ohono fe, a dwi wedi cael athrawonyn dweud ei fod e wedi bod yn digwydd yw adeg bod ti’n cael athrawon *Cymraeg* i gyd yn dod at ei gilydd, megis athrawon iaith gyntaf *ac* athrawon ail- iaith. Wedyn mae ‘da ti’r athrawon ail iaith sy’n

teimlo'n is-raddol. A mae hwnna'n digwydd. Tybed, a fyddai hwnna'n digwydd ta beth? (Tina 00:01)

Aeth ymlaen i drafod a fyddai athrawon pynciau eraill yn ymddwyn mewn ffordd debyg, gan fod grwpiau o bobl yn tueddu i lynu at ei gilydd, h.y. ai mater o fod yn rhan o grŵp sydd wrth wraidd y teimlad o wahaniaeth? Cwyd cwestiwn diddorol yma, gan fod rhaid ystyried y posibilrwydd taw nid siaradaeth frodorol sydd yn bodoli yma. Yn hytrach, mae'n bosibl bod iaith yn un elfen o hunaniaeth y cyfranogion a ddefnyddiwyd fel sail ar gyfer gwahaniaethu.

Efelychodd Tina sylwadau Non ac Ioan uchod ynglŷn â gwybodaeth 'dysgwyr' am ramadeg:

adeg 'on ni'n [dysgu], os oedd plentyn efallai yn y chweched yn cael trafferth deall rhyw bwynt gramadegol, yn aml on ni 'jyst' yn dweud 'wel, beth ddywedon nhw wrtha i adeg 'on ni yn yr ysgol oedd 'iwsa' dy glust di a mae dy glust di yn dweud wrthyt ti. Wel dyw hwnna ddim yn helpu dysgwr ac 'on ni'n mynd drws nesaf at rywun oedd yn 'dysgu' Cymraeg a dweud: "pam fod hwn yn digwydd"?(Tina 03:05)

Ac fel athrawes brofiadol, nododd bwynt oedd yn cytuno â'r sylwadau a gafwyd yn y llenyddiaeth ar siaradaeth frodorol (e.e. Medgyes, 2014):

Be' on i hefyd yn teimlo fel person oedd yn dysgu mewn tîm a oedd yn aml-dalentog, oedd pob un fel 'sa lle 'dan nhw. Oedd na le yna i bobl oedd wedi dysgu'r Gymraeg ar yr aelwyd ac eraill wedi dysgu fe yn yr ysgol. Roedd eraill oedd wedi dysgu fel oedolion hyd yn oed. On ni gyd yn wahanol ond eto roedd yr un nod gyda ni. A rwy 'jyst' yn meddwl taw dyna'r lle r'yn ni ar hyn o bryd. (Tina 04:32)

Ar ddiwedd y broses ymchwil ymarferol, gellir bod yn hyderus bod siaradaeth frodorol mewn rhyw fodd wedi cael ei brofi gan unigolion yng Nghymru a bod profiadau negyddol tebyg i'r uchod wedi effeithio ar ymatebwyr i'r holiadur a'r cyfweiliadau hefyd.

Er hynny, yr hyn sydd yn bosibl dweud yn ogystal, yw nad yw siaradaeth frodorol yn bodoli fel ffenomen gyffredin, gan fod arfer dda ac awyrgylch groesawgar hefyd yn bresennol mewn nifer fawr o fannau, fe ymddengys.

## Pennod 5

### **5. CASGLIADAU AC ARGYMHELLION**

#### **5.1 Cyflwyniad**

Bwriad yr astudiaeth hon oedd ymchwilio i ffenomen nad yw'n hysbys yng Nghymru, ac a allai herio cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu defnydd yr iaith Gymraeg, os oes tystiolaeth ohoni ar waith yn y gymuned (Llywodraeth Cymru, 2017a). Yn ogystal, gallai bodolaeth y ffenomen siaradaeth frodorol dystio bod rhagfarn ar sail iaith neu gefndir ieithyddol yn cael ei dioddef gan aelodau'r proffesiwn addysgu, yn enwedig gan ddysgwyr y Gymraeg eu hunain, gan danseilio, o bosib, eu hunan-barch a'u hyder fel addysgwyr.

#### **5.2 Nodau'r ymchwil: casgliadau**

Nod cyntaf yr ymchwil oedd profi neu wrthbrofi bodolaeth y ffenomen yng Nghymru. Drwy'r holiaduron, darganfuwyd bod nifer o'r ymatebwyr yn hollol anymwybodol o'r ffenomen, ond bod unigolion eraill wedi cael profiad ohoni. Nodyn gobeithiol oedd gweld *absenoldeb* cyd-berthynas rhwng ymwybyddiaeth o siaradaeth frodorol a chefnidir ieithyddol y cyfranogion, gan adlewyrchu'r ffaith nad ffenomen a fodolai ymhlith ymwybyddiaeth dysgwyr yn unig oedd hon. Ni chafwyd tystiolaeth chwaith o sefydliadau yn gweithredu agweddau ar siaradaeth frodorol er bod data a gasglwyd wrth E-teach yn dangos, efallai, bod ambell sefydliad ar y trywydd hwn.

Serch hynny, dylid cydnabod tystiolaeth yr unigolion o fewn y proffesiwn addysgu a ddioddefodd beirniadaeth. Yn achos yr unigolion hynny, ymddengys taw agweddau negyddol oddi wrth *gydweithwyr eraill* oedd sbardun y rhagfarn ac nid polisi swyddogol ar ran mudiadau, sefydliadau neu weithleoedd. Er hynny, nid oes modd gwybod a adlewyrchai'r rhagfarn hwnnw agweddau ehangach ar hunaniaeth yr

unigolion dan sylw gyda hyfedredd yn y Gymraeg ond yn un nodwedd ohono ymhlith eraill.

Gellir bod yn hyderus, felly, nad yw unrhyw ragfarn a all fodoli ynglŷn â siaradaeth frodorol yn gweithredu ar lefel fwriadol, *sefydliadol* gan na welwyd patrymau cyson yn y data a gasglwyd.

Ail nod yr ymchwil oedd gweld a oedd buddion a allai ddeillio o brofiadau unigolion o ddysgu'r iaith yn cael eu cydnabod o fewn y proffesiwn addysgu.

Yr hyn a amlygwyd gan y cyfweiliadau oedd bod sgiliau addysgu effeithiol ac ymrwymiad fel addysgwyr proffesiynol yn cael eu cydnabod fel elfennau pwysicach na chefnidir ieithyddol unigolion.

Cafwyd nodyn gobeithiol ychwanegol wrth i ambell gyfranogwr nodi gwelliant mewn agweddau yn ddiweddar, gan gynnwys rhai a brofodd rhagfarn yn y gorffennol. Beth bynnag, nid yw'r ymchwil hwn yn cwmpasu astudiaeth o'r mewnbynau a allai fod yn gyfrifol am y gwelliant hwnnw.

Yn drydydd, ceisiwyd casglu awgrymiadau oddi wrth gyfranogion ar gyfer creu ac adeiladu naws gefnogol yn y gweithle a chyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o greu gweithleoedd lle gellir gwireddi potensial unigolion (Llywodraeth Cymru, 2016).

Bu cyflawni'r nod hwn yn fwy o her wrth ddarganfod nad oedd pawb o'r farn bod y ffenomen yn bodoli. Rhaid canmol y garfan fawr o athrawon, rhieni a phlant sydd yn amlwg yn derbyn unigolion fel y maent ac yn barod i roi cyfle iddynt brofi eu hunain fel athrawon o safon, heb feirniadaeth. Gan fod sawl ymatebydd wedi pwysleisio pwysigrwydd gweithio ar y cyd a dysgu oddi wrth eraill, gellir tybio bod gweithio o fewn adrannau cydlynol a chydweithredol yn ffactor mewn adeiladu naws gefnogol ac adeiladol ar gyfer gweithwyr (Llywodraeth Cymru, 2016).

### 5.3 Argymhellion

Cynigir dwy brif thema ar gyfer argymhellion a ddaw o'r astudiaeth hon. Yn gyntaf, gellir argymhell annog athrawon i barhau i gefnogi ei gilydd a gweithio ar y cyd er mwyn datblygu ystod o sgiliau addysgol o fewn adrannau unigol, gan gydnabod cryfderau a ddaw o wahanol brofiadau o ddysgu iaith. Gallai cydnabyddiaeth gyhoeddus amlygu enghreifftiau o arfer dda mewn gweithleoedd ag awyrgylch ieithyddol adeiladol (e.e. megis y mabwysiadwyd yn achos 'Buddsoddwyr Mewn Pobl') ddwyn sylw at agwedd groesawgar at ddysgwyr.

Er mwyn denu mwy o athrawon Cymraeg fel rhan o gyrraedd y nod cenedlaethol o filiwn o siaradwyr erbyn 2050 (Llywodraeth Cymru, 2017a), efallai byddai pwysleisio bod pawb ar daith 'gyda'i gilydd' yn ieithyddol yn lleihau teimladau o wahaniaeth. Gellir gweld potensial ystyried *pawb* ar gontinwwm iaith sydd yn rhan o broses gydol-oes yn ogystal â bod yn rhan o ddatblygiad plant a allai fod yn fanteisiol i bawb, boed yn 'ddysgwyr' neu'n bobl 'mamiaith'. Gwelir yr un cysyniad y tu cefn i'r continwwm ieithyddol arfaethedig o fewn y cwricwlwm addysgol newydd yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2020). Fel rhan o'r argymhelliad hwn, mae'n bosibl y byddai newid yn nefnydd termau fel 'dysgwyr' ei hunan yn gymorth i leihau categorio pobl a'u labeli.

Fel rhan o ymgyrch o'r fath, efallai dylid ystyried pwysleisio amrywiaeth mewn diwylliant. Gan fod nifer fawr o ddysgwyr 'ail-iaith' yn byw mewn ardaloedd dinesig a threfol lle ceir llai o Gymraeg yn draddodiadol (Llywodraeth Cymru, 2017a), tybir y ceir profiadau diwylliannol ganddynt sy'n wahanol i siaradwyr mamiaith mewn ardaloedd Cymraeg traddodiadol. Gall cydnabod ystod o brofiadau a diwylliant anffurfiol mewn deunydd dysgu a'r cyfryngau, er enghraifft, roi gwerth i'r amrywiaeth yn y cefndiroedd diwylliannol sydd yn bodoli.

Ar y llaw arall, gan fod siaradaeth frodorol yn bodoli ar lefel unigolion, rhaid cydnabod bod eu profiadau'n ddilys ac i'w gwerthfawrogi drwy dynnu sylw at arferion negyddol a brofwyd ganddynt. Dengys tystiolaeth yr ymchwil y gall unigolion ddehongli 'realiti' yn wahanol mewn modd ffenomenolegol (e.e. Vanderstoep & Johnson, 2009), ac, er nad yw siaradaeth frodorol efallai yn realiti i bawb, eto, mae'n wir ac yn real i unigolion sydd yn ei 'brofi'.

Gan fod yr astudiaeth hon wedi ymchwilio'n benodol i siaradaeth frodorol, gan labeli arferion efallai nad oedd disgrifiad clir ohonynt eisoes, gellir honni bod angen rhoi ystyriaeth i'r ffenomen fel ymddygiad tanseiliol o fewn lleoedd gwaith yng Nghymru. Megis yn achos agweddau ar hiliaeth, er mwyn lleihau achosion o'r fath, byddai adnabod, enwi a gwrthod yr ymddygiad hwn yn dod ag ef i'r wyneb er mwyn codi ymwybyddiaeth ymysg cydweithwyr a all fod yn niweidio eraill, er yn anfwriadol efallai.

#### **5.4 Cyfyngiadau**

Astudiaeth o sampl o wirfoddolwyr oedd yma, ac ni ellir cyffredinoli'n ehangach. Yr hyn a geir yma yw enghreifftiau o fewn astudiaeth gyfyngedig, er mwyn uwch oleuo sefyllfa sy'n bodoli ym mhrofiad unigolion. Gallai astudiaeth bellach ar raddfa ehangach amlygu cyfraddau ac amrywiadau daearyddol nas llwyddwyd i'w darganfod yma. Er bod y data a gasglwyd yn dangos mwy o ymwybyddiaeth o siaradaeth frodorol ymysg cyfranogion De Orllewin Cymru, ni strwythurwyd y sampl; felly, nid oes modd honni bod elfennau megis cefndir cymdeithasol, ieithyddol neu wleidyddol y rhanbarth yn egluro presenoldeb y ffenomen yn fwy na rhanbarthau eraill.

Gan nad oedd astudiaethau tebyg eisoes yng Nghymru, nid oedd disgwyliadau ar ba fath o ddata y byddai'n cael eu casglu, ac nid oedd patrwm i'w ddilyn er mwyn creu cymhariaeth; felly, bu rhaid agor y drafodaeth gyda chwestiynau sylfaenol. Efallai fod

yr astudiaeth wedi codi cwestiynau i'w hystyried a chynnig syniadau ar gyfer ymholiadau i gyfeiriadau eraill.

Yn olaf, gan taw astudiaeth dros gyfnod byr oedd hon, cyfyngiad arall oedd y ffaith nad oedd yn medru dangos newidiadau dros amser. O ystyried y sylwadau a wnaethpwyd ar y newid mewn agweddau yn ddiweddar, byddai parhad yn y gwelliant hwn yn galluogi cyfraniad gadarnhaol gan 'ddysgwyr' mewn gweithleodd lle hybir y Gymraeg, yn arbennig ysgolion. Er yr amlygwyd bodolaeth rhagfarn gan yr astudiaeth, a oedd, yn ei hanfod, yn beth negyddol, neges obeithiol sydd yma; sef bod agweddau yn gallu newid, a phan ddigwydd hynny, y rheiny sy'n cefnogi'r iaith Gymraeg a fydd ar eu hennill.



## 6. CYFEIRNODAU

Alchetron.com. (2021) Ar gael yn: <https://alchetron.com/Braj-Kachru> (Cyrchwyd: 22 Hydref 2022).

Ammon, U. (2000) 'Towards more fairness in International English: Linguistic Rights of Non-native speakers', in Jenkins, J. (ed.) (2015) *Global Englishes*. 3rd edn. Abingdon: Oxford University Press.

Baker, C. & Wright, W. (2017) *Foundations of Bilingual Education and Bilingualism*. 6<sup>th</sup> edn. Bristol: Multilingual Matters.

Bassey, M. (1981) 'Pedagogic Research: on the relative merits of search for generalisation and study of single events', *Oxford Review of Education*, 7(1), pp. 73-88.

Beard, A. (2020) 'Addasrwydd y ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg at gynhyrchu siaradwyr yr iaith', *Cylchgrawn Addysg Cymru*, 22(2), pp. 1-25.

British Educational Research Association. (2004) *Revised Ethical Guidelines for Educational Research*. Nottingham: BERA.

Bell, J. & Waters, S. (2018) *Doing Your Research Project, A Guide for First-time Researchers*. 7<sup>th</sup> edn. London: McGraw-Hill Education.

Caravita, J. (2013) *Identity and Anxiety in Teachers of Arabic and Hebrew*. Unpublished PhD Thesis. University of Texas at Austin. Available at: <https://repositories.lib.utexas.edu/handle/2152/21264> (Accessed: 11 May 21).

Copland, F., Garton, S. & Mann, S. (eds) (2016) *LETs and NESTs: Voices, Views and Vignettes*. London: British Council.

Cresswell, J.W. & Cresswell, J.D. (2018) *Research Design*. 5<sup>th</sup> edn. London: Sage.

Garcia, O. & Baker, C. (eds) (2007) *Bilingual Education: An Introductory Reader*. Clevedon: Multilingual Matters.

Davies, P. & Parry, E. (2018) 'Pan fo addysgwyr yn ddysgwyr- safbwyntiau ar hyder ymarferwyr ail iaith i gefnogi 'Datblygu'r Gymraeg' fel ail iaith yn y Cyfnod Sylfaen'. *Gwerddon* 26, pp. 69-87. Ar gael yn: <http://www.gwerddon.cymru/cy/rhifynnau/rhifyn26/erthygl13/> (Cyrchwyd: 24 Hydref 2021).

Eteach (2022) Ar gael yn: <https://www.eteach.com/jobs/teacher> (Cyrchwyd: 23 Ebrill a 22 Medi 2022).

Hall, R. (2020) *Mixing Methods in Social Research*. London: Sage.

- Hennink, M., Hutter, I. & Bailey, A. (2020) *Qualitative Research Methods*. 2<sup>nd</sup> edn. London: Sage.
- Holliday, A. (2006) 'Native Speakerism', *ELT Journal*, 60(4), pp. 385-387. Available at: <https://doi.org/10.1093/elt/ccl030> (Accessed: 22 August 2021).
- Holliday, A. (2016) *Doing and Writing Qualitative Research*. 3<sup>rd</sup> edn. London: Sage.
- Hye-Kyung, K. (2011) 'Native Speakerism Affecting Nonnative English Teachers' Identity Formation: A Critical Perspective', *English Teaching*, 66(4), pp. 53-71. Available at: <https://doi.org/10.15858/engtea.66.4.201112.53> (Accessed: 13 April 2021).
- Jenkins, J. (2007) *English as a Lingua Franca*. Oxford: Oxford University Press.
- Jenkins, J. (2015) *Global Englishes*. 3<sup>rd</sup> edn. Abingdon: Oxford University Press.
- Jones, I. (2021) *Gwefannau Cymdeithasol ar gyfer Addysgu: Facebook, Instagram, Snapchat, Tik Tok, Twitter a YouTube*. [recordiad fideo] Ar gael ar: <https://www.porth.ac.uk/cy/collection/gwefannau-cymdeithasol-ar-gyfer-addysgu> (Cyrchwyd: 28 Rhagfyr 2021).
- Kralova, Z. & Tirpakova, A. (2019) 'Nonnative EFL Teachers' Speaking Anxiety: Post-Communist Country Context', *SAGE Open*, 9(2), pp. 1-13. Available at: <https://doi.org/10.1177/2158244019846698> (Accessed: 25 August 2021).
- Kumar, R. (2019) *Research Methodology*. 5<sup>th</sup> edn. London: Sage.
- Lee, R. (1993) *Doing Research on Sensitive Topics*. London: Sage.
- Lippi-Green, R. (2008) *English with an Accent*. Oxford: Routledge.
- Llywodraeth Cymru (2016) *Canllawiau Statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru (2017a) *Cymraeg 2050; Miliwn o Siaradwyr*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru (2017b) *Y Gymraeg Mewn Addysg; Cynllun Gweithredu 2017-2021*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru (2020) *Cwricwlwm i Gymru*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu/> (Cyrchwyd: 18 Ebrill 22)
- Llywodraeth Cymru (2021) *Cyfrifiad Ysgolion*. Ar gael yn: <https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/teachers-and-support-staff/school-workforce-annual-census/welsh-language/teachingworkingthroughthemediumofwelsh-by-localauthority> (Cyrchwyd: 20 Ebrill 22)

Lowe, R. & Kiczkowiak, M. (2016) 'Native-speakerism and the complexity of personal experience: A duoethnographic study', *Cogent Education*, 3(1:1264171), pp. 1-16. Available at: <https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/2331186X.2016.1264171> (Accessed: 7 October 2022).

Medgyes, P. (1992) 'Native or non-native: who's worth more?', *English Language Teaching Journal*, 46(4), pp. 340-350.

Medgyes, P. (2014) 'The Native/Non-native Conundrum Revisited', in Horváth, J. & Medgyes, P. (eds) *Studies in Honour of Marianne Nikolov*. Pécs: Lingua Franca Csoport.

Moussu, L. & Llorca, E. (2008) 'Non-native English-speaking English language teachers: History and research', *Language Teaching*, 41(3) pp. 315–348.

Phillipson, R. (1992) *Linguistic Imperialism*. Oxford: Oxford University Press.

Phillipson, R. (2009) *Linguistic Imperialism Continued*. London: Routledge.

Rivers, D. (2016) 'Employment Advertisements and Native-Speakersim in Japanese Higher Education', in Copland, F., Garton, S. & Mann, S. (eds) *LETs and NESTs: Voices, Views and Vignettes*. London: British Council.

Selvi, A. (2016) 'Native or non-native English-speaking professional in ELT: 'That is the question!' or 'Is that the Question?', in Copland, F., Garton, S. & Mann, S. (eds) *LETs and NESTs: Voices, Views and Vignettes*. London: British Council.

Vanderstoep, S. & Johnston, D. (2009) *Research methods for everyday life: blending qualitative and quantitative approaches*. 1<sup>st</sup> edn. San Francisco: Jossey-Bass.

Zohrabi, M. (2013) 'Mixed Methods Research: Instruments, Validity, Reliability and Reporting Findings', *Theory and Practice in Language Studies*, 3(2), pp. 254-262. Available at: <https://doi.org/10.4304/tpls.3.2.254-262>. (Accessed: 23 August 2022).

### **Llyfryddiaeth**

Biggam, J. (2008) *Succeeding with your Master's Dissertation*. Maidenhead: Mc Graw Hill Open University Press.

Estyn (2021) *Caffael yr iaith Gymraeg*. Caerdydd: Estyn.

Horwitz, E. (2016) 'Preliminary Evidence for the Validity and Reliability of a Foreign Language Anxiety Scale', *Tesol Quarterly*, 50(4), pp. 932-935.

Mercer, S. (2021) 'An agenda for well-being in ELT: an ecological perspective', *English Language Teaching Journal*, 75(1), pp. 14-21.

Rampton, M. (1990) 'Displacing the 'native speaker': expertise, affiliation and inheritance', *English Language Teaching Journal*, 44(2), pp. 97-101.

## 7. ATODIADAU

### 7.1 Atodiad 1- CAIS AM GYMERADWYAETH FOESEGOL

#### ADRAN A: Amdanoch Chi (Prif Ymchwilydd)

1	Enw Llawn:	Melanie Corp				
2	Ticiwch bob blwch sy'n berthnasol:	Aelod o'r staff:	<input type="checkbox"/>	Cymrawd ymchwil anrhydeddus:	<input type="checkbox"/>	
3	Myfyriwr Israddedig	<input type="checkbox"/>	Myfyriwr Ôl-raddedig a Addysgir	<input checked="" type="checkbox"/>	Myfyriwr Ymchwil Ôl-raddedig	<input type="checkbox"/>
4	Athrofa/Disgyblaeth Academaidd/Canolfan:	Yr Athrofa				
5	Campws:	O bell/ Caerfyrddin				
6	Cyfeiriad e-bost:	0302148student@uwtsd.ac.uk				
7	Rhif Ffôn Cyswllt:	07929 186908				
<b><i>I fyfyrwyr:</i></b>						
8	Rhif y Myfyriwr:	0302148				
9	Rhaglen Astudio:	MA Dwyieithrwydd ac Amlieithrwydd				
10	Cyfarwyddwr Astudiaethau/ Goruchwyliwr:	Dr Hywel Glyn Lewis				

### ADRAN B: Cymeradwyaeth ar gyfer Gweithgarwch Ymchwil

1	A yw'r gweithgarwch ymchwil wedi'i gymeradwyo mewn egwyddor? (gweler y Nodiadau Cyfarwyddyd ynglŷn â'r broses gymeradwyo briodol ar gyfer lefelau ymchwil gwahanol gan gategoriâu gwahanol o unigolion)	YDY	<input type="checkbox"/>	NAC YDY	<input type="checkbox"/>
				<b>Dyddiad</b>	
2	Os Ydy, nodwch ffynhonnell y gymeradwyaeth (a'r dyddiad os yw'n wybyddus) <b>Mae'n rhaid cael cymeradwyaeth mewn egwyddor gan y ffynhonnell berthnasol cyn gwneud cais am gymeradwyaeth foesegol</b>	Pwyllgor Graddau Ymchwil	<input type="checkbox"/>		
3		Pwyllgor Ymchwil yr Athrofa	<input type="checkbox"/>		
4		Arall (noder)	<input type="checkbox"/>	Dr Christine Jones, Deon dros dro yr Athrofa Addysg a'r Dyniaethau (20-06-21)	

### ADRAN C: Deunyddiau Cyfarwyddyd Moesegol Mewnol ac Allanol

	Rhestrwch y dogfennau cyfarwyddyd moesegol craidd y cyfeiriwyd atynt wrth gwblhau'r ffurflen hon (gan gynnwys unrhyw godau moeseg ymchwil penodol i'r ddisgyblaeth, a hefyd unrhyw ganllawiau moesegol penodol yn ymwneud â'r fethodoleg arfaethedig). Ticiwch i gadarnhau fod eich cynnig ymchwil yn cydymffurfio â'r codau a'r canllawiau hyn.	
1	<b>Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil PCYDDS</b>	<input checked="" type="checkbox"/>
2	<b>Polisi Rheoli Data Ymchwil PCYDDS</b>	<input checked="" type="checkbox"/>
3	<b>BERA Ethical Guidelines for Educational Research (2018)</b>	<input checked="" type="checkbox"/>

### ADRAN D: Gweithgarwch Ymchwil Cydweithredol Allanol

1	A yw'r gweithgarwch ymchwil yn cynnwys cydweithwyr y tu allan i'r Brifysgol?	YDY	<input type="checkbox"/>	NAC YDY	<input checked="" type="checkbox"/>	
2	Os Ydy, rhowch enw'r sefydliad allanol ac enw a manylion cyswllt y prif berson cyswllt a chadarnhad bod y person hwn wedi cydsynio i'w ddata personol gael eu rhannu yn rhan o'r cydweithio hwn:					
3	Sefydliad					
4	Enw'r person cyswllt					
5	Cyfeiriad e-bost y person cyswllt					
6	Ydy'r unigolyn hwn wedi cydsynio i rannu ei fanylion ar y ffurflen hon?	YDY	<input type="checkbox"/>	NAC YDY	<input type="checkbox"/>	
7	Ydych chi'n derbyn ysgoloriaeth KESS?	YDW	<input type="checkbox"/>	NAC YDW	<input type="checkbox"/>	
8	Ydy eich ymchwil yn cael ei ariannu'n allanol?	YDY	<input type="checkbox"/>	NAC YDY	<input type="checkbox"/>	
9	Ydych chi wedi'ch cyflogi'n benodol i ymgymryd â'r ymchwil hwn naill ai am dâl neu'n wirfoddol?	Gwirfoddol	YDW	<input type="checkbox"/>	NAC YDW	<input type="checkbox"/>
10		Cyflogedig	YDW	<input type="checkbox"/>	NAC YDW	<input type="checkbox"/>

11	A yw'r ymchwil yn cael ei wneud o fewn un o Bartneriaethau Dysgu Proffesiynol yr Athrofa (PDPA) PCYDDS sy'n bod yn barod?	Os YDY yna nid oes angen ateb y cwestiwn caniatâd isod.	YDY	<input type="checkbox"/>	NAC YDY	<input type="checkbox"/>
12	Mae caniatâd i ymgymryd â'r ymchwil wedi'i roi gan y sefydliad partner	(Os YDY atodwch gopi) Os NA ni all y cais fynd yn ei flaen	YDY	<input type="checkbox"/>	NAC YDY	<input type="checkbox"/>

**Pan fo'r gweithgarwch ymchwil yn cael ei gynnal mewn cydweithrediad â sefydliad allanol**

13	A oes gan y sefydliad hwn ei system cymeradwyaeth foesebol ei hun?	OES	<input type="checkbox"/>	NAC OES	<input type="checkbox"/>
14	Os Oes, atodwch gopi o unrhyw gymeradwyaeth derfynol (neu gymeradwyaeth interim) gan y sefydliad				

**ADRAN E: Manylion y Gweithgarwch Ymchwil**

1	Teitl dangosol:	Ymchwil i unrhyw fodolaeth o'r ffenomenon 'native-speakerism' yng Nghymru.		
2	Dyddiad cychwyn arfaethedig eich ymchwil (nid dyddiad cychwyn eich cwrs):	Chwefror 2021	Dyddiad gorffen arfaethedig:	Mawrth, 2022
3	<p><b>Cyflwyniad i'r Ymchwil (uchafswm o 300 o eiriau)</b></p> <p><b>Gwnewch yn siŵr eich bod yn ysgrifennu ar gyfer <u>Cynulleidfa Anarbenigol</u> wrth amlinellu eich ymateb i'r tri phwynt isod:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Pwrpas y Gweithgarwch Ymchwil</i></li> <li>• <i>Cwestiwn Ymchwil Arfaethedig</i></li> <li>• <i>Nodau'r Gweithgarwch Ymchwil</i></li> <li>• <i>Amcanion y Gweithgarwch Ymchwil</i></li> </ul> <p>Dangoswch, yn gryno, sut mae <b>Ymchwil Cyfredol</b> wedi arwain y gweithgarwch arfaethedig ac esboniwch</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Beth fydd y gweithgarwch ymchwil yn ei ychwanegu at y corff gwybodaeth</i></li> <li>• <i>Sut mae'n mynd i'r afael â maes o bwys.</i></li> </ul>			
4	<p><b>Pwrpas y Gweithgarwch Ymchwil</b></p> <p>Yn y cynllun 'Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr' (Llywodraeth Cymru, 2017), datgenir yr uchelgais o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn eithaf syfrdanol dros gyfnod o ddegawdau yn unig. Cydnabyddir yn y ddogfen honno y bydd angen trosglwyddo'r iaith i deuloedd a phobl ifanc heb gefndir yn yr iaith er mwyn cynyddu'r ffigurau a chyrraedd y darged mewn pryd. Un elfen hanfodol o'r cynllun yma yw addysgu'r Gymraeg i ddisgyblion mewn sefyllfaoedd neu ysgolion cyfrwng Saesneg, gan fod canran disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg neu ddwyieithog yn 77% o gyfanswm disgyblion Cymru (Ystadegau Cymru, 2019).</p>			

	<p>Mewn manau eraill o'r byd lle gwelir awydd gref i ddysgu ail iaith, gyda'r Saesneg yn fwyaf amlwg, astudiwyd gan nifer o academyddion ffenomen a elwir yn 'native speakerism' (e.e.Hye-Kyung Kim, 2011). Sefyllfa yw hon lle rhoddir mwy o anrhydedd i athrawon sy'n medru'r iaith fel mamiaith na'r rheini sydd wedi ei dysgu fel ail iaith eu hunain (Llurda, 2005). Nodir gan ymchwilwyr fel Llurda y gellir gweld sawl effaith negyddol ar yr athrawon 'ail-iaith' yn sgil hyn gan gynnwys dibrisio eu cyfraniad proffesiynol; creu ansicrwydd ynglŷn â'u cysyniad o hunaniaeth, a lleihau eu llesiant bersonol. Ceir gan eraill, gan ddilyn arweiniad Medgyes (1992), ymgais i ddadlau dros y buddion a ddaw wrth un sydd wedi profi dysgu'r iaith ei hun wrth ei throsglwyddo i rywun arall yn yr un sefyllfa (e.e. Caravita, 2013).</p> <p>Pwrpas yr ymchwil yma, felly, bydd casglu profiadau athrawon Cymraeg ail-iaith, gan gynnwys rhai sydd wedi dysgu Cymraeg eu hunain, er mwyn gwybod a yw'r ffenomen yn bodoli yng Nghymru neu beidio.</p>
5	<p><b>Cwestiwn Ymchwil</b></p> <p>Ydy'r ffenomen 'native-speakerism' yn bodoli ymysg athrawon Cymraeg ail-iaith yng Nghymru?</p> <p>Os ydyw, ydy'r garfan hon yn gallu cynnig syniadau ar gyfer lleihau unrhyw effeithiau negyddol a brofir ganddynt o'i herwydd?</p> <p>Os nad yw'n bodoli, sut llwyddwyd i greu awyrgylch gadarnhaol yma yng Nghymru?</p>
6	<p><b>Nodau'r Gweithgarwch Ymchwil</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>2. I ymchwilio i mewn i sefyllfa athrawon Cymraeg 'ail iaith', gan gynnwys rhai sydd wedi dysgu fel 'ail-iaith' eu hunain i weld a ydyn nhw'n ymwybodol o'r ffenomen 'native-speakerism' yn bodoli yng Nghymru.</li> <li>3. I ymholi a yw'r buddion a all ddod o brofiad yr unigolion uchod o ddysgu'r iaith yn cael eu cydnabod o fewn y proffesiwn.</li> <li>4. I ymholi pa awgrymiadau sydd gan y cyfranwyr ar gyfer adeiladu ar y naws gefnogol sydd yn nôd gan y Senedd.</li> </ol>
7	<p><b>Amcanion y Gweithgarwch Ymchwil</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1.a I ymholi am brofiadau unigolion o fewn y gweithle drwy gyfrwng holiaduron</li> <li>b.I gasglu mwy o wybodaeth am brofiadau unigolion drwy gyfweiliadau rhannol-strwythuredig</li> <li>c.I gasglu barn arbenigwyr o fewn y maes i weld a ydyn nhw'n ymwybodol o'r ffenomen</li> <li>2.a. I greu darlun o sut mae unigolion wedi profi cefnogaeth neu feirniadaeth</li> <li>b.I gasglu barn yr unigolion ar ba fuddiannau sydd ganddynt i'w cynnig, ac os yw hyn yn cael ei gydnabod yn gyhoeddus</li> <li>3.a.Casglu syniadau yn yr holiaduron a'u trafod mewn cyfweiliadau.</li> </ol>

8	<p><b>Dulliau arfaethedig (uchafswm o 600 o eiriau)</b></p> <p>Rhowch grynodedd byr o'r holl ddulliau y <b>gellid</b> eu defnyddio yn y gweithgarwch ymchwil, gan ei gwneud yn glir pa dechnegau penodol fydd o bosibl yn cael eu defnyddio. Os ystyrir yn ddiweddarach bod dulliau heblaw am y rhai a restrwyd yn yr adran hon yn briodol, bydd angen cymeradwyaeth foesegol ychwanegol ar gyfer y dulliau hynny.</p>						
9	<p>Dull 1- Arolwg / Holiaduron anhysbys ar lein drwy ddefnyddio Microsoft 365. Bwriedir cynnwys cwestiynau byr er mwyn casglu nifer o ffeithiau ar gyfer dangos data meintiol ar ba fath o brofiadau a gafwyd gan yr ymatebwyr, a hynny er mwyn gosod cyd-destun ar gyfer y cyfweiliadau a fydd yn dilyn. Yn ogystal, bydd ychydig o gwestiynau agored ar gyfer ychwanegu enghreifftiau neu syniadau os dymunir. Bwriedir cynnwys opsiwn ar ddiwedd yr holiadur ar gyfer dewis bod yn rhan o'r cyfweiliadau.</p> <p>Dull 2- Cyfweiliadau rhannol strwythuredig gyda grŵp o'r ymatebwyr uchod ar gyfer casglu data ansoddol i eglurebu profiadau a syniadau unigolion.</p> <p>Dull 3- Cyfweiliadau rhannol-strwythuredig gyda rhanddeiliaid yn y gyfundrefn addysg er mwyn casglu profiadau a syniadau o ogwydd arall.</p>						
10	<p><b>Lleoliad y gweithgarwch ymchwil</b></p> <p>Nodwch yr holl lleoliadau lle cynhelir y gweithgarwch ymchwil.</p>						
11	<p>Oherwydd yr amgylchiadau presennol, bwriedir cynnal yr holiaduron trwy ddulliau ar lein.</p> <p>Ar gyfer y cyfweiliadau, bwriedir eu cynnal trwy Skype neu Teams er mwyn defnyddio plattform gyda diogelwch mynediad digidol a dileu'r angen am gwrdd wyneb yn wyneb. Cydnabyddir yr angen am ddefnyddio cefndir niwtral wrth gwrdd ar lein ar gyfer diogelwch.</p> <p>Os yw unigolyn eisiau cwrdd i drafod, oherwydd anawsterau gyda defnyddio technoleg, yna dewisir lleoliad niwtral lle gellir rheoli cyswllt corfforol. Bydd rhaid cyfeirio at reolau Cofid 19 ar y pryd ar gyfer dewis lle addas, neu ohirio'r cyfweiliad os nad yw'n gyfreithlon ar y pryd i gwrdd.</p>						
12	<p><b>Gweithgarwch ymchwil y tu allan i'r DU</b></p> <p>Os cynhelir gweithgarwch ymchwil dramor, chi sy'n gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir ag ystyriaethau moesegol lleol ac y ceisir y caniatâd perthnasol. Nodwch unrhyw ganllawiau lleol sy'n bodoli (e.e. gan gymdeithasau proffesiynol lleol/cymdeithasau dysgedig/prifysgolion) a nodwch a yw'r rhain yn cynnwys amodau moesegol y tu hwnt i'r hyn sy'n arferol yn y DU (rhowch fanylion unrhyw drwyddedau neu ganiatâd sydd eu hangen). Yn ogystal nodwch a oes unrhyw faterion moesegol penodol yn codi yn sgil y cyd-destun lleol lle cynhelir y gweithgarwch ymchwil, er enghraifft, materion diwylliannol a/neu gyfreithiol sensitif neu achosion lle mae'r cyfranogwyr yn agored i niwed.</p>						
13	-						
14	<table border="1"> <tr> <td data-bbox="244 1805 1145 1877">Defnyddio dogfennau nad ydynt wedi'u cyhoeddi: A oes unrhyw rai o'r dogfennau <b>NAD</b> ydynt ar gael yn gyhoeddus?</td> <td data-bbox="1145 1805 1310 1877"><b>NAC OES</b></td> <td data-bbox="1310 1805 1402 1877"><input type="checkbox"/></td> </tr> <tr> <td></td> <td data-bbox="1145 1877 1310 1912"><b>OES</b></td> <td data-bbox="1310 1877 1402 1912"><input type="checkbox"/></td> </tr> </table>	Defnyddio dogfennau nad ydynt wedi'u cyhoeddi: A oes unrhyw rai o'r dogfennau <b>NAD</b> ydynt ar gael yn gyhoeddus?	<b>NAC OES</b>	<input type="checkbox"/>		<b>OES</b>	<input type="checkbox"/>
Defnyddio dogfennau nad ydynt wedi'u cyhoeddi: A oes unrhyw rai o'r dogfennau <b>NAD</b> ydynt ar gael yn gyhoeddus?	<b>NAC OES</b>	<input type="checkbox"/>					
	<b>OES</b>	<input type="checkbox"/>					
15	<p>Os Oes, rhowch fanylion yma o'r modd y byddwch yn cael mynediad at ddogfennaeth benodol nad yw wedi'i chyhoeddi a bod hyn yn unol â chyfraith diogelu data gyfredol y wlad dan sylw a Chymru a Lloegr.</p>						



	-
--	---

### ADRAN F: Cwmpas y Gweithgarwch Ymchwil

1	Fydd y gweithgarwch ymchwil yn cynnwys:	BYDD	NA FYDD
2	Defnyddio holiadur neu offeryn ymchwil tebyg?	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3	Defnyddio cyfweiliadau?	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
4	Defnyddio dyddiaduron?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
5	Arsylwi ar gyfranogwyr a hwythau'n ymwybodol o hynny?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
6	Arsylwi ar gyfranogwyr a hwythau ddim yn ymwybodol o hynny?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
7	Defnyddio recordio fideo neu sain?	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
8	Mynediad i wybodaeth bersonol neu gyfrinachol heb gydsyniad penodol y cyfranogwyr?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
9	Defnyddio unrhyw gwestiynau, ysgogiadau prawf neu gyflwyniad a allai, ym mhrofiad rhai, achosi niwed / tramgwydd corfforol, meddyliol neu emosiynol?	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
10	Cyflawni unrhyw weithredoedd a allai achosi embaras neu effeithio ar hunan-barch?	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
11	Ymchwilio i gyfranogwyr sy'n ymwneud â gweithgareddau anghyfreithlon?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
12	Defnyddio gweithdrefnau sy'n cynnwys twyll?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
13	Rhoi unrhyw sylwedd, cyfrwng neu blasebo?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
14	Gweithio gydag anifeiliaid fertebraidd byw?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
15	Dulliau eraill o gasglu data gwreiddiol. Eglurwch yn y blwch hwn Er enghraifft, 'grwpiau ffocws'. Nodwch y math o ddull(iau) casglu data yn y blwch hwn a thiciwch y blwch cysylltiedig.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
16	Manylion unrhyw ddulliau eraill o gasglu data gwreiddiol: -		

Os atebwyd NA FYDD i bob cwestiwn, yna mae'r gweithgarwch ymchwil yn isel ei risg (yn foesebol) a **gall** fod wedi'i eithrio rhag **rhai** o'r adrannau canlynol (gweler y Nodiadau Cyfarwyddyd).

Os atebwyd BYDD i unrhyw gwestiwn, ni ddylid ymgymryd â gweithgarwch ymchwil tan y ceir cymeradwyaeth foesebol lawn.

### ADRAN G: Cyfranogwyr Arfaethedig

1	Pwy yw'r cyfranogwyr arfaethedig:	IE	NA
2	Myfyrwyr neu staff yn y Brifysgol?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
3	Oedolion (dros 18 oed ac sy'n gymwys i gydsynio)?	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

4	Oedolion agored i niwed?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
5	Plant a Phobl Ifanc dan 18 oed? (Bydd angen cydsyniad Rhiant, Gofalwr neu Warcheidwad)	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
6	Carcharorion?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
7	Troseddwy'r ifanc?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
8	Y rhai y gellid ystyried bod ganddynt berthynas arbennig o ddibynol â'r ymchwilydd neu gyfryngwr ( <i>gatekeeper</i> )?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
9	Pobl sy'n ymwneud â gweithgareddau anghyfreithlon?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
10	Eraill (nodwch yn benodol unrhyw grŵp nad ydynt efallai'n gallu rhoi cydsyniad). Nodwch nhw yma a thicio'r blwch priodol	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
11	Arall – nodwch yma:		

12	<b>Niferoedd a ffynhonnell y cyfranogwyr</b> Rhowch amcangyfrif o'r nifer disgwylidig o gyfranogwyr. Sut byddwch chi'n canfod cyfranogwyr a sut cânt eu recriwtio?		
13	Faint o gyfranogwyr a ddisgwylir?	Holiaduron: 120, sef tua 20% o athrawon pwnc arbenigol Cymraeg fel ail-iaith yn 2019 (statswales.gov.wales). Cyfweliadau: o leiaf 12, sef o leiaf 10% o'r sampl uchod yn ôl ymateb; rhanddeiliaid- 3-4, yn ôl ymateb eto.	
14	Pwy fydd y cyfranogwyr?	Athrawon Cymraeg fel ail iaith, arbenigwyr proffesiynol addysgol. Bydd angen i'r sampl fod yn hunan-ddewisiedig oherwydd gall strwythuro'r sampl alluogi adnabod unigolion.	
15	Sut byddwch chi'n canfod y cyfranogwyr?	Rhwydweithiau ar lein ar gyfer athrawon. Trwy e-bost yn ôl swyddi arbenigol ar gyfer rhanddeiliaid eraill.	

16	<b>Gwybodaeth i gyfranogwyr:</b>	<b>BYDDAF</b>	<b>NA FYDDAF</b>	<b>AMH.</b>
17	A fyddwch chi'n disgrifio'r prif weithdrefnau ymchwil i gyfranogwyr ymlaen llaw, fel eu bod yn cael gwybod beth i'w ddisgwyl?	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
18	A fyddwch chi'n dweud wrth y cyfranogwyr fod eu cyfranogiad yn wirfoddol?	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
19	A fyddwch chi'n cael cydsyniad ysgrifenedig gan y rhai sy'n cymryd rhan?	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
20	A fyddwch chi'n egluro wrth y cyfranogwyr na fydd gwrthod cymryd rhan yn yr ymchwil yn effeithio ar eu triniaeth neu'u haddysg (os yn berthnasol)?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
21	Os yw'r ymchwil yn arsylwadol, a fyddwch chi'n gofyn i'r cyfranogwyr am eu cydsyniad i gael eu harsylwi?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
22	A fyddwch chi'n dweud wrth y cyfranogwyr eu bod yn gallu tynnu'n ôl o'r ymchwil ar unrhyw adeg ac am unrhyw reswm?	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
23	Gyda holiaduron, a fyddwch chi'n rhoi'r dewis i gyfranogwyr i hepgor cwestiynau nad ydynt am eu hateb?	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
24	A fyddwch chi'n dweud wrth y cyfranogwyr yr ymdrinnir â'u data yn gwbl gyfrinachol ac, os cânt eu cyhoeddi, na ellir eu hadnabod fel eu data hwy?	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
25	A fyddwch yn cynnal ôl-drafodaeth gyda'r cyfranogwyr wedi iddynt gymryd rhan, mewn modd sy'n briodol i'r math o ymchwil a gynhaliwyd?	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

26	Os atebwyd NA FYDDAF i unrhyw rai o'r cwestiynau uchod, rhowch eglurhad
27	-

28	Gwybodaeth i gyfranogwyr:	BYDD	NA FYDD	AMH.
29	A fydd pob cyfranogwr yn cael ei dalu?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
30	A fydd offer trydanol arbenigol neu offer arall yn cael ei ddefnyddio gyda'r cyfranogwyr?	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
31	A fydd unrhyw fuddiannau ariannol neu fuddiannau eraill i'r ymchwilydd neu'r Brifysgol yn deillio o'r astudiaeth hon?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
32	A fydd y gweithgarwch ymchwil yn cynnwys camarwain cyfranogwyr yn fwriadol mewn unrhyw fodd, neu guddio nodau penodol yr astudiaeth yn rhannol neu'n llawn?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
33	Os atebwyd BYDD i unrhyw gwestiwn, rhowch fanylion llawn			
34	Bydd angen recordio'r cyfweiliadau ar recordydd sain.			

### ADRAN H: Risgiau a Ragwelir

1	<p>Amlinellwch unrhyw risgiau a ragwelir a allai gael effaith niweidiol ar unrhyw rai o'r cyfranogwyr, yr ymchwilwyr a/neu'r Brifysgol, a'r camau a gymerir i fynd i'r afael â nhw.</p> <p>Os ydych wedi cwblhau asesiad risg llawn (er enghraifft fel sy'n ofynnol gan labordy, neu gydweithiwr ymchwil allanol) gallwch atodi'r asesiad hwnnw i'r ffurflen hon.</p>		
2	A oes asesiad risg llawn wedi'i gwblhau a'i atodi?	Oes	<input type="checkbox"/>
		Nac oes	<input checked="" type="checkbox"/>
3	<p>Risgiau i'r cyfranogwyr Er enghraifft: gofid emosiynol, datgeliad ariannol, niwed corfforol, trosglwyddo data personol, gwybodaeth sefydliadol sensitif</p>		
4	<p>Risg i'r Cyfranogwr: Gall sylwadau gan rai o'r cyfranogwyr gael eu cymryd fel beirniadaeth gan gyflogwyr. Gall sylwadau potensial negyddol achosi anghydfod ymysg cydweithwyr.</p> <p>Gall cofio digwyddiadau anesmwyth achosi teimladau negyddol i'r cyfranogwyr.</p> <p>Colli/ rhannu data personol.</p>	<p><i>Sut byddwch chi'n lleihau'r Risg i'r Cyfranogwr</i> Bydd y sylwadau yn cael eu cynnwys heb adnabod unigolion. Bydd atebion sy'n galluogi adnabod unigolion yn cael eu hepgor. Eglurir yr uchod ar yr holiaduron ac ar ddechrau cyfweiliadau.</p> <p>Ceir manylion cyswllt gwefanau cefnogaeth yn yr holiadur a'u rhoi i'r cyfranogwyr cyflweliad.</p> <p>Dilynir polisi rheoli data PCYDDS</p>	
5	<p>Os yw'r gweithgarwch ymchwil yn cynnwys pynciau sensitif neu bynciau sy'n peri gofid neu gywilydd (e.e. gweithgarwch rhywiol, defnydd o gyffuriau) neu faterion sy'n debygol o ddatgelu gwybodaeth sy'n galw am weithredu pellach (e.e. gweithgarwch troseddol), rhowch fanylion y gweithdrefnau i ddelio â'r materion hyn, gan gynnwys unrhyw gefnogaeth/gyngor (e.e. rhifau llinellau cymorth) a gynigir i'r cyfranogwyr. Sylwer, lle bo hynny'n berthnasol, y dylai gweithdrefnau cydsynio ei gwneud yn glir os darganfyddir rhywbeth sydd, neu a allai fod, yn anghyfreithlon yn</p>		

	ystod prosiect, ei bod yn bosibl y bydd angen ei ddatgelu i'r awdurdodau priodol		
	Caiff y manylion cyswllt yma eu rhannu gyda'r ymatebwyr:  <a href="https://www.educationsupport.org.uk/helping-your-staff/wellbeing-wales">https://www.educationsupport.org.uk/helping-your-staff/wellbeing-wales</a> Darperir gwasanaeth cyngor brys dros y ffôn a chynigir atebion i ymholiadau ar y wefan.  <a href="https://www.timetochangewales.org.uk/cy/angen-cymorth/">https://www.timetochangewales.org.uk/cy/angen-cymorth/</a> Rhestrir rhifau ffôn a gwefanau ar gyfer cefnogaeth iechyd meddwl yng Nghymru.		
6	<b>Risgiau i'r ymchwilydd</b> Er enghraifft: diogelwch personol, niwed corfforol, gofid emosiynol, risg o gyhuddiad o niwed/ anwedduster, gwrthdaro buddiannau		
	Risg i'r ymchwilydd: Niwed corfforol oherwydd cymysgu ag eraill yn ystod cyfnod Covid. Diogelwch personol Risg o gyhuddiadau ar sail cynnwys ymatebion.  Casglu data annigonol	<i>Sut byddwch chi'n lleihau'r Risg i'r Ymchwilydd:</i> Defnyddio dulliau digidol er mwyn dileu'r angen i wrdd wyneb yn wyneb. Os oes angen cwrrd wyneb yn wyneb, trefnir amser a lle priodol a chyhoeddus. Defnyddir peilot o'r holiadur ac o'r cyfweiliad er mwyn asesu ymateb potensial. Egluro'r broses cyn cyfweld â chyfranwyr. Cedwir yr ymatebion tan ddiwedd y cyfnod ymchwil rhag ofn bod ymatebydd yn holi am ei gyfraniad gwreiddiol. Galluogi cyfranwyr i weld/ golygu eu hatebion os ydynt yn poeni am rywbeth a ddywedwyd. Gosodwyd nifer sampl fel isafswm a ddylai fod yn gyraeddadwy.	
7	<b>Risgiau i'r Brifysgol/sefydliad</b> Er enghraifft: cyhoeddusrwydd gwael, colled ariannol, diogelu data		
	Risg i'r Brifysgol: Diogelu data. Cyhoeddusrwydd gwael	<i>Sut byddwch chi'n lleihau'r Risg i'r Brifysgol:</i> Dilynir polisi rheolath data PCYDDS. Bydd unrhyw weithgaredd ymchwil yn dilyn trafodaeth gyda'r tiwtor ac yn derbyn cymeradwyaeth cyn gweithredu. Wrth ysgrifennu'r adroddiad, rhoddir ystyriaeth i sicrhau egluro'r canlyniadau mewn ffordd deg a chytbwys.	

8	<b>Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)</b>			
9	Os yw gweithgarwch ymchwil yn cynnwys plant neu oedolion agored i niwed, mae'n rhaid cael tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn dod i unrhyw gysylltiad â'r cyfranogwyr hyn.	OES	NAC OES	AMH.
10	A yw'n ofynnol bod gennych Dystysgrif DBS gyfredol ar gyfer eich ymchwil?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

## ADRAN I: Adborth, Cydsyniad a Chyfrinachedd

1	<b>Adborth</b> Pa ôl-drafodaeth ac adborth a ddarperir i'r cyfranogwyr, sut y gwneir hyn a phryd?
	Wrth gymryd rhan yn yr holiadur, gall cyfranogwyr ofyn am gopi o adroddiad trosolwg ar ddiwedd y cyfnod ymchwil. Darperir hyn yn ddigidol, felly bydd rhaid iddynt rannu cyfeiriad e-bost os dymunant

	<p>dderbyn copi; bydd hyn yn opsiynol.</p> <p>Ar gyfer ymatebwyr yn y cyfweiliadau, bwriedir cynnig yr un peth iddynt. Yn ychwanegol, bydd cyfle ganddynt i wirio beth recordiwyd, a darllen darnau o'u cyfraniad a gaiff eu cynnwys yn y gwaith gorffenedig os dymunant.</p> <p>Gan fod posibilrwydd codi materion personol yn y cyfweiliadau, bydd angen bod yn barod gyda manylion cyswllt eto ar gyfer llinellau cymorth a bydd angen sicrhau bod yr ymatebwyr yn fodlon ar ddiwedd y broses.</p>
2	<p><b>Cydsyniad gwybodus</b></p> <p>Disgrifiwch y trefniadau i hysbysu darpar gyfranogwyr, cyn iddynt roi cydsyniad, o'r hyn mae'n ei olygu i gymryd rhan. Disgrifiwch y trefniadau i gyfranogwyr roi cydsyniad llawn cyn i'r gwaith o gasglu data ddechrau. Os yw'n amhriodol cael cydsyniad yn y modd hwn, eglurwch sut y ceir cydsyniad a sut y cofnodir hynny yn unol â deddfwriaeth diogelu data gyfredol.</p>
	<p>Ceir eglurhad a chwestiwn cydsyniad ar ddechrau'r holiadur ar lein. Rhoddir cyfle iddynt orffen yr holiadur ar unrhyw adeg a pheidio â chyflwyno'r holiadur. Ar ddiwedd yr holiadur, ceir cwestiwn yn gofyn os ydynt yn hapus i gyflwyno'r atebion.</p> <p>Ynghylch y cyfweiliadau, anfonir manylion cyn diwrnod y cyfweiliad er mwyn iddynt gydsynio cyn y cyfarfod. Ar ddechrau a diwedd y cyfweiliad, byddant yn cael eu hatgoffa o'u dewisiadau. Caiff pob un o'r uchod ei gymeradwyo gan yr oruwchwyliwr ymchwil cyn ei rannu.</p>
3	<p><b>Cyfrinachedd / Anhysbysrwydd</b></p> <p><i>Nodwch sut y sicheir cyfrinachedd ac anhysbysrwydd y cyfranogwyr mewn unrhyw gynnyrch. Os na chynigir anhysbysrwydd, eglurwch pam.</i></p>
	<p>Cynigir anhysbysrwydd i ymatebwyr yr holiadur, oni bai eu bod yn dewis cymryd rhan yn y cyfweiliadau neu'n gofyn am gopi o'r crynodeb. Yn achos yr ail un, dim ond yr enw a chyfeiriad e-bost fydd yn cael eu nodi. Defnyddir fformat BCC ar e-byst wrth gysylltu ag unrhyw ymatebwyr. Bydd cyfrinachedd ar gyfer ymatebwyr y cyfweiliadau personol ac ni ddefnyddir atebion neu fanylion a fydd yn galluogi adnabod unigolion. Rhagwelir y bydd hyn yn golygu osgoi defnyddio rhai darnau oherwydd maint y gymuned dan astudiaeth.</p> <p>Ar gyfer y cyfweiliadau gydag arbenigwyr, bydd angen rhoi'r dewis iddynt o siarad yn gyfrinachol, a fydd yn cyfyngu'r cyfraniad, neu siarad yn rhinwedd eu swydd pan fyddant yn cynrychioli safbwynt cyhoeddus.</p>

## ADRAN J: Diogelu a Storio Data

Wrth gwblhau'r adran hon cyfeiriwch at Bolisi Rheoli Data Ymchwil y Brifysgol a'r adnoddau helaeth ar dudalennau gwe Rheoli Data Ymchwil y Brifysgol (<http://uwtsd.ac.uk/library/research-data-management/>).

1	A yw'r gweithgarwch ymchwil yn cynnwys data personol (yn ôl diffiniad y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 a Deddf Diogelu Data 2018)?	YDY	NAC YDY
	<i>Mae "data personol" yn golygu unrhyw wybodaeth sy'n gysylltiedig â pherson naturiol adnabyddedig neu adnabyddadwy ('testun data'). Mae person naturiol adnabyddadwy yn un y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn arbennig wrth gyfeirio at ddynodydd megis enw, rhif adnabod, data lleoliad, dynodydd ar-lein neu at un neu fwy o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, enetig, feddyliol, economaidd, ddiwylliannol neu gymdeithasol y person naturiol hwnnw.</i>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
2	Os YDY, rhowch ddisgrifiad o'r data ac eglurwch pam mae angen casglu'r data hyn:		
	Wrth gasglu'r data bydd angen ychydig o fanylion, megis pryd a sut dysgodd yr ymatebwyr Gymraeg er mwyn amlygu patrymau/ tueddiadau o fewn y sampl. Bydd angen nodi am faint o		

	amser maent wedi bod yn addysgwyr er mwyn gallu gweld newidiadau dros amser. Ni fwriedir gofyn am leoliad na man geni oherwydd y risg y byddai hynny'n galluogi adnabod unigolion. Caiff ymatebwyr y cyfweiliadau rif adnabod/ffugenw er mwyn cysylltu enghreifftiau gydag unigolyn ar gyfer ysgrifennu'r adroddiad.		
3	A yw'n cynnwys data categori arbennig (yn ôl diffiniad y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data)?	YDY	NAC YDY
	<i>Mae "Data categori arbennig" yn golygu data personol sensitif sy'n cynnwys gwybodaeth am y testunau data -</i> <i>(a) tras hiliol neu ethnig,</i> <i>(b) safbwyntiau gwleidyddol,</i> <i>(c) credoau crefyddol neu gredoau eraill o natur debyg,</i> <i>(d) aelodaeth o undeb llafur (yn ôl ystyr Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992),</i> <i>(e) iechyd neu gyflwr corfforol neu feddyliol,</i> <i>(f) bywyd rhywiol,</i> <i>(g) geneteg,</i> <i>(h) data biometrig (a ddefnyddir i ddibenion adnabod),</i>	<input type="checkbox"/>	X
4	Os YDY, rhowch ddisgrifiad o'r data categori arbennig ac eglurwch pam mae angen casglu'r data hyn:		


5	A fydd y gweithgarwch ymchwil yn cynnwys storio data personol a/neu ddata categori arbennig ar un o'r canlynol:	BYDD	NA FYDD
6	Ffeiliau llaw (h.y. ar bapur)?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
7	Cyfrifiaduron y brifysgol?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
8	Cyfrifiaduron cwmnïau preifat?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
9	Cyfrifiaduron cartref neu bersonol eraill?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
10	Gliniaduron / CDs / disgyrwr cludadwy / cofbinnau?	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
11	Storio yn y "cwmwl" neu wefannau?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
12	Arall – noder:	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
13	Yn achos yr holl ddata a storir, eglurwch y mesurau sydd yn eu lle i sicrhau diogelwch y data a gasglwyd, cyfrinachedd y data, yn cynnwys manylion diogelu'r data gan gyfrinair, eu hamgryptio, eu gwneud yn ddiennw a'u rhoi dan ffugenw:		
	Caiff y data eu storio ar ddisgyrwr cludadwy gyda chyfrinair. Ni fydd angen manylion cyswllt ar gyfer yr holiadur onibai fod ymatebwyr eisiau crynodeb o'r canlyniadau. Caiff y cyfeiriadau e-bost hynny eu gwahanu oddi wrth yr holiaduron a'u cadw fel rhestr ar y ddisgyrwr a'u dinistrio ar ôl anfon y wybodaeth atynt. Ar ôl lawrlwytho ymatebion o'r wê, caiff y copi ar lein ei ddileu. Caiff ymatebwyr y cyfweiliadau rif adnabod ar gyfer pob cyfweiliad. O hynny ymlaen, defnyddir rhif/ffugenw ar gyfer gweddill y broses. Dilëir unrhyw fanylion cyswllt ynghlwm wrth gyfweiliad ar ôl y cyfweiliad hwnnw, unwaith mae'r ymatebydd yn fodlon gyda'r hyn a recordiwyd. Unwaith i unrhyw ffeiliau sain gael eu lanlwytho i'r ddisgyrwr cludadwy, caiff y trac ei ddileu o'r peiriant recordio. Cedwir rhestr o gyfeiriadau e-bost ar gyfer anfon copi o'r crynodeb, heb gysylltu'r manylion gydag ymateb unigol, nes gorffen yr ymchwil a dosbarthu crynodeb i'r rhai sydd eisiau ei weld.		
14	<b>Storio Pob Data</b>		

		<b>BYDD</b>	<b>NA FYDD</b>
15	A fydd y gweithgarwch ymchwil yn cynnwys unrhyw rai o'r gweithgareddau canlynol:		
16	Trosglwyddo data electronig mewn unrhyw ffurf?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
17	Rhannu data ag eraill yn y Brifysgol?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
18	Rhannu data â sefydliadau eraill?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
19	Allforio data y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd neu fewnforio data o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
20	Defnyddio cyfeiriadau, codau post, ffacsys, e-byst neu rifau ffôn personol?	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
21	Cyhoeddi data a allai ganiatáu adnabod unigolion?	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
22	Defnyddio system rheoli data?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
23	Archifo data?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
24	Os atebwyd BYDD i unrhyw gwestiwn, rhowch fanylion llawn, gan egluro sut y caiff hyn ei wneud yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'r Ddeddf Diogelu Data (a/neu unrhyw drefn ryngwladol gyfatebol):		
	Bydd angen defnyddio cyfeiriadau e-bost ar gyfer cysylltu ag ymatebwyr o'r holiadur ar gyfer y cyfweiliadau. Ceir nodyn yn yr holiadur yn gofyn am ganiatâd i ddefnyddio'r e-bost. <i>Mae'n bosibl</i> y bydd ymatebwyr sy'n rhanddeiliaid yn y system addysg eisiau cyfrannu <i>yn rhinwedd eu swyddi</i> , felly, bydd angen nodi pwy ydynt, a'u swyddi, yn yr adroddiad. Byddant yn cydsynio â rhannu'r manylion hynny yn ysgrifenedig cyn y cyfweiliad. Dilëir unrhyw gopïau ychwanegol o'r data o ffynonellau fel y wê neu'r recordydd sain.		
25	Rhestrwch bawb fydd â hawl i weld y data a gynhyrchir trwy'r gweithgarwch ymchwil:		
	Bydd y data ar gael i'r ymchwilydd a goruchwyliwr yr ymchwil yn unig yn ystod cyfnod yr ymchwil, ac i'r Arholydd Allanol ar gyfer asesu.		
26	Rhestrwch bawb fydd â rheolaeth o'r data a gynhyrchir trwy'r gweithgarwch ymchwil ac a fydd yn gweithredu fel ceidwad y data:		
	Fel uchod.		
27	Rhowch fanylion y trefniadau storio data, yn cynnwys y mesurau diogelwch sydd yn eu lle i ddiogelu'r data, ble caiff y data eu storio, am ba hyd, ac ym mha ffurf. A fydd y data'n cael eu harchifo – os felly, sut ac os na, pam.		
	Yn ystod cyfnod yr ymchwil, caiff y data eu storio ar ddisgyrwr cludadwy gyda chyfrinair gan yr ymchwilydd. Dilëir copïau ychwanegol o'r wê neu ar recordydd sain unwaith iddynt gael eu lanlwytho i'r ddisgyrwr er mwyn lleihau'r risg o golli copi o'r data.		
28	Nodwch a fydd eich data'n cael ei storio yng Nghadwrfa Data Ymchwil PCYDDS (gweler <a href="https://researchdata.uwtsd.ac.uk/">https://researchdata.uwtsd.ac.uk/</a> ). Os felly, eglurwch. ( <i>Yn fwyaf perthnasol i staff academiaidd</i> )		
29	Cadarnhewch eich bod wedi darllen cyfarwyddyd PCYDDS ar reoli data (gweler <a href="https://www.uwtsd.ac.uk/library/research-data-management/">https://www.uwtsd.ac.uk/library/research-data-management/</a> )	<b>YDW</b>	<input checked="" type="checkbox"/>
		<b>NAC YDW</b>	<input type="checkbox"/>
30	Cadarnhewch eich bod yn ymwybodol bod angen i chi gadw'r holl ddata tan ar ôl i'ch ymchwil ddod i ben neu ddiwedd eich cyllid	<b>YDW</b>	<input checked="" type="checkbox"/>
		<b>NAC YDW</b>	<input type="checkbox"/>

**ADRAN K: Datganiad**

31	<p>Mae'r wybodaeth rwyf wedi'i chyflwyno yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth. Rwyf wedi ceisio nodi unrhyw risgiau a phroblemau sy'n gysylltiedig â'r gweithgarwch ymchwil ac rwyf yn cydnabod f'ymrwmiadau innau a hawliau'r cyfranogwyr.</p> <p>Wrth gyflwyno'r cais hwn cadarnhaf drwy hyn fy mod yn ymrwmo i sicrhau y bydd y gweithgarwch ymchwil a enwir uchod yn bodloni Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil y Brifysgol sydd wedi'i gyhoeddi ar y wefan.: <a href="https://www.uwtsd.ac.uk/research/research-ethics/">https://www.uwtsd.ac.uk/research/research-ethics/</a></p>				
	<table border="1"> <tr> <td><b>Llofnod yr Ymgeisydd:</b></td> <td><i>M. J. Corp</i></td> <td><b>Dyddiad:</b></td> <td>19/ 6/ 21</td> </tr> </table>	<b>Llofnod yr Ymgeisydd:</b>	<i>M. J. Corp</i>	<b>Dyddiad:</b>	19/ 6/ 21
<b>Llofnod yr Ymgeisydd:</b>	<i>M. J. Corp</i>	<b>Dyddiad:</b>	19/ 6/ 21		

**Ar gyfer Cyflwyniadau MYFYRWYR:**

32	Cyfarwyddwr Astudiaethau/ Goruchwyliwr:	Dr Hywel Glyn Lewis	<b>Dyddiad:</b> 25-06-21
33	Llofnod:		

**Ar gyfer Cyflwyniadau STAFF:**

34	Cyfarwyddwr Academaidd/ Deon Cynorthwyol:		<b>Dyddiad:</b>
35	Llofnod:		

**Rhestr Wirio:** Cwblhewch y rhestr wirio isod i sicrhau eich bod wedi cwblhau'r ffurflen yn unol â'r canllawiau ac wedi atodi unrhyw ddogfennaeth sy'n ofynnol:

<input checked="" type="checkbox"/>	Rwyf wedi darllen y nodiadau cyfarwyddyd a ddarperir cyn cwblhau'r ffurflen.
<input checked="" type="checkbox"/>	Rwyf wedi cwblhau <b>HOLL ADRANNAU PERTHNASOL</b> y ffurflen yn llawn.
<input checked="" type="checkbox"/>	Cadarnhaf fod y gweithgarwch ymchwil wedi'i gymeradwyo mewn egwyddor.
<input type="checkbox"/>	Rwyf wedi atodi copi o'r gymeradwyaeth derfynol/interim gan sefydliad allanol ( <b>Ile bo'n briodol</b> ).
<input type="checkbox"/>	Rwyf wedi atodi asesiad risg llawn (a HEB gwblhau Adran H y ffurflen hon) ( <b>Ile bo'n briodol</b> ) <b>TICIWCH HWN DIM OND OS YDYCH WEDI ATODI ASESIAID RISG LLAWN</b>



☒	Rwy'n deall mai fy nghyfrifoldeb i yw sicrhau y bydd y gweithgarwch ymchwil a enwir uchod yn bodloni Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil y Brifysgol.
☒	Cyn cychwyn casglu data rwy'n deall ei bod yn rhaid i'r holl ddogfennau sydd wedi'u hanelu at ymatebwyr (yn cynnwys taflenni gwybodaeth, ffurflenni cydsynio, holiaduron, rhaglenni cyfweiliadau ac ati) gael eu cadarnhau gan y Cyfarwyddwr Astudiaethau/Goruchwyliwr, y tiwtor modwl neu'r Cyfarwyddwr Academaidd.
☒	Rwyf wedi dileu'r nodiadau cyfarwyddyd cyn cyflwyno'r ffurflen PG2 i'w hystyried.

## 7.2 Atodiad A - Holiadur (lluniau o'r sgriniau yn Forms)

# Holiadur Native Speakerism

Mae'r holiadur hwn yn rhan o brosiect academiaidd i mewn i addysgu'r Gymraeg fel ail-iaith yng Nghymru. Mae'n rhan o astudiaethau MA trwy Brifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant. Mae'r ymchwil wedi'i chymeradwyo gan fwrdd moeseg y Brifysgol.

Bwriad yr ymchwil yw holi ynghylch bodolaeth ffenomen a elwir yn 'native-speakerism' (a ddiffinir isod) er mwyn gweld os oes tystiolaeth ohono yng Nghymru neu beidio.

Mae ateb yr holiadur yn hollol wirfoddol a bydd manylion yr ymatebwyr yn anhysbys i'r ymchwilydd oni bai eich bod yn dewis rhoi eich manylion cyswllt ar ddiwedd yr holiadur. *Ni fydd hunaniaeth unrhyw ymatebwyr yn ffurfio rhan o'r gwaith terfynol. Ar ddiwedd y cyfnod ymwchil bydd yr holl ddata a gesglir yn cael eu dileu.*

Dylai'r holiadur gymryd llai na 5 munud i'w gwblhau.

Os ydych yn hapus i barhau, atebwch y cwestiwn isod. Trwy ymateb, byddwch yn cydsynio i fod yn rhan o'r sampl. Os ydych yn newid eich meddwl, stopiwch ar unrhyw bwynt a chaewch y ffurflen. Ni chaiff eich atebion eu cynnwys.

Diolch ymlaen llaw am eich cyfraniad.

\* Required

1. Ydych chi'n gweithio yn addysgu'r Gymraeg fel ail iaith yng Nghymru?  
(Neu wedi bod yn ddiweddar?) \*

Ydw

Nag Ydw

2. Mae'r cwestiynau nesaf yn gofyn am rai manylion yr ymatebwyr er mwyn gallu grwpio'r data a gesglir. Ni wneir unrhyw ddefnydd arall o'r data yma.

Ym mha sector ydych chi'n addysgu?

\*

- Meithrin
- Cynradd
- Uwchradd
- Coleg Addysg Bellach
- Addysg Uwch
- Addysg i Oedolion
- Arall
- Gwell gen i beidio â dweud

3. Ym mha ran o Gymru ydych chi'n gweithio? \*

- De-Ddwyrain
- De-Orllewin
- Canolbarth
- Gogledd-Orllewin
- Gogledd-Ddwyrain
- Ar lein
- Tu allan i Gymru
- Gwell gen i beidio â dweud

---

4. Beth yw eich profiad personol o ddysgu Cymraeg?/ cefndir? \*

- Wedi dysgu ar yr aelwyd
- Un rhiant yn siarad Cymraeg ac wedi mynychu addysg gyfrwng Cymraeg
- Un rhiant yn siarad Cymraeg ac wedi mynychu addysg gyfrwng Saesneg
- Wedi dysgu mewn ysgol Gymraeg ac o deulu yn siarad Saesneg
- Wedi dysgu mewn ysgol Gymraeg o deulu yn siarad iaith arall
- Wedi dysgu fel ail-iaith yn yr ysgol
- Wedi dysgu fel ail-iaith fel oedolyn
- Gwell gen i beidio a dweud

- 
5. Mewn rhannau eraill o'r byd cydnabyddir bod y ffenomen 'native-speakerism' yn bodoli.

Natur y ffenomen yw bod athrawon sy'n addysgu iaith benodol **fel ail iaith** (e.e. Saesneg yn Tseina) sydd yn siaradwyr mamiaith o'r iaith honno yn cael eu hystried yn well athrawon, neu o fwy o werth, nag athrawon sydd wedi dysgu'r iaith honno fel ail iaith eu hunain.

E.e. yn enghraifft Tseina uchod, byddai athro o Brydain yn teithio yno i weithio fel athro Saesneg yn cael ei ystyried fel aelod staff mwy gwerthfawr nag athro o Tseina sydd wedi dysgu Saesneg yn yr ysgol fel ail-iaith.

Ydych chi o'r farn bod y ffenomen yma yn bodoli yng Nghymru o fewn addysgu Cymraeg fel ail-iaith?

- Ydw
- Nac Ydw
- Ddim yn siwr

6. Os ydych chi'n meddwl bod y ffenomen hyn yn bodoli yng Nghymru, oes enghreifftiau gyda chi o'r fath o brofiadau a gafwyd neu bryderon a brofwyd gan athrawon o'u herwydd?

7. Os nad ydych chi'n meddwl bod y ffenomen yn bodoli, oes syniadau gyda chi ar sut llwyddwyd i'w osgoi yng Nghymru? Oes enghreifftiau gyda chi, o'ch profiad o weithio, o ymddygiad sy'n gwrthbrofi'r ffenomen?

---

8. Os nad ydych yn siwr, ydych chi wedi gweld ymddygiad sy'n dangos rhagfarn ar sail profiad o ddysgu'r iaith? Neu ydych chi wedi gweld ymddygiad sy'n derbyn dysgwyr heb ragfarn? Cofier bod hwn yn ystyried cyd-destun addysgu Cymraeg fel ail iaith.

9. Oes syniadau gyda chi ar sut i leihau achosion o'r fath ym myd addysg Cymru?

10. Ydych chi'n gallu cynnig rhesymau am sut lwyddwyd osgoi rhagfarn o'r fath yma yng Nghymru?

11. Fel rhan o'r ymchwil, bwriedir cynnal cyfweiliadau (trwy Teams) gyda sampl o unigolion i drafod y ffenomen/ profiadau/ syniadau yn ddyfnach. Hoffech chi fod yn rhan or cyfweiliadau?

- Hoffwn
- Na hoffwn

12. Bydd crynodeb o'r ymchwil ar gael ar ddiwedd y broses ymchwil-rywbryd yn y flwyddyn academaidd nesaf. Hoffech chi dderbyn copi?

- Hoffwn
- Na Hoffwn

13. Beth yw eich manylion cyswllt ar gyfer cyfathrebu ynghylch y cyfweiliadau? Mae croeso i chi ychwanegu e-bost, enw Weplyfr (Facebook), rhif ffôn neu beth bynnag sy'n gyfleus.

14. Beth yw eich cyfeiriad e-bost ar gyfer derbyn copi o'r crynodeb?

*Neges a roddwyd ar ddiwedd yr holiadur:*

Diolch am eich amser. Fel nodwyd, ni chaiff unrhyw fanylion personol eu rhannu o'r holiadur yma.

Os yw ateb yr holiadur wedi achosi pryder i chi trwy ystyried digwyddiadau annymunol, cofiwch fod cymorth i athrawon ar gael ar y gwefannau canlynol:

<https://www.educationsupport.org.uk/helping-your-staff/wellbeing-wales>

<https://www.timetochangewales.org.uk/cy/angen-cymorth>

### 7.3 Atodiad B - Amlinelliad y Cyfweliadau

#### Amlinelliad ar gyfer Cyfweliad ag Athrawon

Diolch am gytuno siarad â fi. Os gaf i ddechrau trwy eich hatgoffa beth yw pwrpas fy astudiaeth a beth bydda i'n gwneud gyda'r wybodaeth:

Rwy'n astudio ar gyfer MA mewn Dwyieithrwydd ac Amlieithrwydd trwy PCDDS. Ar hyn o bryd rwy'n ymchwilio ar gyfer y traethawd hir, ac yn ymchwilio'r ffenomen 'native-speakerism'. Bydd y traethawd hir yn cael ei farcio gan academyddion yn y coleg a bydd copi yn cael ei gadw yno ar ôl hynny.

Mae sawl person ymatebodd i'r holiadur wedi gofyn am grynodedb o'r ymchwil felly aiff honno allan ar ddiwedd y broses.

Fel rhan o'r ymchwil, yn dilyn yr holiadur, rwy'n ceisio cael mwy o wybodaeth am brofiadau unigolion er mwyn gallu manylu ar fodolaeth neu beidio'r ffenomen yng Nghymru.

Wrth i ni sgwrsio, os oes unrhyw beth sy'n peri i chi deimlo'n anghyfforddus neu fyddai'n well gyda chi beidio ag ateb, mae hawl gyda chi wneud hynny. Yn ogystal, mae hawl gyda chi stopio'r cyfweliad ar unrhyw bwynt. Bydda i'n gwneud pob ymdrech i osgoi datgelu hunaniaeth unrhyw unigolyn, a fydd dim manylion personol yn cael eu rhannu.

Ydych chi dal yn fodlon cymryd rhan? (*Aros am ateb*)

Yn ogystal, os ydych chi'n fodlon, bydda i'n recordio'r sain yn unig, er mwyn gallu cadw cofnod cywir o'ch atebion. Ydych chi'n hapus gyda hynny? (*Aros am ateb*)

Felly, os ydych chi'n barod, gawn ni ddechrau.

Mae'r cwestiynau cychwynnol ar gyfer gosod cyd-destun yn unig. Fydda i ddim yn manylu ar unrhyw beth, oni bai ei fod yn gymorth i ddeall ateb i gwestiwn hwyrach ond os yw gwneud hynny yn mynd i ddatgelu hunaniaeth unigolyn, fydda i ddim yn ei gynnwys.

1. Ym mha ran o Gymru ydych chi'n gweithio? Gawsoch chi eich magu yno, neu rywle arall?
2. Beth oedd eich profiad personol o ddysgu Cymraeg (pryd/ sut/ ffurfiol/ anffurfiol)?
3. Pa fath o waith/addysgu ydych chi'n ei wneud?
4. Oes unrhyw agwedd o'ch hunaniaeth yn effeithio ar sut mae pobl yn eich gweld fel addysgwr, yn eich barn chi?

(*Cwestiynau er mwyn manylu ar y cefndir ac ymlacio*):

5. Ble ydych chi'n defnyddio'r Gymraeg?
6. Sut fydddech chi'n disgrifio eich gallu yn y Gymraeg?
7. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw broblemau gyda'ch iaith wrth ddysgu eraill?
8. Pwy neu beth ydych chi'n meddwl sy'n gwneud yr athrawon Cymraeg gorau?
9. Ydych chi'n meddwl bod plant/ athrawon neu rhieni yn gwahaniaethu rhwng pobl sydd wedi dysgu Cymraeg a'r rheiny sy'n dod o gefndiroedd Cymraeg eu hiaith?
10. Agor y sgwrs yma- holi ynglŷn â phrofiadau cadarnhaol/ negyddol.

Cwestiynau dilynol yn dibynnu ar yr atebion e.e.

- a. Ydy pethau wedi newid dros amser?
  - b. Ydych chi'n meddwl bod croeso i bawb?
  - c. Pa fath o gefnogaeth sydd wedi helpu chi?
  - d. Oes gwerth maen cael athrawon mamiaith ac ail-iaith mewn adran?
  - e. Ydych chi wedi bod yn dyst i feirniadaeth ymysg athrawon?
11. Sut ydych chi'n meddwl dylen ni symud ymlaen? Pa fath o newidiadau hoffech chi eu gweld?
12. Oes unrhyw gwestiwn hoffech chi ofyn?

Diolch am eich amser. Bydd eich atebion heddiw yn ddefnyddiol iawn ar gyfer fy ngwaith.

Cofiwch- os oes unrhyw beth wedi achosi pryder i chi wrth drafod y materion heddiw, mae cymorth ar gael ar gyfer athrawon. Y ffordd cyflymaf i gysylltu a'r mudiadau yw trwy'r gwefannau sydd yn y ddogfen caniatâd anfonais atoch chi gynt.

Unwaith eto, diolch am eich amser. Rydw i yma os oes unrhyw beth yn codi hoffech chi drafod ar ôl heddiw.

Hwyl fawr.

### **Amlinelliad ar gyfer cyfweiliad â chynathro iaith yn Tseina**

(cyflwyniad fel uchod)

Tell me a bit about your experiences of learning additional languages?

Were you aware of differences in your teachers' linguistic backgrounds? Did it matter to you?

When you were working abroad, were you aware of native speakerism as an issue?

Did you notice a difference between Wales and China?

Did you notice how it affected other teachers?

Did it affect you in any way?

Did you see strategies to move on or reduce it that worked?

Do you have suggestions that may work?

It seems that in Wales it may exist but only among individuals. Do you have any thoughts about this?

### **Amlinelliad ar gyfer cyfweld â rhanddeiliaid eraill**

Diolch am gytuno siarad â fi. Os gaf i ddechrau trwy eich hatgoffa beth yw pwrpas fy astudiaeth a beth bydda i'n gwneud gyda'r wybodaeth:

Rwy'n astudio ar gyfer MA mewn Dwyieithrwydd ac Amlieithrwydd trwy PCDDDS.

Ar hyn o bryd rwy'n ymchwilio ar gyfer y traethawd hir, ac yn ymchwilio'r ffenomen 'native-speakerism'. Bydd y traethawd hir yn cael ei farcio gan academyddion yn y coleg a bydd copi yn cael ei gadw yno ar ôl hynny.

Mae sawl person ymatebodd i'r holiadur wedi gofyn am grynodedb o'r ymchwil felly aiff honno allan ar ddiwedd y broses.

Fel rhan o'r ymchwil, yn dilyn yr holiadur a'r cyfweiliadau gydag athrawon, rwy'n ceisio cael barn ychydig o bobl sy'n gweithio gydag athrawon er mwyn clywed eich ymateb i beth a all fod yn digwydd.

Wrth i ni sgwrsio, os oes unrhyw beth sy'n peri i chi deimlo'n anghyfforddus neu fyddai'n well gyda chi beidio ag ateb, mae hawl gyda chi wneud hynny. Yn ogystal,



mae hawl gyda chi stopio'r cyfweiliad ar unrhyw bwynt. Bydda i'n gwneud pob ymdrech i sicrhau bod unrhyw ddyfyniadau yn deg.  
Ydych chi dal yn fodlon cymryd rhan? (*Aros am ateb*)  
Yn ogystal, os ydych chi'n fodlon, bydda i'n recordio'r sain yn unig, er mwyn gallu cadw cofnod cywir o'ch atebion. Ydych chi'n hapus gyda hynny? (*Aros am ateb*)  
Felly, os ydych chi'n barod, gawn ni ddechrau.

*Disgrifiad o'r sefyllfa:*

Mewn rhannau eraill o'r byd cydnabyddir bod y ffenomenon yma yn bodoli. Natur y ffenomenon yw bod athrawon sy'n addysgu iaith benodol (e.e. Saesneg yn Tseina) fel ail iaith sydd yn siaradwyr mamiaith o'r iaith honno yn cael eu hystried yn well athrawon, neu o fwy o werth, nag athrawon sydd wedi dysgu'r iaith honno fel ail iaith eu hunain.

H.y. yn enghraifft Tseina, byddai athro o Brydain yn teithio yno i weithio fel athro Saesneg yn cael ei ystyried fel aelod staff mwy gwerthfawr nag athro o Tseina sydd wedi dysgu Saesneg yn yr ysgol fel ail-iaith.

Rydw i wedi bod yn holi i weld os yw'r ffenomenon yn bodoli yng Nghymru o fewn addysgu Cymraeg fel ail-iaith.

Mae'n ymddangos nad yw'n bodoli fel polisi swyddogol neu rywbeth gyffredin ond bod yna unigolion yn dangos agweddau tuag at eraill sy'n debyg i'r feddylfryd yma. Beth yw eich ymateb i hynny?

Cwestiynau posibl:

*Prinder athrawon oedd un o'r pethau mawr daeth allan yn yr ymatebion ac felly yng Nghymru ydyn ni'n fwy fodlon derbyn rhywun sydd wedi dysgu?*

*Soniodd rhai bod pethau wedi newid dros amser. Ydych chi wedi sylwi ar hyn?*

*Ydy prinder athrawon yn effeithio ar ein hagwedd?*

*A ddylen ni fod yn newid ein hiaith (continwwm/ dysgwyr)?*

*Felly oes cynigion gyda chi, sut ydyn ni'n symud ymlaen neu beth yn ni'n trio ehangu arfer dda?*

*Oes unrhywbeth hoffech chi ofyn neu ychwanegu?*

## 7.4 Atodiad C - Dogfen Gydsynio Gwybodus



### DOGFEN GYDSYNIO GWYBODUS AR GYFER CYFWELIAD YMCHWIL TRAETHAWD HIR

Rwyf i.....yn cytuno cymryd rhan mewn cyfweiliad ar gyfer astudiaeth traethawd hir gan Melanie Corp ar gyfer MA trwy PCYDDS. Rwyf yn deall, yn ogystal, er y gall data o'r astudiaeth hon gael eu cyhoeddi, cedwir fy hunaniaeth yn gyfrinachol.

Deallaf bod hawl gennyf dynnu nôl o'r broses ar unrhyw bwynt. Yn yr achos hynny, ni chynhwysir fy atebion yn y gwaith gorffenedig.

---

(Llofnod)  
(Dyddiad)

Os yw unrhywbeth yn ystod y cyfweiliad yn achosi pryder i chi drwy ystyried digwyddiadau annymunol, cofiwch fod cymorth i athrawon ar gael ar y gwefanau canlynol:

<https://www.educationsupport.org.uk/helping-your-staff/wellbeing-wales>

<https://www.timetochangewales.org.uk/cy/angen-cymorth>



PRIFYSGOL CYMRU  
Y Drindod Dewi Sant  
UNIVERSITY OF WALES  
Trinity Saint David

## DOGFEN GYDSYNIO GWYBODUS AR GYFER CYFWELIAD YMCHWIL TRAETHAWD HIR

Rwyf i.....yn cytuno cymryd rhan mewn cyfweiliad ar gyfer astudiaeth traethawd hir gan Melanie Corp ar gyfer MA trwy PCYDDS. Rwyf yn deall y gwneir pob ymdrech i adlewyrchu fy nghyfraniad yn deg a di-duedd. Deallaf bod hawl gennyf dynnu nôl o'r broses ar unrhyw bwynt. Yn yr achos hynny, ni chynhwysir fy atebion yn y gwaith gorffenedig.

(Llofnod) (Dyddiad)

---

## 7.5 Atodiad CH - Trawsgrifiadau'r Cyfweiliadau

Cyfweiliad- Ymatebydd 1 – 1/9/22- Non

<i>Ym mha ran o Gymru ydych chi'n gweithio? Gawsoch chi eich magu yno, neu rywle arall?</i>
Ces I fy magu yma yn Sir Benfro ac hefyd, dyna ble dwi'n byw a gweithio.
<i>Beth oedd eich profiad personol o ddysgu Cymraeg (pryd/ sut/ ffurfiol/ anffurfiol)?</i>
Ok- so mae mam yn siarad Cymraeg gyda'i rhieni hi ond dim 'da ni fel plant achos doedd dad ddim yn siarad Cymraeg. Aethon ni I ysgol Gynradd Saesneg ond roedden ni'n cael gwersi Cymraeg nawr ac yn y man- dim fel ar yr amser go iawn. Jyst, fel roedd rhywun yn dod i mewn i'r ysgol i ddysgu Cymraeg i ni- ad hoc, rili. Wedyn yn ysgol uwchradd, roedd gwersi roedd rhaid i ni ddysgu Cymraeg, doedd dim opsiwn , roedd rhaid i ni wneud Cymraeg TGAU yn ail-iaith ond ar y pryd roedd hi'n opsiwn mewn ysgolion eraill. So rili, gwnes i Cymraeg yn yr ysgol fel ail iaith ond roeddwn i'n clywed yr iaith adref gyda mam a'i rhieni hi.
<i>Pa fath o waith/addysgu ydych chi'n ei wneud?</i>
Rwy'n athrawes mewn ysgol ■■■ ar yn o bryd ond fel rheol rwy'n gweithio mewn ysgol uwchradd.
<i>Oes unrhyw agwedd o'ch hunaniaeth yn effeithio ar sut mae pobl yn eich gweld fel addysgwr, yn eich barn chi?</i>
Hmm, wel, yn yr ysgol, dwi ddim yn teimlo dim byd fel hynny, fel mae popeth yn iawn , fel mae canlyniadau yn rili dda, mae pobl yn ie- iawn- ond- (chwerthin) sori- mewn – (02:29)cyn cofid pan oeddet ti'n mynd i gyfarfod ar draws y sir neu ar draws Cymru- fel adborth TGAU neu fel DPD, pethau fel yna, o'n ni'n teimlo bod pobl mamiaith yn edrych lawr arna i achos roeddwn i'n ail-iaith, doedd dim hawl da fi am yr iaith Cymraeg achos o'n ni'n ail-iaith ....pobl yn hollol wahanol achos roeddwn i'n dysgwr-dysgwraig? – dysgwraig.
<i>Ok- so cwpl mwy o gwestiynau i ddatblygu hynny nawr- Ble ydych chi'n defnyddio'r Gymraeg?</i>
Yn yr ysgol , adref gyda mam, gartref a mae gwr fi yn siarad Cymraeg hefyd a mae rhieni fe yn siarad Cymraeg a mae fe'n gwneud. Pan 'yn ni 'da nhw, dyn ni'n siarad Cymraeg. Tipyn bach gartref gyda'r gwr, yn yr ysgol bobo dydd- ie a gyda mam.
<i>Sut fyddech chi'n disgrifio eich gallu yn y Gymraeg?</i>
Chwerthin- wel mae gradd da fi- rwy'n dysgu'r iaith- rwy'n gwybod y rheolau- rwy'n gwybod mwy am yr iaith na phobl mamiaith- fel gwr fi a mam fi- 'so nhw'n deall y rheolau am dreigladau, am wneud fy nhad ac ati- so nhw'n gwybod dim byd am biti hynny, ond dwi'n gwybod popeth achos dwi eisiau dysgu'r iaith.
<i>Smashing- diolch- Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw broblemau gyda'ch iaith wrth ddysgu eraill?</i>
Mmm- gyda'r TGAU mae problemau. Maen ni'n dysgu topigau does neb yn siarad amdany'n nhw yn y gymuned- so i'r plant maen nhw'n dweud, ' miss- why are we talking about the environment- I don't talk to my friends about it in English'. So i fi- mae TGAU ddim yn siwtio beth mae'r plant angen gwneud. So i fi – mae'n well 'da fi mynd i'r siop neu i'r i brynu rhywbeth yn Gymraeg yn lle sgwrsio am ddwyieithrwydd neu ddatliadau. -Ydych chi'n ffeindio unrhyw broblemau wrth drio delio gyda'r iaith yna. - Ie, i fi- mae rhaid i fi chwilio am rai o'r geiriau yna achos so' nhw'n naturiol, ond hefyd, os wyt ti'n edrych ar ysgolion, yn enwedig yn Sir Benfro mae lot o blant sy'n dod i mewn i'r ysgol uwchradd- ddim wedi cael Cymraeg o rhywun sy'n siarad Cymraeg- maen nhw jyst yn cael e oddi wrth yr athrawon- yn yr ysgol maen nhw'n gwneud eu gorau i ddysgu nhw bach o Gymraeg. Ie- maen 'mixed bag'. Mae rhai ysgolion ble mae'r plant yn smart- maen nhw'n gallu siarad Cymraeg yn rili dda ond efallai mae plant yn dod o ysgol gynradd hollol wahanol a so nhw wedi cael i siawns mae pobl eraill wedi cael. So mae'n rili 'mixed bag'. Wedyn rydyn ni'n mynd ati i ddysgu ym mlwyddyn 7, achos mae rhai pobl yn gallu mynegi barn yn rili dda,

a safon eithaf uwch ond mae pobl eraill yn methu dweud llawer. Mae'r rili 'mixed bag'.
<i>Pwy neu beth ydych chi'n meddwl sy'n gwneud yr athrawon Cymraeg gorau? 6:28</i>
Wel- ni! (chwerthin) Pobl ail-iaith wrth gwrs- wel ie- y bobl sy 'di mynd trwy ddysgu'r iaith. Sai'n dweud bod y mamiaith yn rili wan ond mae ni'n gallu ... uniaethu gyda'r plant. A-weithiau dwi'n cofio rhywun yn yr ysgol pan o'n nhw'n dysgu fi. Dywedais 'pam mae hyn yn gweud hyn'- dim clem 'da hi- doedd dim clem da hi. Jyst achos ma fe, achos ma fe- ond o'n ni eisiau gwybod pam. Mae rheol t'mod so- dwi'n meddwl bod y bobl sydd wedi bod trwyddo a gwneud yn gwybod sut i wneud pethau. Pobl sy'n cael hwyl yn gwneud e- ni yw'r gorau.
<i>Ydych chi'n meddwl bod plant/ athrawon neu rhieni yn gwahaniaethu rhwng pobl sydd wedi dysgu Cymraeg a'r rheiny sy'n dod o gefndiroedd Cymraeg eu hiaith? 7:30</i>
O- yn ysgol ni- gyda rhieni- sai'n credu hynny- achos mae agwedd nhw yn rili bad 'eniwei'- mae'n nhw'n dweud bod Cymraeg ddim yn bwysig, dwi wedi cael llawer o rieni yn yr ysgol- o- so Cymraeg yn bwysig yn yr ysgol- pwy sy'n defnyddio Cymraeg- mae agwedd nhw yn uffernol. So, pwy? -Y plant- ydy plant yn gwahaniaethu rhwng y ddau? (Oedi) N, sai'n meddwl- wel- mae'n anodd i ddweud achos yn yr ysgol hyn, yn yr ysgol ble dwi'n dysgu nawr, mae'n fi a rhywun arall sy'n dysgu fel ail-iaith-siaradwyr ail-iaith ac yn yr adran ble roeddwn i o'r blaen- o'n ni gyd yn ail-iaith, so dwi'n meddwl i'r plant- is wyt ti'n cael hwyl, os mae agwedd ti'n iawn o ran y Gymraeg, os ti'n ysbrydoli plant i wneud yn dda, i mwynhau'r iaith, a pethau fel 'na- sai'n meddwl bod y plant yn meddwl dim byd. Ond os ti'n mynd mewn a jyst siarad at y plant, a ddim yn cael hwyl a dysgu mewn ffordd diflas iawn, mae'r plant yn mynd i gael yr agwedd 'wrong' 'eniwei' on'd yn nhw? (9:05) - So- wedaist ti ar y dechrau dy fod wedi cael profiadau negyddol- a win gwybod bod hwanna cyn Cofid-yn cwrdd a phobl mewn cyfarfodydd. Ydy pethau wedi newid dros amser, ych chi'n meddwl- yn yr amser rydych chi wedi bod yn dysgu-oes newidiadau? - Na (chwerthin).Pethau fel, pan mae'r Sir, neu ERW, neu Partneriaeth yn rhoi pethau mas, dydyn ni byth rili yn clywed am bobl ail-iaith 'di cynnig bod yn rhan o greu yn gemau, yr adnoddau yma. Mae wastad teimlad bod pobl iaith gynta..ond eleni, mae athrawes dwi'n dysgu gyda hi. Mae'n rhan o greu adnoddau- so efallai ie, efallai mae pethau'n dechrau newid. Mae hi 'di bod yn rhan o'r tîm yn creu pethau. <i>Ydych chi'n meddwl bod croeso i unrhyw un fod yn athro neu athrawes Gymraeg?</i>  Oedi (Cwestiwn da, Melanie). Beth wyt ti'n meddwl? O ran yr ysgol? <i>Yn gyffredinol os oes rhywun sydd eisiau bod yn athro/athrawes Gymraeg- ydyn nhw'n cael eu croesawi i mewn neu oes mwy o groesi i rai nag i eraill?</i> Sai'n siŵr. Ar hyn o bryd, mae angen athrawon ('sdim neb yn dweud na). Dim ots ble maen nhw'n dod o. Yr agwedd yw ar hyn o bryd, i rai pobl, rwy'n meddwl-'Mae rhywun yn well na neb'. So yn ein hysgol ni- 'but they've done GCSE years ago in school- so maen nhw'n gallu dysgu fe'.
<i>Ok- tra'ch bod chi wedi bod yn dysgu Cymraeg, fel athrawes, pa fath o gefnogaeth sydd wedi helpu chi?</i>
(Oedi)- pobl yn yr adran, dwi'n rili yn meddwl bod y bobl yn yr adran gyda fi yn wych- y'n ni gyd yn bobl ail-iaith, pobl ail-iaith- rydyn ni'n ysbrydoli ein gilydd-ym- oedd e'n ffab i fynd i bethau fel Llangrannog-ar trips gyda'r Gymraeg achos gwnes i radd mewn ail-iaith ond dyna pan ddes i i ddeall popeth oedd pan oeddwn i'n 'dysgu'r iaith- pan rwy ti'n gwneud i ddysgu'r plant. Dyna pryd rwy'ti'n dysgu fe. Ie bod yn rhan o adran dda a ... y gefnogaeth
<i>Oes na bobl sy'n 'mamiaith' efallai dim hyd yn oed yn athrawon Cymraeg- sydd wedi'ch cefnogi chi?</i>
(Oedi)- O- ( <i>meddwl am rhywun fel AT e.e.</i> ) ydych chi'n meddwl bod pobl sydd wedi dysgu yn

cael cefnogaeth cyffredinol gan bobl sydd yn siarad Cymraeg?
Eto- mae'n dibynnu- pwy sy' 'da ti. Pobl fel AT a mam fi- ie maen nhw'n- ie-'sdim ots so wyt ti'n gwneud camgymeriad- maen nhw'n reit gyfforddus gyda sut wyt ti'n siarad Cymraeg- bach o Wenglish- OND dwi yn cofio- daeth yr Eisteddfod lawr fan hyn yn 2007? Na- cyn hynny Yn y 2000s (aneglur) Oedd agwedd pobl lawr fan hyn (aneglur) oedd gwr fi e.e. yn gweithio mewn tafarn, oedd pobl yn cerdded mas achos doedd e ddim yn gallu siarad Cymraeg gyda rhai cwsmeriaid, 'On nhw'n snobi (14:00) ambyty Cymraeg- ddim yn hapus i glywed y slang lawr fan hyn, yn Sir Benfro. Rili yn riwd- ie a dwi'n meddwl ei fod e'n dibynnu. Mae rhai pobl jyst yn hapus i glywed yr iaith a does dim ots gyda nhw os wyt ti'n gwneud camgymeriadau- maen nhw'n cefnogi ti i siarad, a mae rhai pobl eraill, fel 'dysgu fe, sai'n mo'yn siarad a ti' - wel ie mae'n dibynnu. Hanner a hanner- unigolion.
<i>Dywedaist ti ar y dechrau bod profiad gyda ti mewn cyfarfodydd ac hefyd mewn creu deunyddiau. Oes unrhyw enghreifftiau eraill lle rwyt ti wedi gweld beirniadaeth ymysg athrawon. Jyst fel enghreifftiau i mi gael defnyddio.</i>
Ne- dim rili achos fel adran roedden ni'n rili dda. Fel – doedden ni ddim yn gweithio gydag eraill- roedden ni'n creu adnoddau. Jyst y teimlad mewn cyfarfodydd- ie- na dim rili.
<i>Sut ydych chi'n meddwl dylen ni symud ymlaen- fel cenedl, neu fel sir neu fel byd addysg? Pa fath o newidiadau hoffech chi eu gweld?</i>
Mae angen newid yr agwedd o bobl sy'n dod i mewn i Gymru. Lawr fan hyn yn Sir Benfro, ond hefyd yn yr Ysgolion. Mae'n rhaid i ni newid agwedd y plant. Ydyn nhw' gwybod pethau gwych am Gymru, ydyn nhw'n gwybod bod y siec £1,000 cyntaf yn tarddu o Gaerdydd. Ydyn nhw'n falch o ddod o Gymru. Mae'n nhw gyd yn hoff o wyllo rygbi ar y teledu a mynd i Stadiwm y Mileniwm a chefnogi pêl- droed. Ond dydyn nhw ddim yn gwybod.
<i>O ran rhoi gwybod i'r plant am bethau fel y diwylliant a phethau- wyt ti'n meddwl bod gwahaniaeth rhwng bobl sy' wedi dysgu a phobl sy' wedi cael eu magu yn yr iaith?</i>
Ie- dwi'n mae plant sy'n dod o deulu Saesneg- mae eu hagwedd nhw yn rili gwahanol i'r plant sy' yn mamiaith a sy'n dod i mewn, Os dwi'n meddwl am Bl 11 sydd jyst wedi cael eu graddau-m- maen ni wedi cael canlyniadau gwych o ran yr adran ond roedd pedwar o blant wedi cael U – dim o achos gallu- achos eu hagwedd nhw. Oedd dau grwt- aethon nhw lawr i gael brecwast yn lle sefyll arholiad. A pan oedd y mam a tad yn ffonio, 'Ble wyt ti, mae arholiad 'da ti. O maen ni 'di myn di gael bwyd yn lle. So Cymraeg yn bwysig. Mae un plentyn arall- mae hi eisiau bod yn nyrs- roedden ni'n dweud wrthi- mae'n rili bwysig os wyt ti'n gallu siarad Cymraeg – mae hi'n gallu cael C neu mwy- ond roedd ei hagwedd hi yn uffernol 'sai'n neud e, sai'n neud e'. Cafodd hi U achos gwnaeth hi ddim byd yn yr arholiad. Daeth hi mas ' I didn't write anything'. Agwedd hi- wedyn oedd un roces arall oedd agwedd hi yn uffernol yn y gwersi- cafodd hi B. Roedd agwedd mam hi yn – o ie- dyna ble arall- yn y noson rieni. Mae'r ffordd mae rhai rhieni yn dweud 'sdim ots da fi am Gymraeg, sdim ots da fi sut rwyt ti'n gwneud'. T'mod dylet ti gael cefnogaeth i'r plant i neud ail iaith- mae'n bwysig. So ie- fel TGAU
<i>Wyt ti'n meddwl bod gwerth mewn cael athrawon mamiaith ac ail-iaith yn yr un adran?</i>
(oedi) Neu oes ots
(18:59) Na sai'n meddwl. Os wyt ti'n athro da, athrawes dda, rwyt ti'n gallu gwneud e- i fi.
<i>Oes unrhyw gwestiwn hoffech chi ofyn?</i>
Ie- o ran, so i fi, mae athrawon sy' wedi dysgu pethau fel Sbaeneg neu Ffrangeg a pethau fel na, so' nhw'n cael yr un peth maen ni'n cael fel ail iaith- pobl ail-iaith – ond maen nhw'n bobl ail-iaith hefyd- so dych chi wedi darllen neu siarad a o bobl sy'n dysgu Ffrangeg fel ail -iaith sydd wedi dod o wlad
<i>(Ateb hir gen i i egluro'r gwaith).</i>
Ym Mis Mai es i mas i Sbaen i weld ysgol [redacted] eto, i weld os mae rhywbeth, os oes athro yn

dysgu o oes ■■■, 'all through teacher' na beth oedd pwrpas, so ond rili diddorol mae my'na oedd neb yn dysgu trwy'r ysgol- ond yr athro Saesneg. Roedd y plant i gyd yn dysgu Saesneg fel ail iaith ond roedd dim ond dwy- na un- un athrawes sy'n dysgu Saesneg- fel ces i yn yr ysgol Gymradd. Ces i Saesneg a roedd rhywun yn dod i mewn y ddysgu Cymraeg. Ond roedd yr athrawes yn aelod o'r ysgol trwy'r dydd. So hi oedd yr unig un oedd yn dysgu nhw o oed ■■■ a phawb arall
<i>Oedd hi'n Sbaeneg neu oedd hi'n dod o fan hyn?</i>
Na roedd hi'n Sbaeneg.
Diddorol. ( <i>Ateb hir arall. Symyd ymlaen i sgwrsio'n gyffredinol am y pwnc</i> ).

Cyfweliad- Ymatebydd 2- Mari – 9/9/22

<i>Ym mha ran o Gymru ydych chi'n gweithio? Gawsoch chi eich magu yno, neu rywle arall?</i>
Dwi'n gweithio yn Ne-orllewin Cymru a ces i fy magu yn Ne-orllewin Cymru hefyd.
<i>Beth oedd eich profiad personol o ddysgu Cymraeg (pryd/ sut/ ffurfiol/ anffurfiol)?</i>
So- dechreuais i ddysgu Cymraeg yn yr ysgol gynradd. Es i i ysgol gynradd Saesneg, -doedd dim byd Cymraeg a dydy neb rili yn siarad Cymraeg o gwbl, so roedd popeth yn yr ysgol, A wedyn roeddwn i'n mwynhau astudio Cymraeg yn yr ysgol uwchradd so penderfynu gwneud TGAU Cymraeg, ac ar y pryd o'dd e fel 'full course' / 'short course'. So penderfynu gwneud 'full course' Cymraeg, wedyn lefel A Cymraeg, a wedyn gradd yn y Gymraeg, ond dwi dal ddim yn siarad gyda teulu yn Gymraeg o gwbl felly jyst trwy'r ysgol ges i profiad o ddysgu Cymraeg.
<i>Pa fath o waith neu addysgu ydych chi'n ei wneud?</i>
Dwi'n dysgu mewn ysgol uwchradd Saesneg ac yn dysgu Cymraeg fel pwnc ail-iaith.
<i>Oes unrhyw agwedd o'ch hunaniaeth yn effeithio ar sut mae pobl yn eich gweld fel addysgwr, yn eich barn chi?</i>
Um- dim rili. Dwi 'di teimlo bod, fel, wrth astudio TAR yn y brifysgol, dwi'n teimlo bod pobl yn eitha, wel parchu'r ffaith 'mod i wedi dysgu'r Gymraeg a dwi'n defnyddio hynny yn y dosbarth weithiau. Dwi'n dweud wrth y plant trwy'r amser, 'mod i wedi dysgu Cymraeg hefyd, so dim jyst chi sy'n gwneud e. Mae'n bosib gwneud. Mm so ie – rwy'n teimlo bod hwn yn bwysig i fi, a nhw hefyd.
<i>Ble ydych chi'n defnyddio'r Gymraeg?</i>
Tu fas i'r ysgol a'r gwaith? ( <i>ie</i> ) So- mae lot o ffrindiau sy'n siarad Cymraeg. Wnes i cwrdd â yn ystod gradd yn y brifysgol ac hefyd ar y cwrs TAR ar ôl gwneud gradd yn y Gymraeg felly rwy'n siarad Cymraeg gyda nhw. Ac hefyd, pan rwy'n mynd i'r gampfa yng Nghaerfyrddin achos rwy'n byw yng Nghaerfyrddin nawr. Mae lot o Gymraeg yn y dre, so dwi wedi ffeindio 'mod i'n dysgu, wel defnyddio lot mwy nawr, yn y ganolfan ac o gwmpas y lle gyda phobl sy'n siarad Cymraeg iaith gyntaf. 'Sdim opsiwn 'da fi siarad Cymraeg gartref felly, ie- sy' bach yn drist rili. ( <i>ie, ie, ie</i> )
<i>Sut fyddech chi'n disgrifio eich gallu yn y Gymraeg?</i>
Ym- se' ni'n dweud 'mod i'n rhugl yn y Gymraeg nawr a dwi'n teimlo eithaf hyderus nawr. A – pan o'n ni'n astudio'r Gymraeg fel gradd i ddechrau, o'n i ddim rili yn hyderus o gwbl a baswn i wedi dweud o- dwi'n gallu siarad Cymraeg ond 'ail-iaith' Cymraeg. Ond nawr, se'n ni byth yn dweud 'na. Dwi jyst yn dweud ie- dwi'n gallu siarad Cymraeg a dwi'n gwybod bod Cymraeg fi ddim yn berffaith o gwbl ond sai'n credu bod Cymraeg unrhyw un yn berffaith. Felly, ie- dwi'n teimlo'n ddigon hyderus a dwi'n hapus i siarad ag unrhyw un yn y Gymraeg nawr.
<i>Ie- diolch yn fawr. Efallai bod ti wedi ateb hwn ond-ydych chi'n ymwybodol o unrhyw</i>

<i>broblemau gyda'ch iaith wrth ddysgu eraill?</i>
Wrth ddysgu iaith eraill neu ddysgu Cymraeg? ( <i>Pan rwy ti'n dysgu plant wyt ti'n ymwybodol o broblemau gyda dy iaith dy hunan?</i> ) Na- ddim rili- weithiau mae rhaid i fi siecio. Os mae plentyn yn gofyn 'miss-beth yw hwn yn Gymraeg?' weithiau, dwi fel 'actually, mae rhaid i fi siecio'-weithiau- ond dwi'n hollol onest gyda'r plant, so fel arfer dwi jyst yn dweud 't'mod beth, dwi ddim yn siŵr beth yw hwn yn Gymraeg so mae rhaid i siecio. Ym a weithiau maen nhw fel 'miss you're a Welsh teacher so how don't you know?' (4:26) So- ateb fi fel arfer yw 'wel y peth yw, rwy'ti'n siarad Saesneg ond 'so ti'n 'nabod pob gair Saesneg' a maen nhw wastad fel, 'no'. Ond dwy e ddim yn digwydd lot ond weithiau. Dyna'r unig beth sy'n poeni fi.
<i>Reit-pwy neu beth ydych chi'n meddwl sy'n gwneud yr athrawon Cymraeg gorau? (4:53)</i>
Oh- God- cwestiwn da- pwy neu beth? Beth- reit – i fi. Dwi'n teimlo, i fod yn athrawon rili da, mae rhaid i chi roi y gwaith i mewn a dim fel pobl sy'n- mae pobl yn gallu helpu- os ydych chi'n gweithio mewn adran rili cryf mae'n mynd i gael effaith arnat ti- neu chi fel grŵp o bobl. Ond i fod yn athro neu athrawes dda baswn i'n deud mae rhaid i chi wneud y gwaith a dyna beth sy'n helpu ond hefyd mae rhaid i chi fod yn angerddol dros y pwnc a hefyd eisiau wneud- ti'n methu bod yn athro da heb fod yn hapus yn dysgu'r pwnc. ( <i>Ydych chi'n meddwl ei fod e'n gwneud gwahaniaeth os yw'r bobl wedi dod o gefndir Cymraeg neu wedi dysgu'r iaith?</i> ) Mm- ydy e'n gwneud gwahân-mmm-?? 'Sŵn i'n dweud yr unig beth sy'n gwneud gwahaniaeth yw bod pobl sy' wedi tyfu lan yn dysgu Cymraeg yn tyfu lan neu'n siarad Cymraeg fel mamiaith, dwi'n teimlo bod nhw'n – wel- ie bod nhw'n fwy tebygol o ddysgu Cymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgolion yn lle ail-dwi jyst yn meddwl nawr- pawb sydd wedi dysgu wel-penderfynu gwneud cwrs TAR trwy gyfrwng y Gymraeg sy'n siarad Cymraeg fel mamiaith- maen nhw i gyd wedi penderfynu dysgu Cymraeg mewn ysgol iaith gyntaf- ond yn y dosbarth? Na- dwi ddim yn meddwl bod e'n gwneud gwahaniaeth rili. Baswn i'n teimlo bach yn llai hyderus yn dysgu'r Gymraeg mewn ysgol cyfrwng Cymraeg. Ym- jyst achos bod y cwrs yn wahanol rili- ond dim achos fy iaith i, baswn i'n hyderus.
<i>(7:00) Ok- diolch. Ydych chi'n meddwl bod plant neu athrawon neu rhieni yn gwahaniaethu rhwng pobl sydd wedi dysgu Cymraeg ac athrawon Cymraeg sy'n mamiaith?</i>
Dwi ddim yn meddwl eu bod nhw'n ymwybodol, i fod yn hollol onest. Dwi'n teimlo, gyda- yn yr ysgol, mae rhai o'r plant nawr sy'n siarad Cymraeg adref gyda'r teulu so- os ydyn nhw'n dod i noson rieni, ac yn y blaen, dwi'n fwy na hapus i siarad Cymraeg gyda nhw a dwi byth yn teimlo eu bod nhw'n meddwl – 'O, dyw hi ddim wedi siarad Cymraeg, t'mod am byth. Mae hi'n swnio ei bod hi wedi dysgu Cymraeg'. Dwi byth yn teimlo fel 'na. Sai'n credu eu bod nhw'n ymwybodol, ond efallai bod e'n dibynnu ar y person ac os ydyn nhw wedi cael y cyfle o siarad lot o Gymraeg a datblygu'r sgiliau. Dwi ddim yn siŵr.
<i>(8:20) Beth o'n ni'n meddwl amdano fe yw- os yw rhywun yn teimlo eu bod nhw'n cael eu barnu am fod yn 'ail-iaith' wyt ti'n meddwl taw mater natur personoliaethau mewn un ysgol yw hwnna yn hytrach na rhywbeth sy'n digwydd ymhobman?</i>
Bendant. Dwi'n – a baswn i'n dweud yr un peth yn gyffredinol os oes rhywun yn cael ei feirniadu am fod yn 'ail-iaith' 'swn i'n dweud ei fod yn dibynnu ar leoedd gwahanol yng Nghymru a dim ymhobman. T'mod- dwi 'di byw yng Nghaerdydd, Sir Benfro, Caerfyrddin a mae agweddau yn wahanol ond dwi byth wedi cael y teimlad o bobl yn beirniadu o ran defnyddio'r Gymraeg. Ond ie- sŵn i yn dweud- lleoedd gwahanol yng Nghymru a mae'n dibynnu ar yr ysgol ond i fi- dwi ddim wedi cael y profiad.
<i>(9:15) Iawn, so rwy'ti'n dweud dy fod wedi dod yn athrawes llwyddiannus nawr- Pa fath o gefnogaeth sydd wedi helpu ti fel athrawes Gymraeg?</i>
Fel 'wedais i o'r blaen, gweithio mewn adrannau cryf, ac hefyd, ym, wnes i ddysgu lot ar y flwyddyn NQT on i'n lwcus iawn i gael pennaeth adran cryf ar y pryd ond hefyd NQTs eraill mewn pynciau eraill. Ie- dwi jyst yn teimlo, dim jyst achos Y Gymraeg sy'n bwysig ond mae 'na rhaid i chi ddysgu o bobl eraill yn yr ysgol hefyd. Dwi 'di cael cyfleoedd da i edrych ar



<p>athrawon eraill ac yn y blaen ond hefyd nawr yn ddiweddar dwi wedi gwneud lot o waith gyda TT ac ERW sy' wedi bod t' mod yn rili dda i fi- cael y profiad o weithio gyda pobl o ysgolion eraill a rhannu profiadau sy' wedi helpu fi lot. Ac hefyd adeiladu digon o adnoddau- dyna beth sy'n bwysig. Na beth sy'n – dwi'n credu. Amrywiaeth o adnoddau, rhannu adnoddau gyda phobl eraill ymm- hyd yn oed os ydyn nhw'n gweithio mewn ysgol gyfrwng Cymraeg yn lle Saesneg. Weithiau mae'n rili neis rhannu adnoddau, t' mod. Mae tebygrwydd rhwng pethau rydyn ni'n gwneud.</p>
<p><i>(10:48 )Diolch. (oedi) Yn y swydd newydd byddi di'n gwneud, mae hwnna'n meddwl bydd mwy o bobl yn dod i mewn i ddysgu , gobeithio. Sut wyt ti'n meddwl gallwn ni, fel gwlad, symud ymlaen?</i></p>
<p>Wel- pwynt fi- yn y cyfweiliad, roedd rhaid i fi wneud PPT ar sut i ddenu mwy o bobl i ddysgu cyfrwng Cymraeg neu fel pwnc. Ac i fi, beth dwi'n meddwl ein bod ni i gyd angen gwneud mwy yng Nghymru o ran gweithio mewn ysgolion achos – dim jyst ysgolion uwchradd ond ysgolion cynradd achos agwedd y plant a dim mwn ysgolion cyfrwng Cymraeg ond mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, mae agwedd y plant yn effeithio ar y Gymraeg, dwi'n teimlo. Fel pwnc, fel iaith a jyst, ie jyst fel arfer mae'r plant yn gallu bod yn eithaf negyddol tuag at y Gymraeg. So fel wlad, wel gwlad, dwi jyst yn teimlo bod ni i gyd angen helpu newid agwedd y plant yn gynharach, cyn gadael iddyn nhw adael yr ysgol mynd i coleg a wedyn mae'n rhy hwyr. Ond ie- mae'n sialens, mae'n sialens hiwj- rwy'n teimlo.</p>
<p><i>Diolch. Oes unrhyw gwestiwn hoffet ti ofyn?</i></p>
<p>Nac oes- sai'n meddwl.</p>
<p></p>
<p></p>
<p></p>

Cyfweiliad- Ymatebydd 3 – 23/9/22- Jemeima

00:16	<i>Ym mha ran o Gymru ydych chi'n gweithio? Gawsoch chi eich magu yno, neu rywle arall?</i>
00:22	Wel, dwi'n gweithio yn Sir Gar ar hyn o bryd ac yn byw yn Sir Gar ond yn wreiddiol, dwi'n dod o XXX
00:33	<i>Hyfryd, diolch yn fawr. Beth oedd eich profiad personol o ddysgu'r iaith?</i>
00:35	<p>Wel, dechreuais i, doedd dim Cymraeg pan o'n ni yn tyfu lan yn y chwedegau. Doedd dim Cymraeg o gwbl yn yr hen Sir Powys. Wel, dim yn y canolbarth, beth bynnag. Felly, doedd dim cyfle i ddysgu'r iaith yn yr ysgol gynradd a wedyn pan es i i'r ysgol uwchradd, mm, doedd dim byd o gwbl yn y flwyddyn gyntaf. Yn yr ail flwyddyn, roedd dewis ac os cofia i'n iawn o'dd y dewis rhwng Lladin, Cymraeg a drama. A, do'n ni ddim am wneud Lladin a d'on i ddim yn teimlo 'mod i'n mynd i fod yn actores a dechreuais i Cymraeg wedyn. A diddorol- roedd fy athro i yn berson ail iaith hefyd. Roedd e wedi dod o Bort Talbot a wedi dysgu'r iaith ei hunan yn yr ysgol. Felly, a wedyn, wrth gwrs ar ôl gwneud Lefel O fel roedd hi pryd yna, gwnes i lefel A ac wedyn es i i'r coleg i wneud gradd mewn Cymraeg a Saesneg.</p> <p><i>(01:46) Ydy, jyst mas o ddiddordeb, ydych chi'n meddwl bod hwnna wedi cael dylanwad arnoch ci, y faith bod eich athro wedi dysgu'r iaith?</i></p> <p><i>(01:51) Yn bendant, yn bendant, achos o'n ni'n ymwybodol o, yn gynnwys iawn, mai dyna oedd ei gefndir e, a rwy'n meddwl roedd e hefyd yn deall sut brofiad oedd hi i ddysgu'r iaith a rwy'n siŵr bod hynny wedi bod yn ffactor.</i></p>
02:15	<i>Pa fath o waith/addysgu ydych chi'n ei wneud?</i>
02:17	Dwi'n dysgu, dwi'n gwneud Cymraeg i Oedolion, felly, mae tri dosbarth gyda fi-

	dau ddsbarth gyda'r nos ac un yn ystod y Dydd, i [REDACTED].
02:25	<i>Reit, a dim ond fel mater o gyd-destun, oes unrhyw agwedd o'ch hunaniaeth yn effeithio ar sut mae pobl yn eich gweld fel addysg chi?</i>
02:40	Dwi ddim yn meddwl, na.
02:43	<i>lawn, grêt. Felly, ble ydych chi'n defnyddio'r Gymraeg yn gyffredinol, fel unigolyn?</i>
02:48	<p>Dwi ddim yn defnyddio'r Gymraeg yn y cartref. Mae fy mhartner i yn ddi-Gymraeg a does dim plant gyda ni felly mm, yn y teulu, does neb sy'n siarad Cymraeg. Roedd fy hen-famgu os dwi'n cofio'n iawn, oedd y person olaf oedd yn gallu siarad Cymraeg ar y ddwy ochr; roedd y teulu wedi symud. Roedd un teulu o Sir Benfro yn wreiddiol a wedyn symudon nhw i'r canolbarth a collwyd yr iaith pryd hynny, rwy'n meddwl. Ac wedyn roedd teulu mam o'r [REDACTED] wreiddiol a roedd y, roedden nhw'n siarad Cymraeg ond doedd y teulu ddim wedi pasio Gymraeg ymlaen ar ôl iddyn nhw symud i [REDACTED]. Felly, does neb yn y teulu sy'n siarad Cymraeg ond dwi'n defnyddio'r Gymraeg yn fy ngwaith. (03:48)</p> <p>Athrawes ysgol uwchradd o'n ni cyn, wel cyn symud i waith ymchwil. Am ugain mlynedd o'n ni'n gweithio i [REDACTED] a ro'n ni'n gweithio yn y swyddfa yng Nghymru. Roedd swyddfa fach gyda nhw yng Nghymru, yn Abertawe i ddechrau a wedyn [REDACTED] a roeddwn i'n defnyddio'r Gymraeg trwy'r dydd, bob dydd yn y gwaith yna. Ac yn fy ngwaith fel athrawes.</p> <p>(04:18) Erbyn hyn, dwi'n gwneud y gwaith [REDACTED] ond dwi hefyd yn gweithio'n llawrydd fel ymchwilydd a mae'r rhan fwyaf o'r gwaith yn ymwneud â'r Gymraeg felly dwi'n defnyddio'r Gymraeg yn eithaf helaeth yn fy mywyd gwaith fel petai.</p>
04:36	<i>Mm, diddorol iawn. Sut fydddech chi'n disgrifio eich gallu yn y Gymraeg?</i>
04:45	Wel, dwi'n rhugl erbyn hyn a dwi wedi gwneud gradd ac uwchradd trwy'r Gymraeg felly byddwn i'n dweud bod fy ngallu yn y ddwy iaith rhywbeth yn debyg, o ran y Gymraeg a'r Saesneg.
05:05	<i>Diolch yn fawr. I symud ymlaen nawr, cwpl o gwestiynau m eich barn chi. Beth y'ch chi'n meddwl sy'n gwneud yr athrawon Cymraeg gorau? Pwy neu beth?</i>
05:10	<p>Mmm, diddordeb mewn pobl, dwi'n meddwl. Dwi'n meddwl bod hynny'n bwysig iawn achos i fod yn athrawes iaith, dwi'n meddwl eich bod yn dod i 'nabod eich dosbarthiadau yn well nac unrhyw bwnc arall, rwy'n meddwl, achos mae'n rhaid i chi drafod nhw a'u bywydau nhw. Rhaid iddyn nhw rannu pethau amdany'n nhw eu hunain, yn naturiol, yn rhan o'r cwrs felly, dwi'n meddwl bod diddordeb mewn pobl yn bwysig iawn.</p> <p>(05:42) Dw'n meddwl hefyd bod agosatrwydd yn eithaf pwysig hefyd. Dwi'n meddwl bod rhaid i chi adeiladu perthynas gyda'ch dosbarth. Nid yn unig gyda'r unigolion ond gyda'r perthynas gyda'r dosbarth fel cymuned, dwi'n meddwl achos dych chi'n gweld nhw unwaith yr wythnos yn achos Cymraeg i oedolion fel dwi'n gwneud y cwrs, felly mae creu lle iddyn nhw ymwneud a'i gilydd yn y Gymraeg yn bwysig iawn am y ddwy awr yna yn fy marn i</p> <p>(06:20) Deall gramadeg a teimlo'n eithaf sicr yn eich Cymraeg eich hunan, yn bwysig dwi'n meddwl achos yn enwedig dysgu oedolion, maen nhw'n gofyn llawer iawn mwy o gwestiynau na beth mae plant. Mae plant yn tueddu i dderbyn beth y'ch chi'n dweud am unrhyw beth. Efallai bod nhw ddim yn cymryd e mewn- efallai bod nhw ddim yn cwestiynu eich gallu chi neu eich dealltwriaeth chi, ond mae yna, rwy'n meddwl bod oedolion yn gofyn rhai cwestiynau eithaf lletchw..- wel dim lletchwith ond annisgwyl weithiau, ac os nad ydych chi'n teimlo'n eithaf sicr eich hunan yn yr iaith, dwi'n meddwl bod hynna'n gallu tanseilio'ch perthynas chi gyda'r dysgwyr wedyn. Maen nhw eisiau teimlo'n sicr</p>

	<p>bod chi'n gwybod yr atebion , rwy'n meddwl. Ac wrth gwrs, weithiau mae rhaid i chi ddweud bod chi ddim yn gwybod- ambell waith maen nhw'n gofyn am ryw air a dwi ddim yn gwybod a dwi jyst yn dweud wedyn 'mod i ddim a fel arfer maen nhw'n mynd ar eu ffôn ac yn edrych am y gair a dyn ni'n trafod, ond, yn gyffredinol dwi'n meddwl nod e'n bwysig bod chi yn gallu egluro wrthyn nhw a helpu nhw gyda'u cwestiynau.</p>
07:48	<p><i>Ydych chi'n meddwl bod ots felly, os taw o gefndir mamiaith neu wedi dysgu mae rhywun yn dod?</i></p>
	<p>Mm- na dwi ddim yn meddwl achos a bod yn onest, dwi'n teimlo'n aml iawn- dwi ddim yn siŵr am ieithoedd eraill, ond yn sicr o ran y Gymraeg ma..., mae pobl sydd wedi- sydd yn dod o gefndir mamiaith yn aml iawn, efallai dim cymaint nawr, mewn ysgolion, ond blynyddoedd yn ôl doedd y pwyslais ddim ar ramadeg neu pethau fel 'na yn eu gwersi nhw, ac yn aml iawn, maen nhw'n gwybod sut maen nhw'n dweud rhywbeth ond dyn nhw ddim yn gwybod <i>pam</i> maen nhw'n dweud e neu beth yw'r perthynas gyda'r gramadeg a mae hynny'n gallu bod yn anodd pan dych chi'n trio egluro i ddysgwyr. Felly dwi'n meddwl cyn belled a bod y person ail iaith wedi cyrraedd safon digon uchel o ran – yn yr iaith a'u bod nhw'n weddol rhugl ei hunain. (08:54) dwi ddim yn meddwl ei fod e'n rhwystr o gwbl a dwi'n rhyw tybio ei bod hi'n fantais a bod yn onest. Achos unwaith dych chi wedi bod trwy'r broses o ddysgu iaith, dych chi'n deall ble mae'r maen tramgwydd a ble- beth oedd yn anodd i chi fel dysgwr. Dwi'n meddwl am bethau fel y cymal enwol. Dwi'n cofio meddwl 'o mae hwn yn anodd', a pethau fel na. (09:24) A hefyd yr hyder- dod dros y bont yna achos yn bys yn y canolbarth fel oeddwn i, doedd dim llawer o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg nes i fi fynd i'r coleg mewn gwirionedd a ro'n ni yn y coleg yn Llambod ac roedd y Gymraeg o'nghwps i ym bob man wedyn – a Chymraeg gwahanol iawn i'r hyn roeddwn i wedi dysgu yn yr ysgol. Felly, byddwn i'n dweud dechreuodd y croesi'r bont yn y coleg ond efallai unwaith o'n ni'n gweithio fel athrawes ac yn byw a bod y Gymraeg bob dydd yn yr ystafell staff ac yn yr ystafell ddosbarth efallai pryd 'yna oedd y croesi'r bont go iawn wedi digwydd efallai. (10:10) Ond dwi'n cofio'r broses yna yn eithaf da. Dwi'n meddwl bod hynny'n helpu wedyn dysgwyr os 'dych chi'n gallu cyfeirio. O'n ni'n dweud wrth un o'n dosbarthiadau i diwrnod o'r blaen ynglŷn a sut bydden nhw gwybod bod nhw edi croesi'r bont achos mae un dosbarth canolradd dau gyda fi a maen nhw'n mynd ymlaen i uwch a dwi ddim yn myn di fod yn dysgu nhw ac wrth ffarwelio rodden ni'n trafod pethau ynglŷn a sut oedden nhw wedi datblygu ac un o'r pethau rwy'n teimlo sy'n dangos bod rhywun wedi croesi'r bont ydy breuddwydio yn y Gymraeg. Mm felly, a roedd rhai ohonyn nhw'n dweud, dim eu bod nhw edi cael breuddwyd cyfan yn y Gymraeg ond bod rhywun wedi dweud rhywbeth yn Gymraeg yn y freuddwyd. (11:00) A ro'n ni yn dweud 'wel mae hynny'n dangos bod e'n mynd i mewn i'r isymwybod wedyn, felly mae pethau fel, a dwi'n meddwl fel rhywun sydd wedi bod trwy'r broses yna, dych chi'n ymwybodol o'r camau sy'n dod wrth ddod yn rhugl.</p>
11:20	<p><i>Diolch, diolch. Diddorol iawn. Ydych chi, yn eich profiad wedi gweld rhieni neu plant, neu pobl proffesiynol eraill yn gwahaniaethu rhwng yr athrawon, a dwi'n meddwl yma yn arbennig athrawon Cymraeg fel ail iaith. Ydych chi wedi gweld pobl yn gwahaniaethu?</i></p>
11:39	<p>Na, dwi ddim yn teimlo 'mod i wedi dod ar draws gwahaniaethu ond mae pobl wastad yn synnu achos y peth cyntaf naturiol yng Nghymru yw i ofyn i bobl neu i ddyfalu o ble mae rhywun yn dod yn wreiddiol, a maen nhw'n cael hynny'n anodd gyda fi achos dwi wedi dysgu fel ail iaith a dwi wedi byw, o'n ni'n byw yn y</p>

	<p>Gogledd am sbel a dwi di byw lawr yn y De felly dwi ddim yn ffitio'r patrwm yna. Felly pan dwi'n cwrdd, maen nhw'n trio dyfalu o ble mae'r acen yn dod. Nawr dwi'n byw yn y De, mae pobl yn clywed rhyw dinc y Gogledd yn fy acen i ac yn meddwl 'mod i'n dod o'r Gogledd efallai ac maen nhw wastad yn synnu pan dwi'n dweud 'dwi'n dod o [REDACTED] yn wreiddiol'. Wedyn y peth cyntaf mae Cymry Cymraeg yn dweud yw, ' O does dim llawer o Gymru Cymraeg yn y canolbarth'. Wedyn rwy'n egluro 'mod i o gefndir ail-iaith ac o maen nhw'n rhyfeddu ac yn ' o mae'n wych'. (12:44) dwi erioed wedi cael neb yn, dwi ddim yn teimlo beth bynnag, sy wedi dangos unrhyw rhagfarn yn fy erbyn unwaith rwy'n dweud fy mod i'n ail-iaith. Dwi ddim wedi dod ar draws hynny o gwbl. Dim ond canmoliaeth. A weithiau rhywbeth sy'n mynd dros ben llestri braidd, a dych chi'n meddwl, 'wel dwi ddim mor anarferol a hynny, ond mae e'n digwydd weithiau ac efallai byddai rhai pobl yn gweld hynny yn nawddoglyd. Dwi ddim yn gwybod. Dwi ddim yn teimlo felly ond maen nhw yn mynd dros ben llestri weithiau. (13:18) A'r peth arall dwi wedi sylwi yw bod rhai pobl yn teimlo os dych chi wedi Cymraeg bod eich Cymraeg yn well rhywsut achos bod chi'n defnyddio Cymraeg llyfr yn hytrach na Chymraeg byw a dwi wedi dod ar draws hynny. Mm y person sy'n byw drws nesaf i fi, sydd wedi byw yn y pentref erioed. Dyw e ddim yn siarad Cymraeg a fi. Mae e'n siarad yn Saesneg a fi dwi'n ateb yn Gymraeg a dwi'n gwybod pam- achos bod e'n teimlo bod ei Gymraeg e ddim yn ddigon da achos bod fy Nghymraeg i yn wahanol.(13:58) a mae hynny'n ddiddorol. Dyn ni wedi byw drws nesaf i'n gilydd ers ugain mlynedd a weithiau mae'n dweud ambell i beth yn Gymraeg ond wedyn mae e'n mynd nol a dwi'n clywed e'n siarad a'i ferch a dwi'n siarad a'i ferch yn Gymraeg ond mae'n rhyfedd, mae'n jyst rhywsut iddo fe, mae'n rhwystr iddo fe 'mod i'n defnyddio Cymraeg sy' yn ei farn e ar lefel uwch na'i Gymraeg e. (chwerthin)</p>
14:28	<p><i>Mae'n dda iawn i fi glywed eich bod byth wedi dod ar draws unrhyw fath o ragfarn fel hon. Sut ych chi'n meddwl- neu oes na ffyrdd, ych chi'n meddwl bod yr awyrgylch adeiladol yma wedi cael ei greu yng Nghymru?</i></p>
14:42	<p>Wel dwi'n meddwl bod e'n dod efallai i'r ffaith bod cymaint o deuluoedd fel fy nheulu i yn hanesyddol wedi colli gafael ar yr iaith a maen nhw'n gweld hynny fel colled a mae pobl yn ymwybodol bod y Gymraeg wedi bod trwy gyfnod o golli siaradwyr. Felly y ffaith bod pobl eisiau dysgu'r iaith ac sy'n awyddus ac wedi gwneud ymdrech i ddysgu'r iaith yn cael ei barchu dwi'n meddwl achos bod yr iaith mor bwysig i bobl ac yn aml iawn mewn cymunedau mae pobl yn sylweddoli bod heb y pwyslais ar ennill siaradwyr, byddwn ni ddim yn sefyllfa lle mae'r Gymraeg yn tyfu unwaith eto. Felly dwi'n meddwl bod pobl yn parchu'r ymdrech yna.(15:40) Ym, y ffactor arall sydd yn cael effaith weithiau yw, fel o'n ni'n dweud gyda fy nghymydog yw weithiau dwi'n meddwl bod y ffaith bod pobl dim yn fodlon defnyddio'r iaith gyda dysgwyr yn y gallu bod yn rhwystr ond nid oherwydd bod nhw'n teimlo bod y dysgwyr yn ddigon da- achos bod nhw'n teimlo bod eu Cymraeg nhw ddim yn ddigon da. Neu bod nhw'n teimlo bod y dysgwyr ddim yn mynd i ddeall nhw a bod hynny'n myn di greu embaras. Felly mae'n nhw'n dweud ' wel dwi eisiau gwneud yn siŵr bod nhw'n teimlo'n gyfforddus'. Felly, ac mae dysgwyr yn gweld hynny'n anodd achos maen nhw'n gwneud ymdrech ac mae'n nhw'n trio defnyddio'u Cymraeg ac yn sydyn reit mae Cymry Cymraeg yn ateb yn Saesneg a dwi'n (16:36) dweud wrth fy nysgwyr i ' nid achos bod chi'n wael, achos bod nhw eisiau i chi deimlo'n gartrefol a'u bod nhw hefyd ychydig bach yn ansicr ynglŷn a pha fath o iaith dylen nhw fod yn defnyddio'. Achos mae lot o 'hang-ups' yn y Gymraeg ynglŷn a Cymraeg 'llyfr' a Chymraeg mm, 'tafodieithol' dwi'n meddwl.</p>

16:59	<i>Diolch. Felly, oeddech chi'n sylwi yna ein bod ni am gynyddu defnydd a datblygu faint o siaradwyr Cymraeg sydd i gael. Pe bai pobl yn ffeindio'u hunain yn y sefyllfa yma, pa fath o gyfarwyddyd byddech chi'n rhoi. Pe baech chi'n rhedeg y llywodraeth nawr, sut fyddech chi'n creu awyrgylch dros y wlad sy'n derbyn dysgwyr?</i>
17:25	Wel, dwi'n meddwl bod hynny wedi digwydd i raddau. Mae'n rhaid i mi ddweud dwi ddim yn gweld e'n gymaint o broblem a dwi'n meddwl bod y sector Cymraeg i oedolion yn gwneud gwaith ardderchog yn hynny o beth o ran cynnwys dysgwyr. A dwi'n meddwl bod y pandemig wedi helpu i raddau achos dwi'n, mae'n rhyfedd i ddweud ond dwi wedi dod nol i ddysgu Cymraeg i oedolion. O'n ni'n gwneud e pan o'n ni'n athrawes a wedyn ar ôl gadael yr ystafell ddisbarth a symud i weithio 9-5 o'n ni'n teimlo bod dim amser gyda fi i ddysgu dosbarth (18:03) ar ôl ysgol neu ar ôl gwaith felly des i nol i ddysgu ar lein am y tro cyntaf yn ystod y pandemig. A bydden ni ddim yn mynd nol nawr i ddysgu wyneb yn wyneb. Dw'n hoffi, bydden ni'n hoffi gweld y dysgwyr ambell waith i gwrdd a nhw, a chael sesiwn sgwrsio neu beth bynnag. Ond o ran y dysgu dwi'n meddwl bod e wedi gwneud e cymaint yn haws i bobl ddysgu'r iaith, achos, i fod yn ymarferol- er bod pobl yn dweud ' o dwi'n hoffi bod yn y dosbarth wyneb yn wyneb, pan mae'n dod i ganol gaeaf a maen rhaid iddyn nhw droi mas yn y tywyllwch a gyrru am hanner awr i gyrraedd y ganolfan, wedyn gyrru hanner awr yn ôl. Mae hynny yn rhwystr. Yn sicr mae presenoldeb yn well yn fy nosbarthiadau i ar lein na beth bydde fe wyneb yn wyneb. (19:07) Felly dwi'n meddwl bod y technoleg yn gallu bod yn fanteisiol. Mae wedi agor y drws tu allan i Gymru hefyd gwybod am yr iaith, odi, dwi 'di bod yn gwyllo'r rhaglen na'n ddiweddar ar y teledu ar Wrecsam ar y ddau Americanwr sydd wedi prynu'r clwb pêl- droed a maen nhw yn amlwg wedi deall beth yw'r gwahaniaeth- bod pobl yn siarad iaith arall. A mae'n rhan o'u ffilm nhw, a maen nhw'n defnyddio geiriau o Gymraeg ar y sgrin. (19:45) A dwi ddim yn meddwl byddai hynny wedi digwydd efallai deg mlynedd neu ugain mlynedd yn ôl hyd yn oed. Felly mae technoleg wedi helpu. Mae'r byd yn llai, ond ydi felly mae pobl yn ymwybodol mwy ac yn gallu bod yn ymwybodol. Mm O ran plant, dwi ddim yn gwybod ydy hynny yn rhan o'ch ymchwil chi, o ran plant yn caffael yn yr iaith a rhieni.
20:14	<i>Wel o ran 'oes na wahaniaethu rhwng garfanau o athrawon?' Dyna'r ffocws.</i>
20:18	Wel, dwi'n meddwl od e'n fwy anodd fy'na o ran sicrhau achos dwi'n meddwl bod tipyn o 'hang-ups' 'da rhieni ynglŷn a dysgu'r iaith a dysgu trwy'r Gymraeg hefyd a dwi ddim yn meddwl ein bod ni wedi cracio hynny eto o ran, yn enwedig symud i'r uwchradd. Achos o'n ni'n gweithio i Gyngor [REDACTED] ar un adeg fel [REDACTED] a pan oedden nhw'n trio mireinio'u polisi iaith ayyb a oedd y broblem yn a o ran ysgolion oedd yn dysgu trwy gyfrwng y Cymraeg yn y cynradd ac wedyn rhieni yn anfon eu plant i'r uwchradd ac eisiau nhw i wneud rhai pynciau trwy'r Saesneg yn hytrach na'r Gymraeg. (21:00) A fel arfer y pynciau pwysig fel gwyddoniaeth neu beth bynnag. Roedden nhw'n ddigon hapus iddyn nhw wneud daearyddiaeth a hanes a'r Dyniaethau fel achos roedd rheina wedi cael eu gwneud erioed. Ond mathemateg a gwyddoniaeth, roedd tipyn o 'ww' a fydd y plant yn deall lefel yr iaith sydd ei hangen. Felly dwi'n meddwl bod dal gwaith i'w wneud yna o ran darbwyllo rhieni bod e yn bwysig a bod e'n bosib i blant ddysgu trwy'r iaith a bod dysgu trwy'r iaith yn mynd i helpu nhw i wella eu hiaith a dyna'r unig ffordd i wneud e mewn gwirionedd a dwi dal ddim yn siŵr ydyn ni wedi cracio hynny achos er bod y cwricwlwm newydd yn sôn am gontinwmm dyn ni dal yn y sefyllfa ble mae pethau ar gyfer ail iaith a iaith gyntaf, beth bynnag dach chi'n mynd i alw nhw a dwi wedi bod yn gweithio gyda Cwricwlwm Cymru ar hyn o bryd-

	Cymwysterau Cymru – gyda beth sy'n digwydd gyda'r TGAU newydd ac a fydd rhywbeth pontio ar gyfer ail iaith – wel dim ail iaith ond y Gymraeg mewn lleoliadau Saesneg a dwi'n meddwl bod gwneud y cam yna- dyn ni ddim wedi gwneud y cam yna (22:42). A bydd hynny yn bwysig ofnadwy a dwi ddim yn siŵr ydy' r Llywodraeth wedi deall hynny go iawn. Dwi ddim yn siŵr oes ateb i hynny achos mae wedi bodoli erioed mewn gwirionedd ond dwi'n meddwl bod e'n galonogol bod cymaint i rieni eisiau dysgu'r iaith eu hunain achos bod eu plant nhw yn mynd trwy'r sustem addysg Gymraeg. Dwi'n weddol obeithiol ond dwi'n meddwl bod yn rhaid i'r llywodraeth gadw llygaid ar beth sy'n digwydd a deall yn union beth sy'n digwydd achos rwy'n meddwl weithiau maen nhw'n gallu rhoi rhyw bolisi ar waith ond man rhaid adolygu'r polisi yna a mae'n rhaid gweld beth sy'n digwydd ar lawr dosbarth on'd oes ac ar lawr gwlad. (23:39). Felly..
23:47	<i>Ok- diolch yn fawr. Y cwestiwn olaf ar y pwnc yma yw- ydych chi'n meddwl bod gwerth mewn cael cymysgedd o athrawon sy'n iaith gyntaf ac sydd wedi dysgu'r iaith yn gweithio ar y cyd?</i>
23:56	O, yn bendant. Byddwn ni yn dweud bod hynny yn mynd i gyfoethogi profiad y ddwy ochr, yn enwedig i athrawon efallai sydd yn ddi-brofiad a lle mae eu hiaith nhw yn datblygu. Mae yn gallu bod o help. Ond dwi'n meddwl bod i agwedd y bobl iaith gyntaf fod yn bositif tuag at yr rhai- a fel dwi'n dweud- dwi ddim wedi dod ar draws unrhyw rhagfarn fy hunan ond dwi'n meddwl mae rhaid bod yn wylidwrus, on'd oes. Dwi ddim yn ymwybodol pan dwi'n mynd i gyfarfodydd – a mae'r rhan fwyaf wedi bod ar lein ers i fi fod yn diwtor- dwi ddim yn ymwybodol o bwy sy'n dod o gefndir ail-iaith a/ neu a gefndir ail-iaith- dim ond tybio ydw i o ran clywed nhw'n siarad a byddwn ni byth yn gofyn , oni bai bod pobl eisiau rhannu eu profiad nhw. Bydden ni ddim yn gofyn 'ers faint dych chi wedi bod yn dysgu', 'pwy gawsoch chi'n diwtor' neu beth bynnag. Dwi wedi mentora felly dwi'n – mae'r rhai-mae'r ganolfan yn gofyn i chi 'fyddwch chi'n fodlon bod rhywun yn ymuno a'ch dosbarth chi a dwi wastad yn fodlon i dderbyn unrhyw un sydd eisiau arsylwi neu beth bynnag achos dwi'n teimlo bod hynny o help a dwi'n meddwl allen ni wneud mwy o hynny. Achos mae arsylwi pwy bynnag, o ble dych chi'n dod – mae e o help i weld dulliau dysgu rhywun arall. Neu ddysgu ar y cyd – dyn ni ddim yn gwneud lot o hynny ond dwi'n eithaf lico dysgu ar y cyd achos dwi'n meddwl bod chi'n gallu bownsio syniadau ac ati rhwng dau diwtor a mae hynny'n helpu'r dosbarth (25:57). Felly dwi wastad yn croesawi unrhyw un sy'n fwy rhugl na fy nysgwyr i ddod i'r dosbarth. Felly... dwi'n meddwl... dwi ddim yn gweld e'n broblem mawr. Mae'n amlwg bod e wedi codi a oedd e'n ddiddorol o'n ni'n teimlo i ddysgu bod e'n ffactor mewn gwledydd eraill. O'n ni ddim wedi meddwl amdano fe o gwbl.
26:25	<i>A dyna'r cwestiwn olaf mewn gwirionedd- a diolch am bopeth rydych chi wedi dweud. Oes unrhyw gwestiwn gyda chi am beth dyn ni wedi trafod?</i>
	Na-dwi ddim yn meddwl ond mae e'n bwnc diddorol iawn.
	<i>(Ymlaen i sgwrs gyffredinol).</i>

Cyfweliad- Ymatebydd 4 – 21/10/22- Teilo

00:08	<i>Felly i ddechrau, dim ond i roi bach o gefndir i'r unigolyn- Pa fath o brofiad yw'ch profiad chi o ddysgu Cymraeg- ble oeddech chi, faint oedd eich oed chi ac ati, a pethau fel 'na?</i>
-------	--

00:19	Yr hyn oeddwn i'n dysgu, dych chi'n meddwl? ( <i>ddysgoch chi yn yr ysgol neu fel oedolyn?</i> ) Wel, do, yn y tŷ a bod yn onest achos dwi'n cofio pan o'n i'n ifanc iawn o'n i'n gallu rhifo lan i ddeg ac on ni'n gwybod y lliwiau so oedd rhieni fi yn.., nawr te- dyw mam a thad ddim yn siarad Cymraeg ym, wel, ond roedd tipyn bach gyda fy mam i ond sylweddolais i pan oeddwn i yn fy pedwardegau bod llawer o
01:20	Gymraeg gyda fy nhad. Doedd e byth wedi siarad â fi ( <i>diddorol</i> ) felly doedd dim llawer o Gymraeg yn y tŷ. Ac wrth gwrs, yn byw bron drws nesaf i gapel Cymraeg, capel yr annibynwyr, so o'n ni'n gallu clywed y Gymraeg trwy'r amser. So dwi'n cofio pan o'n ni'n bedwar cyn mynd i'r ysgol, dwi'n cofio siarad Cymraeg achos dwi'n cofio geiriau fel 'sialc' ( <i>reit, ie</i> ) ac 'oes' a 'mae' felly, ym, yn yr ysgol, yn arbennig yn yr ysgol feithrin, o'n nhw'n siarad Cymraeg er taw ysgol trwy gyfrwng y Saesneg oedd e. Roedden nhw'n defnyddio Cymraeg so roedd tipyn o Gymraeg yn yr ysgol er enghraifft i fynd i'r tŷ bach oedd rhaid gofyn 'gaf i fynd allan os gwelwch yn dda' ac i ateb y gofrestr yn y bore roedd rhaid dweud 'yma' a hefyd sech chi ddim yn gwybod ateb roedd rhaid i chi ddweud 'wn i ddim' felly roedd llawer o Gymraeg fel hynny yn a rhyw faint o Gymraeg gyda'r mamgu ar ochr fy nhad i a thadcu hefyd ond yn bennaf wrth symyd ymlaen, yn yr ysgol roedd e ac roeddwn i'n mwynhau siarad Cymraeg a roedd llawer o Gymraeg yn yr ysgol jyst yn dweud.
03:10	Rwy'n cofio'r athro/ athrawes yn gofyn 'ble mae'r sialc?' Wel 'o mae'r sialc ar y bwrdd Miss', 'mae'r sialc ar y llawr' neu 'mae'r sialc wedi cwmpo ar y llawr' a felly dwi'n cofio llawer o bethau fel hynny yn yr ysgol ac yn yr ysgol gynradd wedyn ac erbyn, ym, erbyn yr ysgol, beth yw e? Uwchradd? Ym pan o'ch chi'n un ar ddeg a roedd ysgol wahanol gyda fi- ysgol uwchradd. Yn un ar ddeg, roedd yr ysgol yn wahanol. Wedyn wnes i ddatblygu, ym, os ych chi eisiau diddordeb mawr yn yr iaith am ryw rheswm. Ac rwy'n cofio roedd prawf; prawf geirfa bob bore Dydd Llun ac roedd tri deg o eiriau bob wythnos a ro'n i'n dysgu nhw ar y cof, ar y cof ac ro'n ni'n eithaf da. Ac roedd yr athro Cymraeg yn oedd e'n myn di'r capel oedd ger y tŷ a hefyd Ieuan Wyn Jones oedd ei enw fe, roedd e'n byw yn yr un pentref felly ro'n i'n hoffi fe'n fawr. O'n ni'n gwneud yr ymdrech a wnes i sylweddoli tipyn bach yn nes ymlaen yn fy mywyd i erbyn un deg pedwar ron i'n gwybod cannoedd o eirfa yn y Gymraeg achos mae cof eithaf da gyda fi. Dyw e ddim yn awtomatig a beth yw e, ffotograffig? Mae'n hanner ffotograffig fel petai, so dwi'n gallu gweld y dudalen ond dwi ddim yn gallu gweld y geiriau ond dwi'n gallu gweld, dwi'n gallu, dwi'n gwybod os oes rhywbeth ar goll, fel petai.
04:39	So oedd geirfa enfawr gyda fi achos bod ni'n dweud pethau fel o bryd i'w gilydd, nawr ac yn y man, eiddigeddus, fel cenfigen, bendramwnwgl, achos on ni wastad yn dweud wrth yr athro, 'pryd ni'n mynd i ddweud bendramwnwgl', 'pam ni'n dysgu bendramwnwgl' -dyn ni byth yn defnyddio fe yn Saesneg chwaith, felly, so. Mae cof yr ysgol yn gryf iawn ac wedyn ar ôl yr oed yna dechreuais i mynd i Langrannog a Glan Llyn hefyd so oedd y diddordeb wedi mynd yn obsesiwn ( <i>reit, ie</i> ) ac oedd e fel hynny hyd at gael dechrau chweched dosbarth wedyn. Nawr te, doedd dim- ar ôl hynny.
05:36	Doedd dim Cymraeg gartref o gwbl a wedi hynny, ym, ac so yn yr ysgol oedd e a doedd dim llawer o bobl yn cymryd Cymraeg fel TGAU. Wel lefel O oedd e ar y pryd, roedd bron neb- ond fi. Fi oedd yn wneud e. Erbyn y chweched dosbarth dim ond fi oedd yn gwneud Cymraeg lefel A yn yr ysgol so on ni mewn dosbarth wrth fy hunan am ddwy flynedd. Oedd yn od dros ben a bod yn onest, doedd yr ysgol ddim eisiau i fi .. doedden nhw ddim wedi dweud 'dych chi ddim yn gallu cymryd lefel A' ond dywedon nhw oedd e yn yr un bloc a hanes a roeddwn i eisiau gwneud
06:37	

07:55	<p>Hanes fel lefel a a roeddwn i eisiau gwneud Hanes, Ffrangeg a Chymraeg a dywedon nhw 'na'. A dywedodd y dirprwy prifathro ' bydd rhaid i ti symud ysgol' a dywedais i 'pam- dwi wedi bod yn dod yma ers yn grwt felly pam ddylwn i newid ysgol er- ch' mod dylai'r Gymraeg fod ar gael i mi'. So yn y pen draw roedd rhaid i mi gymryd Mathemateg (<i>o reit</i>), lefel A Mathemateg- sy'n dwp. Ym, so wnes i lefel a Mathemateg gyda Ffrangeg a Chymraeg. Roedd y mathemateg yn anodd heb wneud ffiseg achos (<i>wela i</i>) achos roedd e'n eithaf.., roedd ffiseg yn helpu'r mathemateg ond dyna fe, yn yr ysgol roedd llawer o Gymraeg.</p> <p>Mae'r cof yn gryf a roedd e'n obsesiwn. Ro'n ni yn aelod o'r urdd, ro'n i'n Eisteddfota, ro'n ni'n adrodd yna wedyn yn yr ysgol ac yn lleol hefyd yn yr aelwyd a pethau fel na. So on ni wedi cymryd 'mlaen a hyd at yr oedran 18 on ni meddwl taw cenedlaetholwr on ni ond wnaeth hwnna newid. Ym, pan gyrhaeddais i'r brifysgol ond dyna fe. So llawer o gof o'r Gymraeg yn yr ysgol (<i>diolch</i>) yn bendant. A gwersylloedd yr Urdd hefyd ac hefyd r'on ni jyst yn mynd o amgylch y pentref lle on ni'n byw, roedd y pentref bach; roedd pwll glo. Yr unig bentref bach gyda pwll glo, nid tref ond pentref bach gyda pwll glo o'r enw XXX ger Aberpennar ac, ym, un diwrnod penderfynais i fynd o amgylch y pentref ac, ym, cnocio ar y drysau i ofyn pwy oedd yn siarad Cymraeg (<i>reit</i>) a ches i braw achos des i o hyd i dros dau gant o bobl oedd yn siarad Cymraeg oedd yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y pentref a doedd dim clem gyda fi(<i>na, na</i>). Doedd dim clem gyda fi roedd cymaint o bobl yn gallu dweud cymaint yn y pentref a trwy sgwrsio a phobl yn y Gymraeg a wedyn oedd ...yn un deg wyth oed. Ac wedyn ar ôl lefel A es i i goleg Llambled wedyn i wneud gradd yn y Gymraeg so hynny oedd yn y Brifysgol.</p>
09:03	
09:20	<p><i>Hyfryd, hyfryd. Tybed- es i Llambled hefyd, gyda llaw- lle gwych i fod. (trafferth gyda'r ffon ar y pwynt yma)Ydych chi'n clywed fi nawr. Mae'n fater o roi y ffon yn y lle iawn. O'n ni jyst yn dweud es i Llambled i wneud gradd hefyd, roedd e'n braf i astudio yna. Felly pa fath o waith neu addysgu ych chi wrthi ar hyn o bryd? Beth yw'ch swydd nawr?</i></p>
09:44	<p>O reit. Ar hyn o bryd, darlithiwr yn y Gymraeg dwi i Goleg XXX a, ond dwi ddim yn darlithio fel petai. Dyna beth yw teitl y swydd- tiwtor y Gymraeg i oedolion yw e. Ym, felly wedi bod gyda XXX ers bymtheg mlynedd erbyn hyn ac ym a hefyd dwi yn ddarlithydd yn y Saesneg gyda phrifysgol XXX hefyd so mae gyda fi gytundeb yno am tri mis yn yr haf</p>
10:28	<p><i>O reit, gwych. Felly i symud ymlaen at bethau, agweddau ar y 'native speakerism' yma, ym sut fyddech chi'n disgrifio'ch gallu yn y Gymraeg? Fyddech chi'n disgrifio'ch hunan fel rhywun rhugl, fel rhywun sy' wrthi'n dysgu...?</i></p>
10:45	<p>O, yn bendant yn ddwyieithog yn rhugl achos dwi'n meddwl yn Gymraeg pan dwi'n siarad Cymraeg a dwi'n meddwl yn Saesneg pan dwi'n siarad Saesneg a mae'n wahanol. A dwi wedi datblygu'r gallu yna oherwydd taw ieithydd ydw i hefyd achos dwi'n siarad Ffrangeg yn rhugl hefyd(<i>iawn</i>) a dwi'n siarad Llydaweg (<i>iawn</i>) yn rhugl hefyd achos ro'n i'n byw yn Llydaw am chwe mlynedd (<i>o- ok gwych, gwych</i>) a dysgu Cymraeg yn y brifysgol ac yn y dre (<i>reit</i>) hefyd (<i>o reit</i>)</p>
11:23	<p><i>Felly eich ateb i'r cwestiwn nesaf efallai yw 'na'. Dwi 'mond yn gofyn i bobl os ydych chi'n ymwybodol o unrhyw broblemau gyda'ch iaith wrth i chi ddysgu eraill (saib) yn eich..</i></p>
11:40	<p>Wel gallai, wel y problem gyda fi yw mae tipyn bach o 'chip ar y shoulder' gyda fi oherwydd profiadau fi yn Gymraeg gyda'r Cymry Cymraeg. Yn roedd yn.. cyn mynd i'r brifysgol... roedd yn ..oedd popeth yn nefol; roedd yn berffaith, pawb yn calonogol ac yn hapus a roi canmol trwy'r amser ond wrth gyrraedd y brifysgol a cwrdd a phobl; oedd yn beirniadu (<i>reit</i>) ***** (<i>Aneglur yma</i>)y Gymraeg,</p>
12:39	<p>Felly, ym, ond y Cymry Cymraeg yn beirniadu fi a ac roedd rhai yn chwerthin am fy</p>



15:09	<p>mhen i hefyd. Dwi'n cofio mynd fel swyddog i Glan Llyn ac r'on ni wedi datblygu diddordeb yn y tafodieithoedd erbyn hyn ac r'on i'n trio siarad Wenhwyseg trwy'r amser ac wrth gwrs gyda'r Wenhwyseg ,ym, doedd dim llawer o bobl yn gyfarwydd a'r Wenhwyseg felly roedd pobl yn barnu fi am siarad yn Wenhwyseg ac o'n i'n rhy ifanc ac yn rhy wan i ymladd yn ôl fel petai (<i>reit reit</i>). Allwn ni wedi dweud wrthyn nhw, 'mae'r pethau rwy'n dweud yn berffaith gywir ac mae'r pethau'n go iawn achos r'on i'n dweud 'bore da' nid 'bore da' achos 'bore da' yw e yn y Wenhwyseg fel yn Gwynedd ac felly roedd negyddrwydd ond nid jyst myfyrwyr ond oedolion hefyd a roedd hynny'n ypsetio fi yn fawr iawn.</p> <p>Rhieni, wel fy ffrindiau, wel sbo, rhaid i ti gloywi dy iaith. Dych chi ddim yn dweud pethau fel hynny ac on i erioed wedi cael ymateb fel hynny o'r blaen a d'on ni ddim yn deall pam oedd pobl yn gwneud hynny achos doedden nhw ddim yn gwneud hynny gyda'r Ffrangeg. Dim byd fel hynny a r'on ni'n gwneud Almaeneg yn y brifysgol yn y flwyddyn gyntaf. Doedd neb yn gofyn cwestiynau neu'n chwerthin am fy mhen i (<i>na na</i>).Dwi'n cofio bod mewn un darlith yn yr Almaeneg a roedd y darlithydd yn newydd i Lamedd a roedd e'n gofyn cwestiynau am y Gymraeg a roedd e'n dweud ' pwy sy'n gallu ateb honna a ron ni ar fin ateb a dywedodd rhyw foi yn y cefn 'O, paid gofyn iddo fe- dysgwr yw e -fydd e ddim yn rhoi'r ateb go iawn'. (<i>O, diar diar</i>) roedd hynny yn fraw i fi (<i>ie, ie</i>). Des i yn syth nol, 'ond beth bydda i'n dweud bydd yn gywir, beth bydd e'n dweud, bydd yn llawn gwallau'. So o'n ni'n gallu ymateb yn ol ond do'n di ddim yn deall pam oedd pobl yn dweud hynny a dwi wedi byw gyda hynny a mae e wedi bod yn thema trwy fy mywyd i ers hynny. A erbyn hyn rwy bron yn 61 a wedi bod yn siarad Cymraeg am dros hanner can mlynedd felly dwi'n deall a dwi'n ysgrifennu yr iaith lenyddol. Mae fy iaith ysgrifenedig yn dda, yn dda dros ben</p>
15:44	<p><i>Ydych chi'n meddwl yn eich profiad chi, ydych chi wedi gweld disgyblion ych chi'n eu haddysgu yn gwahaniaethu rhwng rhywun maen nhw'n meddwl sydd wedi dysgu a rhywun maen nhw'n meddwl sydd yn rhugl?</i></p>
15:59 16:49 18:58	<p>Wel , dyma'r peth- dwi dal yn cael y cwestiynau yn y dosbarthiadau- wyt ti wedi dysgu? (Aneglur)Tiwtor, dim chi ac yn (Anelgur) cyfweled a hi ar y teledu a roedd hi'n dweud wel wrth gwrs ■■■, rydych chi wedi dysgu a dywedodd ■■■, gwranda dwi wedi bod yn siarad Cymraeg am dros bedwar deg mlynedd. Dwi ddim yn meddwl amdana i fy hunan fel dysgwraig erbyn hyn. A mae'r yr un peth gyda fi. Dwi dal yn dysgu- dyn ni gyd yn dysgu ond beth dwi'n gwneud yw datblygu a gwella a gloywi. Dwi ddim yn dysgu erbyn hyn, yn yr un modd gyda'r Saesneg-Saesneg yw fy mamiaith i fi ond dwi'n siarad Ffrangeg yn rhugl hefyd a mae llawer mwy o hyder gyda fi yn siarad Ffrangeg na Chymraeg oherwydd dwi erioed wedi cael problemau gyda'r Ffrangeg. Does neb wedi chwerthin am fy mhen i, wedi beirniadu fi, wedi dweud pethau cas, dim byd fel hynny. So mae mwy o hyder gyda fi so dwi wastad wedi dioddef gyda rhyw fath o sai'n gwybod, prinder hyder weithiau gyda fi achos agwedd pobl eraill. Ac efallai dwi wedi bod yn anlwcus a wedi cwrdd a'r bobl anghywir ond pan o'n ni'n gweithio. O mae hyn yn enghraifft da i chi. Pan o'n ni'n diwtor i ganolfan ■■■ ac er enghraifft yn ni'n cael, efallai ro'n ni ar rhyw fath o gwrs penwythnos. So o'n ni wedi cael tiwtor gwahanol y dydd blaenorol ac ym roedd y tiwtor yna yn disgrifio'r tiwtor nesaf a gyda ■■■ o'n nhw wastad wneud hynny a cyn i fi ddechrau siarad roedd pobl yn dweud wrtha i taw dysgwr o'n ni ac roedd y tiwtor wedi dweud ac roedden nhw'n gwneud hynny trwy'r amser ac wedyn ro'n ni'n teimlo bod nhw'n meddwl bod nhw ddim yn cael tiwtor oedd o'r un safon. Yn eu llygaid nhw i gael rhywun oed yn siarad Cymraeg o'r aelwyd yn llawer gwell na chael rhyw un sydd wedi dysgu. Nawr te, wrth gwrs, fel athro, tiwtor ac athro proffesiynol, dwi'n gwybod yn well na dim byd taw</p>

20:16	<p>rhywun sydd wedi meistrolï, sy wedi cael hyfforddiant dysgu, sydd wedi astudio- <i>nhw</i> sy'n gwybod su t i ddysgu, siwt i helpu pobl caffael iaith hefyd, nid pobl syn siarad Cymraeg o'r aelwyd ok. Ond wrth gwrs, dwy pobl yn y stryd, i'r bobl yn y Rhondda, roedd agwedd <i>nhw</i> cynddrwg ac agwedd y tiwtoriaid oedd yn lladd arna i (reit, ie, ie). O'n ni ddim yn deall hynny. Pam oedden <i>nhw</i>'n gwneud cymaint o ymdrech y wneud hynny trwy'r amser a beth dwi'n wneud , dwi wastad wedi bod yn onest gyda fy atebion a ron ni'n dweud 'wel drychwch, dwi wedi dysgu Cymraeg a mae llawr o fanteision gyda fi- rwy'n gallu dweud cymaint o bethau. Tasech chi wedi cwrdd a fi yn unarddeg oed, gallen ni wedi cael sgwrs yn y Gymraeg a baswn i fyth wedi, fyddwn i byth wedi defnyddio'r Saesneg chwaith. A ron ni'n defnyddio geiriau Cymraeg trwy'r amser, a doeddwn i ddim yn defnyddio geiriau gydag -o ar y diwedd, wnes i weld hynny pan gyrhaeddais i Llambed (chwerthin) a gweld y holl dancherys a'r BJ Jones yn dweud wrtha i 'odych chi'n gallu writo'r cheque achos dwi ddim yn gallu reado'r cheque yn y Gymraeg' a pethau fel yna. O'n ni byth yn wneud pethau fel hynny. Mae safonau uchel i gael ac wrth gwrs pan oeddwn i'n ysgrifennu a pobl oedd yn cefnogi fi yn Llambed, fel yr athro Simon Evans yn dweud mae [REDACTED] yn siarad Cymraeg graenus. Mae [REDACTED] yn ysgrifennu'n graenus. Ond eto i gyd o'n ni dal yn teimlo fel rhywun ail ddosbarth gyda rhai myfyrwyr a rhieni pan oedd y rhieni yn ymweld ch'mod yn ystod yr wythnos a'r gwyliau. So ym oedd hwnna wedi bod yn siomedig iawn.</p>
21:03	<p>A rwy dal yn cael rhyw fath o ragrith nawr, ym, ym wrth ch'mod ym gyda'r swyddi mawr. Dwi byth wedi cyrraedd y brig fel petai achos, achos mae uchel geision gyda fi i ysgrifennu llyfrau; llyfrau gramadegol, ffonolegol ac ati ond dwi wedi cael cymaint o bobl sydd wedi rhwystro fi (reit) rhag fynd ymlaen ac mae hynny wedi bod yn. A dwi ddim eisiau bod yn fethiant. Yn y pendraw wrth agosáu at ymddeol, dwi ddim eisiau bod yn fethiant, neu feddwl 'mod i'n fethiant ac ym yn ddiweddar dwi wedi cael, wedi cael e-bost oddi wrth [REDACTED] a dwi'n myn di ysgrifennu i ddysgu Cymraeg lefel mynediad a sylfaen, Rwy'n myn di wneud llawlyfr gyda'r ym ym gyda'r canllawiau sut i ynganu'n dda yn y Gymraeg so efallai bod pethau'n mynd i newid i fi (gwyd) ar y funud olaf fel petai.</p>
21:35	<p>A rwy dal yn cael rhyw fath o ragrith nawr, ym, ym wrth ch'mod ym gyda'r swyddi mawr. Dwi byth wedi cyrraedd y brig fel petai achos, achos mae uchel geision gyda fi i ysgrifennu llyfrau; llyfrau gramadegol, ffonolegol ac ati ond dwi wedi cael cymaint o bobl sydd wedi rhwystro fi (reit) rhag fynd ymlaen ac mae hynny wedi bod yn. A dwi ddim eisiau bod yn fethiant. Yn y pendraw wrth agosáu at ymddeol, dwi ddim eisiau bod yn fethiant, neu feddwl 'mod i'n fethiant ac ym yn ddiweddar dwi wedi cael, wedi cael e-bost oddi wrth [REDACTED] a dwi'n myn di ysgrifennu i ddysgu Cymraeg lefel mynediad a sylfaen, Rwy'n myn di wneud llawlyfr gyda'r ym ym gyda'r canllawiau sut i ynganu'n dda yn y Gymraeg so efallai bod pethau'n mynd i newid i fi (gwyd) ar y funud olaf fel petai.</p>
23:05	<p><i>Dyna oedd y cwestiwn nesaf mewn gwirionedd- ydych chi'n meddwl bod pethau wedi newid dros amser?</i></p>
23:07	<p>Wel, ch'mod mae pethau wedi newid, do, achos pan dwi'n meddwl am y cyfnodau cyn Cymraeg i Oedolion fel petai, ron ni yn y lleiafrif. Pan o'n ni yn y Brifysgol yn Llambed yn y mlwyddyn i, fi oedd yr unig ddysgwyr yn y ch'mod oedd yn gwneud gradd yn y Gymraeg a fi oedd yr unig fachgen, yr unig ddisgybl oedd yn gwneud lefel A ond erbyn hyn mae llawer mwy o bol yn gwneud lefel A, mae llawer mwy o bol yn siarad Cymraeg fel oedolion. Mae llwyth o bobl yn siarad nawr a mae llawer o ddysgwyr ac so dwi'n credu bod pethau yn newid (ydy) achos mae pethau yn gadarnhaol ac yn dda a dyna pam dwi wrthi'n calonogi pobl trwy'r amser (<i>na, na</i>).</p>
24:10	<p>Dyna yw fy swydd i. Dwi yn esiampl dda o rywun sydd yn hyrwyddo i fod yn dda ond eto i gyd dwi wedi profi pethau negyddol iawn. Mae'n gwneud fi'n drist a bod yn onest. Dwi dal yn teimlo'n drist am llawer o beth a pam mae pobl.. dwi' gwybod y cwestiwn; 'beth yw'r broblem?' (ie ie) iddyn <i>nhw</i>. Achos un peth oeddwn ni'n wneud o ran ynganu er enghraifft. A mae hyn yn bwysig iawn- yn yr ysgol pan och chi'n wneud lefel o lefel A roedd yr athrawon oedd yn dysgu Cymraeg yn dweud Aesteddod i ni, Aesteddod- nid Eisteddfod ac felly yn eu yn lle ei. Felly dyna beth oeddwn i'n dweud am flynyddoedd a sylwedolais i- dyna beth oedden <i>nhw</i>'n canolbwyntio arnyn <i>nhw</i>, fel petai. A dweud 'O- dysgwyr ydych chi'. Dwi ddim yn dweud Ae nawr rwy'n dweud Ei. Ond wrth gwrs pan wnes i feistrolï'r Wenhwyseg on ni ddim yn dweud Ei, neu'r pethau Ei o gwbl. O'n ni'n</p>
25:31	<p>beth oedden <i>nhw</i>'n canolbwyntio arnyn <i>nhw</i>, fel petai. A dweud 'O- dysgwyr ydych chi'. Dwi ddim yn dweud Ae nawr rwy'n dweud Ei. Ond wrth gwrs pan wnes i feistrolï'r Wenhwyseg on ni ddim yn dweud Ei, neu'r pethau Ei o gwbl. O'n ni'n</p>

	<p>dweud I felly Ei ferch e- I merch hi. Ond ers hynny, nawr yn siarad a phobl does neb yn gofyn i fi os taw dysgwr di neu beidio. Ond o'r blaen pan on ni'n dweud Aesteddfod o'n nhw'n gwybod yn syth (<i>reit, ie</i>).</p> <p>Erbyn hyn, erbyn hyn, dwi wedi newid yn <i>llwyr</i> a dwi ddim yn cael y cwestiynau ac a bod yn onest dwi ddim yn cael y cwestiwn o gwbl achos... Yn 61 oed bron beth sy gyda fi nawr yw dwi'n ddoeth (<i>ie, ie</i>) a hefyd mae gyda fi profiad- does dim ofn gyda fi erbyn hyn. Dwi'n gallu profi popeth dwi'n dweud. Dwi'n gallu cyfiawnhau erbyn hyn felly ond mae wedi cymryd blynyddoedd</p>
26:36	<p><i>Gaf i ofyn i chi (mae hyder gyda fi- wedi dod ychydig bach yn ôl) Gwych. Ga' i ofyn i chi beth ych hi'n meddwl o'r syniad sy na nawr achos mae cymaint a drafod o'r syniad o gael gwared ar defnyddio iaith fel 'ail-iaith' a 'dysgwyr' a mae'r llywodraeth yn trio'r rhoi'r syniad yma bod iaith yn gontinwmm ac yn y cwricwlwm newydd, dyna fel yn ni fod i weld e. Beth ych chi'n meddwl o hynna te?</i></p>
27:00  27:55	<p>Wel, dwi'n gefnogol iawn ohono fe achos dau beth- yn gyntaf oll dwi eisiau cael gwared ar dermau fel ail-iaith ac hefyd fel Cymro Cymraeg, Cymraes Cymraeg, a pethau sy'n labeli pobl achos mae pobl wedi bod yn defnyddio termau fel 'o iaith gyntaf dwi (<i>ie</i>) fel rhyw fath o fathodyn. Yn dweud 'mod i yn well na chi achos dych chi yn 'ail iaith'. So mae rhaid i ni, dwi'n credu cael gwared ar bethau fel hynny a dwi di darllen sawl erthygl yn Cymru Fyw ac ati gyda phobl ifanc sy'n byw yng Nghaerdydd yn dweud yr un pethau 'mod i wedi profi. Eu bod nhw wedi dod o hyd i bobl sy' wedi bod yn negyddol iddyn nhw. Dyna beth sy'n ddi-ddorol a dyna pam rwy'n gefnogol ohono fe. Ron ni wedi bod yn dysgu pobl yn eu 80au, hyd yn oed 90au a roedden nhw'n dysgu Cymraeg yn gorffennol a gyda'r gorffennol rwy'n sôn am y 30au, 40au, 50au ac yn y gorffennol doedd dim Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith. Dim ond un Cymraeg oedd yn digwydd ar y pryd. A dwi wedi gweld llyfrau, a daeth un ferch i mewn gyda llyfr oedd hi wedi cael o'r ysgol. Oedd hi wedi cadw nodiadau, cadw'r gramadeg i gyd a hi oedd yn ddysgwraig, ddim yn dod o deulu Cymraeg, oedd yn siarad Cymraeg gartref a roedd y nodiadau i gyd yn y Gymaeg, ac yn y Gymraeg roedden nhw'n cael eu dysgu ac yn y Gymraeg roedden nhw'n ysgrifennu. A roedd hi'n dda a doedd e ddim yn effeithio arni hi o gwbl. Oedd hi'n dysgu cystal ag unrhyw un arall yn y dosbarth so. Dwi wedi gweld ôl lwyddiant hynny yn barod felly dwi'n meddwl bod hynny yn rhywbeth dda dros ben.</p>
29:22	<p><i>Ac felly y cwestiwn olaf a bod yn onest yw, oed unrhyw gynigion gyda chi ar sut allen ni symud ymlaen?</i></p>
29:33  30:45  31:35	<p>O llawer, mae llawer o syniadau gyda fi. Ac ym, wel rhywbeth sy'n sy ddim yn digwydd ym mae dysgu Cymraeg, yn arbennig gydag oedolion yw, dyn ni ddim yn rhoi prawf iddyn nhw cyn mynd i mewn i ddsbarth ( a, reit) i weld pa fath o lefel 'dyn nhw. Mae'n ddigon da i ysgrifennu siec neu talu'r arian a maen nhw mewn. (<i>reit</i>) Ac wedyn mae oedolion yn penderfynu brin pa lefel ac yn hynny dach chi'n cael pobl. Beth sy'n hollol anghywir gyda'r system yw dych chi'n cael pobl sy wedi gwneud efallai lefel sylfaen a lefel canolradd yn y gorffennol ond wedi penderfynu, 'o dwi'n mynd nol i 'r cychwyn cyntaf nawr achos dwi ddim wedi gwneud Cymraeg ers tro'. Ond mae gormod o Gymraeg gyda nhw a beth sy'n digwydd, mae'n effeithio ar y bobl sydd yn wir, wir ddechreuwr yn y dosbarth (<i>ydy</i>) a mae'n dinistrio a difetha'r holl ddsbarth a dwi wedi gweld hynny o flwyddyn i flwyddyn. A bydda i'n stopio hynny. Maen rhaid i chi sicrhau bod pobl o safon go iawn yn y dosbarth. Dych chi'n gallu gwahaniaethu ond pan dych chi'n gwahaniaethu mewn dosbarth dych chi'n gwahaniaethu o hyn i hyn , nid o yma i yma. Mae rhaid bod yn eithaf agos at ei gilydd. Efallai bod ychydig yn well neu ychydig yn is neu wanach. Ond nid yn bell, rydych chi'n cael. Dych chi ddim yn</p>

<p>32:33</p> <p>33:19</p>	<p>gallu gwneud hynny ac felly i wneud beth dan ni'n galw yn Saesneg, 'placement test'; ac yn bwysig, bwysig dros ben a hefyd...</p> <p>A dwi'n credu'n gryf yn hwn, mae rhaid i siaradwyr naturiol gwella a gloywi eu Cymraeg nhw achos mae rhaid i ni... dyn ni ddim yn gallu parhau gyda beth sy da ni ar hyn o bryd gyda'r holl dafodieithoedd a bobl sydd. e.e. pobl yn y Gogledd sy'n gwyllo Pobl y Cwm gydag isdeitlau Saesneg. Dyna beth sy'n digwydd a pobl o'r De sy'n edrych ar Rownd a Rownd yn cwyno bod nhw dim yn deall Cymraeg y Gogledd a dyna beth sy wedi bod yn digwydd ers dechrau S4C. Pobl y Goledd yn cwyno bod pobl y De ddim yn gallu deall Cymraeg y Gogledd. Cymraeg y De ac ym a ond- yr hyn sydd edi digwydd oherwydd, wel colli crefydd a pobl ddim yn mynd i'r capel, mae Cymry Cymraeg wedi colli yr iaith ffurfiol a dim ond y tafodiaith sy' gyda nhw. (A beth am?) Mae hynny, (sori- cariwch ymlaen) mae hynny'n naturiol a dwi'n credu nad yw naturiol ddim yn hollbwysig, mae e yn bwysig tu hwnt ond mae rhaid i chi gael rhyw fath o safonau er mwyn cwrdd yn y canol fel petai a tasai Cymry Cymraeg yn cwrdd yn y canol gyda phobl sy'n dysgu.</p> <p>Bydd pethau yn newid achos bydd pawb yn gallu cyfathrebu. Pan ych chi'n mynd mewn i ystafell fawr sy'n llawn o ddysgwyr, mae'r dysgwyr yn deall ei gilydd yn siarad Cymraeg achos maer' tiwtoriaid yn siarad y fath o Gymraeg bod nhw'n dysgu yn y dosbarth. Ond y funud dach chi'n cael rhywun sy'n mynd i mewn gyda thafodiaith ac mae..dyw pobl ddim yn deall ei gilydd. Mae rhaid i rywun newid a ch'mod 'on nhw wedi creu Cymraeg Byw. Oedd e wedi cael ei greu er mwyn siaradwyr naturiol, nid er mwyn dysgwyr. Achos roedd y pwyllgor o academwyr oedd wedi creu deunyddiau yn llawn o bobl fel ch'mod Saunders Lewis ac Ifor Williams a pobl academiaidd iawn ond roedd e'n fethiant achos roedd pobl yn anwybyddu, yn anwybyddu popeth. Ac wrth gwrs mae rhaid i ni safoni, dyna beth yw e, mae rhaid i ni safoni yr iaith er mwyn, wel er mwyn y wlad er , so , ddim yn siŵr, i ganiatáu i ni gyd ddod at ein gilydd i gyfathrebu ac i ddeall ein gilydd achos mae'n rhy drist fel y mae.</p>
<p>34:45</p>	<p><i>Ac o ran yr athrawon, sori, jyst yn meddwl, ar yr un trywydd, o ran yr athrawon sydd wedi derbyn beirniadaeth o ran eu bod nhw wedi dysgu. Oes na rhywbeth allen ni wneud i gael gwared ar y feirniadaeth benodol yna? (Pobl sy'n beirniadu ych chi'n meddwl?) Ie, pobl sy'n beirniadu athrawon Cymraeg sy wedi dysgu eu hunain a phobl syn cael eu beirniadu am eu bod wedi dysgu. Ch'mod bod pobl yn meddwl bod pob mamiaith yn gwneud athrawon gwell. Oes na..</i></p>
<p>35:24</p> <p>36:28</p> <p>37:27</p>	<p>Mae'n gamgymeriad, mae'n gamgymeriad. Mae dibynnu ar y, mae'n dibynnu ar yr unigolyn wrth gwrs. Dwi wedi cwrdd a phobl a Chymry Cymraeg sy'n diwtoriaid fel [REDACTED], ych chi'n nabod [REDACTED]? (nag ydw) [REDACTED] oedd wedi ysgirfennu y llyfr cyntaf Cymraeg Lefel Mynediad a mae'n gallu siarad Sbaeneg yn rhugl hefyd so mae hi'n ieithydd, mae hi'n deall. A beth ch'mod sut yw e i ddysgu iaith i gaffael iaith a mae hi wedi bod yn diwtor. Ond beth sy'n digwydd yw mae rhaid i ni. Rhaid i ni gael yr hyfforddiant go iawn. Ok so e.e dwi'n dysgu Saesneg fel ail iaith hefyd ac i fod yn diwtor rhaid i chi gael tystysgrif dysgu. Mae rhaid i chi wneud yr hyfforddiant go iawn. Gyda'r nifer o oriau a heb yr hyfforddiant dych chi ddim yn gallu bod yn diwtor o gwbl. Ac ar ôl dwy flynedd mae rhai i chi wneud cymhwyster arall ym a wedyn dych chi'n mynd yn diwtor go iawn, llawn amser. Yn y Gymraeg, dyn ni'n hanner can mlynedd tu ôl i'r mae Saesneg achos mae pobl dal yn dod mewn sy'n siarad Cymraeg yn rhugl ond dyn nhw ddim yn gallu dysgu. Does dim clem gyda nhw sut i addysgu, dim clem. A wedyn a dyna beth sy'n digwydd. Pan dych chi'n cael grwp o bobl a wedyn mae pobl sy'n gryf ac yn glyfar ac yn drefnus a wedyn dych chi'n cael pobl sy'n dod mewn sy ddim cystal a hynny, nhw yw'r bobl sydd mwyaf peryglus achos nhw yw'r bobl sy'n wneud y beirniadu. A edyn,</p>

